



Arsyllfa **Wledig** Cymru
Wales **Rural** Observatory

**TREFI BACH A THREFI MARCHNAD
YN Y GYMRU WLEDIG A'U
CEFNWLEDYDD**

Chwefror 2007



TABL CYNNWYS

Pennod 1	Cyflwyniad	1
	Trefi Bach a Threfi Marchnad yn y Gymru Wledig	1
	Arwyddocâd Polisi Trefi Bach a Threfi Marchnad	3
	Ymchwil Flaenorol i Drefi Bach a Threfi Marchnad	5
	Methodoleg a Ffynonellau Data	9
Pennod 2	Diffinio Trefi Bach a Threfi Marchnad	12
	Cyflwyniad	12
	Diffinio Trefi Bach a Threfi Marchnad yn yr Astudiaeth hon	13
	Diffinio Ardaloedd Trefi Bach a Graddfeydd Data	14
Pennod 3	Trefi Bach yng nghyd-destun yn y Gymru Wledig	16
	Cyflwyniad	16
	Poblogaeth	16
	Economi Leol	30
Pennod 4	Trefi Bach fel Canolfannau Gwasanaeth a Chyflogaeth yn y Gymru Wledig	36
	Cyflwyniad	36
	Cyflogaeth	36
	Gwasanaethau Masnachol, Cyhoeddus a Chymunedol	44
Pennod 5	Trefi Bach fel Canolfannau Datblygiad Cymdeithasol ac Economaid yn y Gymru Wledig	54
	Cyflwyniad	54
	Creu Swyddi mewn Trefi Bach a Threfi Marchnad	55
	Cronfeydd Strwythurol Ewrop	59
	Buddsoddi Cymdeithasol: Cronfa Gymunedol NLCB	65
	Casgliadau	69
Pennod 6	Astudiaethau Achos	70
	Cyflwyniad	70
	Llandrindod	70
	Llanidloes	75
	Caldicot	78
	Llanelwy	82
	Llandeilo	87
Pennod 7	Casgliadau	91
Cyfeiriadau		94
Atodiadau		
	Atodiad A: Trefi Bach y Gymru Wledig a Nodwyd gan Ddata Iefel Wardiau	96
	Atodiad B: Is-gyfres o Drefi Bach i'w	

Dadansoddi Ymhellach, yn ôl ward ac ardal gynnyrch y Cyfrifiad	100
Atodiad C: Ystadegau Allweddol ar gyfer Newid yn y Boblogaeth ac Oedran ar gyfer Trefi Dethol	104
Atodiad D: Ystadegau Allweddol ar gyfer Trefi Bach Dethol o'r Mynegai Amddifadedd Lluosog	106
Atodiad E: Cwmnïau yn 300 Uchaf Cymru yn ôl trosiant a Leolir mewn Trefi Bach	108
Atodiad F: Ystadegau Cyflogaeth Allweddol ar gyfer Trefi Bach Dethol	110
Atodiad G: Ystadegau Allweddol ynghylch Cymudo i'r Gwaith	112
Atodiad H: Ystadegau Allweddol ar Ddarparu Gwasanaethau mewn Trefi Bach	115
Atodiad I: Gwasanaethau Cyhoeddus Allweddol mewn Trefi Dethol	119
Atodiad J: Y Rhai sy'n Hawlio Lwfans Ceisio Gwaith mewn Trefi Bach Dethol, 1998, 2000 a 2003	121
Atodiad K: Nifer Sylweddol y Swyddi a Grëwyd ac a Gollwyd mewn Trefi Dethol, 2000-2005	123
Atodiad L: Cyllid ar gyfer Prosiectau mewn Trefi Dethol Gan Gronfeydd Strwythurol Ewrop a'r Gronfa Gymunedol	125
Atodiad M: Nodweddion Arwyddol o Fathau o Drefi Bach	127

PENNOD UN: CYFLWYNIAD

Trefi Bach a Threfi Marchnad yn y Gymru Wledig

- 1.1 Mae trefi bach a threfi bach yn nodwedd nodedig o ddaearyddiaeth Cymru wledig. Caiff eu pwysigrwydd ei leihau gan y ffaith bod prif ardaloedd trefol Cymru wedi'u cronni ar hyd arfordiroedd y gogledd a'r de a bod dwysedd poblogaeth Cymru wledig yn gymharol isel. O Lanelli a Chwmbrân yn y de i ardal drefol Llandudno-Prestatyn ar hyd arfordir Gogledd Cymru ceir ardal eang o fwy nag 1.5 miliwn hectar lle nad oes unrhyw ardal drefol â phoblogaeth o fwy nag 20,000 o bobl. Golyga hyn fod y Gymru wledig yn lle gwahanol iawn i gefn gwlad Lloegr, lle mae'r rhan fwyaf o gymunedau gwledig o fewn cyrraedd tref ganolig o leiaf, ac mae hyn yn gosod galwadau ychwanegol ar drefi'r Gymru wledig. Felly mae trefi mwy fel Aberystwyth, Bangor, Caerfyrddin a Hwlfordd yn cyflawni swyddogaeth canolfannau rhanbarthol neu isranbarthol a fyddai mewn cyd-destun arall yn cael ei chysylltu fel arfer â threfi â phoblogaeth o 50,000 neu fwy. Yn yr un modd, mae nifer fawr o aneddiadau â llai na 2,000 o drigolion yn y Gymru wledig a ystyriwyd yn hanesyddol yn drefi ac sy'n parhau i weithredu fel canolfannau gwasanaeth ar gyfer yr ardaloedd gwledig oddi amgylch.
- 1.2 Dylid cydnabod bod trefi bach a threfi marchnad yn ddosbarth ar eu pennau eu hunain yn strwythur daearyddol Cymru. Er bod trefi bach a threfi marchnad yn aml yn cael eu 'colli' pan fydd categorioedd cyffredinol o ardaloedd 'gwledig' a 'threfol' (yn enwedig pan gaiff y rhain eu diffinio ar lefel wardiau lleol), maent yn wahanol iawn i'r ddau grwp. Mae trefi bach a threfi marchnad yn wahanol i ardaloedd trefol helaeth de-ddwyrain Cymru a de Cymru a'r Cymoedd o achos eu hynysigrwydd cymharol, eu swyddogaeth gwasanaethau gwell o'i chymharu â'r boblogaeth, crynodiad gofodol eu tiroedd a'u rhyngweithio â'r ardaloedd gwledig oddi amgylch. Eto, maent hefyd yn wahanol i gymunedau gwledig am eu bod yn gallu cefnogi nifer uwch o wasanaethau a chyfleusterau, yn meddu'n aml ar sylfaen economaidd ehangach ac yn gallu bod yn ddigon mawr i arddangos nodweddion corfforol a chymdeithasol sy'n 'drefol'. Ar yr un pryd, mae'r trefi bach a threfi marchnad wedi eu cysylltu'n annatod ag ardaloedd trefol mwy ac ardaloedd gwledig fel ei gilydd trwy we gymhleth o lifoedd, rhwydweithiau a rhyngweithio cymdeithasol ac economaidd.
- 1.3 Fodd bynnag, nid yw trefi bach na threfi marchnad Cymru wledig yn gategori unffurf. Yn yr astudiaeth hon, defnyddir 'tref fach neu dref marchnad' ar gyfer aneddiadau sydd â phoblogaeth sy'n amrywio o lai na mil o drigolion i fwy na phymtheng mil. Mae cryn amrywiaeth ymhlith y trefi o ran eu maint a'r gwahaniaethau o ran nifer a'r math o wasanaethau y maent yn eu cynnal, a maint y tir oddi amgylch y maent yn ei wasanaethu. Mae ganddynt strwythurau economaidd gwahanol a strwythurau poblogaeth gwahanol. Mae rhai wedi profi cynnydd sydyn yn y boblogaeth ac yn yr economi yn ystod y blynyddoedd diwethaf, mae eraill wedi profi cwmp mewn cyflogaeth a newid cyfyngedig o ran poblogaeth. Mae'r trefi hefyd yn gynnyrch taflwybrau hanesyddol gwahanol. Mae modd dynodi llawer o'r trefi a gynhwysir yn yr

astudiaeth hon yn gywir yn 'drefi marchnad' yn yr ystyr hanesyddol, sydd wedi datblygu fel canolfannau masnachol economaidd eu cymuned; eto nid dyma swyddogaeth hanesyddol rhai trefi sydd wedi datblygu'n drefi diwydiannol neu'n drefi porthladd.

1.4 Amcanion yr astudiaeth hon oedd archwilio nodweddion neilltuol trefi bach a threfi marchnad yn y Gymru wledig, o'u cymharu ag ardaloedd trefol a gwledig mwy yn y rhanbarth; ac archwilio'r rhyngweithio cymdeithasol ac economaidd rhwng trefi bach a'u cymunedau cyfagos. Mae'r ymchwiler yn sylwi ar 'ôl troed economaidd' trefi bach a threfi marchnad, gan archwilio cysylltiadau cyflogaeth a gwneud busnes i sefydlu graddau o ymdoddi economaidd rhwng trefi ac ardaloedd oddi amgylch; a'r 'ôl troed cymdeithasol', a archwilir o ran defnydd yr isadeiledd cymdeithasol mewn trefi gan drigolion yn eu cefnwledydd. O'r herwydd, mae'r prosiect yn anelu at fynd i'r afael â'r pwnc a ydy buddsoddi'n gymdeithasol ac yn economaidd mewn trefi bach a threfi marchnad yn 'ymestyn' i'r cymunedau oddi amgylch, ac yn nodi teipoleg o wahanol fodolau o ran rhyngweithio rhwng y dref a'r gefnwlad a allai gael ei defnyddio wrth ddatblygu strategaethau ar gyfer adfywio'r Gymru wledig.

1.5 Llywiwyd yr ymchwiler gan bum cwestiwn allweddol:

- Sut mae nodweddion cymdeithasol ac economaidd trefi bach a threfi marchnad yn cymharu â rhannau eraill o Gymru wledig?
- Sut mae'r buddsoddi cymdeithasol ac economaidd diweddar mewn trefi bach a threfi marchnad yn cymharu â rhannau eraill o'r Gymru wledig?
- I ba raddau y mae trefi bach a threfi marchnad wedi integreiddio i'w cefnwledydd trwy ryngweithio economaidd?
- I ba raddau y mae trefi bach a threfi marchnad wedi integreiddio i'w cefnwledydd trwy ryngweithio cymdeithasol?
- A oes modd nodi gwahanol fodolau o ryngweithio rhwng trefi bach a threfi marchnad â'u cefnwlad?

1.6 Rhoddwyd sylw i'r cwestiynau hyn trwy gyfrwng proses ymchwiler â dwy ran iddi. Canolbwyntiodd rhan gyntaf yr ymchwiler ar ddadansoddi data eilaidd, boed ar lefel gyfansymiol yn y Gymru wledig neu'n gyfres sampl o 44 o drefi bach a threfi marchnad. Rhoddodd y dadansoddiad hwn sylw i gwestiynau 1 a 2 yn bennaf, ond mae hefyd wedi rhoi sylw rhannol i gwestiynau 3, 4 a 5. Roedd ail ran yr ymchwiler yn gysylltiedig ag astudiaethau achos pum tref ac mae'n cyfuno dadansoddiad manwl pellach o ddata eilaidd gan gasglu a dadansoddi data uniongyrchol trwy arolygon a chyfweliadau. Anelir yr ymchwiler astudiaeth achos yn bennaf at gwestiynu 3 a 4, ond mae hefyd yn estyn dadansoddiad cwestiwn 2 a bydd yn cadarnhau ateb dros dro ar gyfer cwestiwn 5 a gynhyrchwyd gan ran gyntaf yr ymchwiler. Rhoddir mwy o wybodaeth am y strategaeth ymchwiler hon yn yr adran isod ar fethodoleg.

Arwyddocâd Polisi Trefi Bach a Threfi Marchnad

- 1.7 Cydnabuwyd ers amser bwysigrwydd trefi bach a threfi marchnad wrth lunio polisiâu ar gyfer y Gymru wledig. Defnyddiodd y strategaeth datblygu economaidd a weithredwyd gan Fwrdd Datblygu Cymru Wledig yn ystod y 1970au a'r 1980au hierarchaeth raddedig o drefi marchnad i gyflwyno oes datblygiad pegwn cynnydd ar draws canolbarth Cymru, a nodwyd bod Y Drenewydd yn enwedig yn ganolfan ar gyfer datblygu ac ehangu diwydiannol a datblygwyd cyfleusterau diwydiannol mewn trefi eraill hefyd er mwyn sefydlogi'r economi leol ynddynt (Edwards *et al.*, 2003). Tueddai polisiâu cynllunio hefyd i nodi bod trefi bach a threfi marchnad yn begynau cynnydd - aneddiadau lle'r oedd datblygu economaidd a phreswyl wedi'i ganolbwyntio - er bod rhai cynghorau wedi ceisio annog buddsoddi economaidd mwy gwasgaredig, a hyrwyddwyd twf tai yn aml mewn pentrefi oddi amgylch i'r trefi. Atgyfnerthwyd swyddogaeth gwasanaeth trefi bach a threfi marchnad yn ychwanegol gan y rhesymoli a fu ar wasanaethau cyhoeddus yn y Gymru wledig, yn enwedig yn sgil ad-drefnu llywodraeth leol ym 1974, a bu'n symbyliad ar gyfer cynnydd yn y trefi hynny a ddewiswyd yn ganolfannau gweinyddol ar gyfer y cynghorau dosbarth a sir newydd.
- 1.8 Cefnwyd i raddau ar fodel y 'pegwn cynnydd' gan y newid pwyslais o ran polisi datblygiad economaidd yn ystod y 1980au a'r 1990au, a hyrwyddwyd yn hytrach datblygiad endogenaidd, ac eto roedd yn parhau i ganolbwyntio ar drefi bach a threfi marchnad. Tarddodd nifer o fentrau adfywio cymunedol cyntaf yn y Gymru wledig o drefi bach, er enghraifft Antur Teifi yng Nghastellnewydd Emlyn, a hyrwyddwyd y dull gan Awdurdod Datblygu Cymru drwy sefydlu sawl Ardal Gweithredu Gwledig, a oedd yn canolbwyntio ar drefi bach a threfi marchnad, tua diwedd y 1980au (Edwards, 1998; Edwards *et al.*, 2003).
- 1.9 Ategwyd y pwyslais ar drefi bach a threfi marchnad fel sylfaen adfywio yn y Gymru wledig o dan arweiniad y gymuned yn y Papur Gwyn Gwledig 1996, *Cefn Gwlad sy'n Gweithio i Gymru* (Swyddfa Gymreig, 1995), ac wedyn daeth sefydlu Menter Trefi Marchnad gan Fwrdd Datblygu Cymru Wledig ym 1996 (Edwards *et al.*, 2000, 2003). Nod ddeublyg oedd i'r Fenter Trefi Marchnad, sef symbylu datblygiad cymdeithasol ac economaidd lleol a meithrin ymwneud cymunedol yn y broses adfywio. Dyfarnwyd grantiau hyd at £90,000 o arian refeniw dros dair blynedd mewn dau daliad i fentrau a leolwyd mewn deg tref yng Nghanolbarth Cymru. Rhagwelai Menter Trefi Marchnad y byddai datblygiad yn y trefi o fudd i'r gymuned wledig ehangach lle y'u cafwyd ac roedd nifer o'r partneriaethau a ariannwyd yn cynnwys cymunedau gwledig cyfagos yn ogystal â'r dref ei hun.
- 1.10 Yn fwy diweddar, mae trefi bach a threfi marchnad Cymru wedi elwa ar amrywiaeth o wahanol fentrau. Mewn rhai achosion cyfeiriwyd y rhain at drefi sy'n wynebu heriau economaidd penodol, yn enwedig y rhaglenni adfywio a ddatblygwyd ar gyfer Aberteifi, Abergwaun a Llanidloes. Mewn rhai achosion mae trefi bach a threfi marchnad wedi elwa o fentrau nad ydynt o reidrwydd wedi canolbwyntio ar drefi bach yn unig. Er enghraifft, rhoddodd y Fenter Trefi Bach a Phentrefi, a arloeswyd gan ranbarth Gogledd Cymru Awdurdod

Datblygu Cymru (WDA) ac a ehangwyd maes o law ar draws Cymru yn sgil cyfuno Bwrdd Datblygu Cymru Wledig â'r WDA ym 1999, gymorth nid yn unig i drefi bach ond hefyd i bentrefi sylweddol ac 'ardaloedd gwledig tra diffiniedig eraill'. Disodlwyd hyn yn ddiweddarach gan ymagwedd pecyn offer cymunedol fwy cyffredinol. Yn yr un modd, mae'r rhaglen Cymunedau'n Gyntaf LICC wedi cynnwys yn y cyfamser nifer o drefi bach ymhlith ei derbynwyr, er ei bod wedi ei hanelu at wardiau difreintiedig ar draws ardaloedd gwledig, trefol a threfi bach, yn hytrach na threfi bach yn benodol. Bu'r pwyslais fel y cyfryw mewn polisiau diweddar yng Nghymru ar raglenni sydd wedi'u hymgorffori lle mae trefi bach a threfi marchnad wedi gallu cael cymorth, yn hytrach na thargedu trefi bach a threfi marchnad fel math neilltuoel a gwahanol o leoliad.

- 1.11 Mae Cynllun Gofodol Cymru yn rhoi fframwaith newydd lle gellir gosod arwyddocâd trefi bach a threfi marchnad. Mae'n cydnabod swyddogaeth trefi llai fel canolfannau gwasanaethau mewn dau ranbarth, sef Canolbarth Cymru a Sir Benfro, ac mae'i gynigion a'i weithgarwch ar gyfer y rhanbarthau hyn yn cynnwys pethau sy'n gysylltiedig yn uniongyrchol â threfi bach a threfi marchnad. Yng Nghanolbarth Cymru mae'n cynnig bod "angen atgyfnerthu plethwaith a graddfa presennol trefi, gan eu gwneud yn fwy deniadol fel lleoedd i fyw a gweithio ynnddynt yn greadigol, wrth wella cysylltiadau â'r cymunedau gwledig oddi amgylch, gan greu rhwydwaith o Ganolfannau rhanbarthol a lleol sy'n cydblethu" (LICC 2004, t. 46). O'r herwydd mae'n argymhell bod y partneriaid lleol yn arwain astudiaeth i "benderfynu swyddogaethau, anghenion datblygu a buddsoddi trefi a chanolbwyntiau" (*ibid.*, t. 47) ac yn nodi adfywio Aberteifi yn benodol fel maes gweithredu. Yn Sir Benfro, mae'r Cynllun Gofodol cynnig "yn hytrach na chanolbwyntio datblygiad ar un dref, neu ddatblygu gweithgareddau mewn nifer o feysydd, y dylai rhwydwaith y trefi gynnig swyddogaethau sy'n cydblethu" (*ibid.*, t. 57), ac yn nodi camau ar gyfer Aberdaugleddau, Penfro, Hwlfordd ac Abergwaun. Fodd bynnag, nid yw'r Cynllun Gofodol yn priodoli unrhyw swyddogaeth i drefi bach a threfi marchnad y tu hwnt i'r cyd-destunau rhanbarthol hyn.
- 1.12 Yng nghyd-destun ehangach y Deyrnas Unedig, gellir dadlau bod Cymru wedi arwain y ffordd wrth roi pwyslais ar drefi bach a threfi marchnad fel canolbwyntiau adfywio gwledig drwy raglenni fel Menter Trefi Marchnad Bwrdd Datblygu Cymru Wledig. Yn wir, mae tystiolaeth sylweddol o 'fentyca' o Gymru wrth ddatblygu mentrau yn Lloegr sydd wedi'u targedu ar drefi bach a threfi marchnad o 2000 ymlaen. Roedd y Papur Gwyn Gwledig ar gyfer Lloegr yn 2000 yn cynnwys pennod wedi'i neilltuo i drefi marchnad, yn nodi bod "trefi marchnad yn chwarae rhan dyngedfennol wrth helpu cymunedau gwledig i ffynnu ac adfywio ardaloedd difreintiedig" (DETR/MAFF 2000, t. 74). Mae'r bennod yn mynd yn ei blaen i amlinellu cyfraniad trefi bach i gefn gwlad Lloegr fel canolbwynt datblygu ac adfywio economaidd; canolfannau sy'n diwallu angen pobl i gael mynediad at amrywiaeth eang o wasanaethau gwerthu, gwasanaethau proffesiynol a chyhoeddus; canolbwynt ar gyfer cludiant cyhoeddus sydd wedi'i gydlynu a'i gynllunio'n gywir; a 'lleoedd arbennig i fyw ynnddynt' â'r gallu i fod yn ganolfannau gweithgarwch diwylliannol.

- 1.13 Cafodd yr egwyddorion a amlinellwyd ym Mhapur Gwyn Gwledig 2000 ar gyfer Lloegr eu gweithredu ers hynny drwy fentrau gan asiantaethau cenedlaethol a rhanbarthol fel ei gilydd. Yn eu plith roedd ‘Gwiriad Iechyd Trefi Marchnad’ a luniwyd gan yr Asiantaeth Cefn Gwlad fel modd i drefi asesu eu hanghenion eu hunain ac anghenion eu cefnwledydd; yn ogystal â Mentrau Trefi Marchnad a Threfi Arfordirol a drefnwyd gan asiantaethau datblygu rhanbarthol ac a ariannwyd gan y Gyllideb Adfywio Sengl (Edwards *et al.*, 2003). Yn ogystal, mae sefydliad newydd, *Action for Market Towns*, wedi helpu i roi llais arbennig i drefi bach a threfi marchnad ym maes polisi gwledig yn Lloegr. Er bod modd i drefi Cymru ymaelodi ag *Action for Market Towns* dim ond dwy dref o Gymru sy’n aelodau ar hyn o bryd, sef Y Fenni a Bwcle.
- 1.14 Mae’r holl bolisiâu hyn, fodd bynnag, yn adlewyrchu cymhelliad deublyg dros ymyriad mewn trefi bach a threfi marchnad. Yn gyntaf, mae pwrpas trin anghenion arbennig cymunedau’r trefi bach eu hunain. Gall y rhain gynnwys problemau y mae modd dadlau eu bod yn deillio’n anorfod o gyflwr trefi bach, gan gynnwys ymateb i brif gyflogwyr yn cau neu’r her a wynebir gan werthwyr lleol yn erbyn cystadleuaeth gan drefi mwy neu archfarchnadoedd, ac y gellir rhoi sylw iddynt yn fwy priodol trwy fentrau sydd wedi’u targedu. Gall hyn gynnwys ymdrin â phroblemau eithrio cymdeithasol a difreintio sy’n amlwg mewn nifer o drefi bach, ond sydd i’w cael mewn ardaloedd trefol mwy ac y byddai modd ymdrin â nhw’n fwyaf priodol trwy gynnwys trefi bach mewn rhaglenni ehangach. Yn ail, mae diben ymdrin â phroblemau ardaloedd gwledig ehangach wrth gymryd camau mewn trefi bach, ar sail yr egwyddor y byddai budd yn ‘ymestyn’ tuag at gymunedau gwledig oddi amgylch (Edwards *et al.*, 2003). Seilir polisi ar gyfer trefi bach a threfi marchnad, o’r herwydd, ar nifer o ragdybiaethau ynglyn â natur trefi bach a’u rhyngweithiad â’u cefnwledydd, a nod yr astudiaeth hon yw eu hymgorffori.

Ymchwil Flaenorol i Drefi Bach a Threfi Marchnad

- 1.15 Archwiliwyd y rhagdybiaeth bod buddsoddi mewn trefi bach a threfi marchnad yn gallu symbylu twf economaidd mewn ardaloedd gwledig ehangach gan yr adroddiad ‘Trefi Bychain Deinamig: Nodi’r Ffactorau Hanfodol i Lwyddiant’ a gyflwynwyd i Lywodraeth Cynulliad Cymru yn 2004 (Brown *et al.*, 2004). Comisiynwyd yr ymchwil a wnaed gan Brifysgol Gorllewin Lloegr gyda Roger Tym a’i Bartneriaid, er mwyn “Nodi’r ffactorau hynny sydd wedi cyfrannu at achosi llwyddiant mewn trefi bach llewyrchus ac sydd wedi helpu taenu’r cyfleoedd economaidd i’w cymunedau oddi amgylch ac i asesu cwmpas polisiâu i ail-greu’r llwyddiant hwnnw mewn mannau eraill” (*ibid.*, para 1.1).
- 1.16 Roedd yr ymchwil yn cynnwys dadansoddi cyfanswm o ddata eilaidd o 369 o drefi bach a 55 o ardaloedd gwledig sy’n weddill ar draws Cymru a Lloegr gan ganolbwyntio ar dri mesur o berfformiad economaidd: newid mewn diweithdra, newid mewn cyflogaeth yn y sectorau y tu allan i amaethyddiaeth, a newid o ran nifer yr anheddau. Cynhaliodd ail gam yr astudiaeth ddadansoddiad cymharol o ddata eilaidd ar gyfer sampl o 24 trefi astudiaeth

achos, gan gynnwys un ar ddeg o drefi yng Nghymru, wedi'i ategu gan gyfweiliadau â hysbyswyr allweddol yn y trefi astudiaeth achos.

- 1.17 Cafodd y dadansoddiad hwn fod twf cyflogaeth yn gryfach yn yr ardaloedd gwledig gweddilliol nag yn y trefi bach a bod cwmp mewn diweithdra wedi bod ychydig yn gyflymach mewn ardaloedd gwledig. Ar y llaw arall, gwelwyd bod twf tai'n gyflymach yn y trefi bach nag yn yr ardaloedd gwledig gweddilliol. Yn ogystal, dangosodd dadansoddiad yr astudiaeth achos fod cryn amrywiaeth o ran perfformiad y gwahanol drefi.
- 1.18 Ar sail y dadansoddiad hwn, daeth yr adroddiad Trefi Bychain Deïnamig i'r casgliad fod y rhan fwyaf o drefi bach ac ardaloedd gwledig yn perfformio'n dda, ond bod gwahaniaethau sylweddol rhwng trefi unigol; bod ardaloedd gwledig oddi amgylch i drefi'n tyfu'n gynt at ei gilydd na'r trefi o ran swyddi, ond bod twf tai'n fwy yn y trefi; bod llewyrch trefi nid yn unig yn swyddogaeth twf economaidd, ond ei fod wedi'i effeithio gan brosesau'r farchnad dai; a bod twf poblogaeth yn yr ardal ehangach yn ffactor allweddol, ac yn gysylltiedig â thwf swyddi yn yr ardal wledig weddilliol.
- 1.19 O'r herwydd, mae'r adroddiad yn bwrw amheuaeth ar y rhagdybiaeth mai trefi bach sy'n symbylu newid economaidd yn yr ardaloedd gwledig oddi amgylch iddynt. Mae'n dadlau y dylid ail-eirio'r cwestiwn i gyfateb i gyd-destun trefi ac ardaloedd gwledig, gan awgrymu y gall twf economaidd symbylu twf poblogaeth mewn trefi bach a bod amrywiaeth ymhlith trefi'n adlewyrchu ffactorau is-ranbarthol ehangach oddi mewn i'r rhanbarth.
- 1.20 Mae'r adroddiad Trefi Bychain Deïnamig yn gosod sylfaen ddefnyddiol i'r astudiaeth bresennol, ond byddem yn honni ei fod yn gofyn mwy o gwestiynau nag y mae'n eu hateb ynghylch natur y rhyngweithio rhwng trefi bach a chefnwledydd. Nodwyd hefyd bod dynodi ardaloedd trefol ar sail ffiniau gweinyddol fel y defnyddir yn yr adroddiad yn eithrio rhai safleoedd cyflogaeth sylweddol, fel Ystad Llandygai ym Mangor. Felly, gellir dweud bod ychydig o'r twf o ran swyddi a nodwyd yn yr ardaloedd gwledig oddi amgylch wedi bod yn gynnydd ar ymyl trefi.
- 1.21 Mae'r astudiaeth bresennol yn adeiladu ar yr adroddiad Trefi Bychain Deïnamig mewn tair ffordd. Yn gyntaf, wrth ehangu nifer y dangosyddion a archwilir, ac yn enwedig wrth ddadansoddi maes gweithredu cyflogwyr ac (yn yr astudiaethau achos) lleoliad y cyflenwyr a lleoliad y cwsmeriaid, roedd modd inni greu darlun manylach o'r rhyngweithio economaidd a oedd yn bodoli rhwng tref fach, ei chefnwlad ac ardaloedd ymhellach. Yn ail, wrth ledaenu sylw'r astudiaeth i gynnwys rhyngweithio cymdeithasol rhwng trefi bach a'u cefnwlad, rydym yn cydnabod nad yw cyfraniad trefi bach i adfywio gwledig yn economaidd yn unig. Yn drydydd, wrth anelu at gynnig teipoleg o drefi bach, y bwriad yw meithrin dealltwriaeth o'r ddaearyddiaeth anwastad sydd ynghlwm wrth adfywio trefi bach.
- 1.22 Wrth ddatblygu ein hymagwedd ni rydym hefyd wedi manteisio ar ymchwil arall a gynhaliwyd eisoes i drefi bach a threfi marchnad ym Mhrydain. Yn wahanol i wledydd fel Awstralia, Seland Newydd a'r Unol Daleithiau, cyfyng

fu'r ymchwil i drefi bach ym Mhrydain, gan ei fod yn disgyn yn y bwlch rhwng meysydd academiaidd astudiaethau trefol ac astudiaethau gwledig. Er bod trefi bach wedi bod yn gefndir i amrywiaeth eang o ymchwil gymdeithasol, yn enwedig ym maes daearyddiaeth wledig, prin yw'r astudiaethau hynny sydd wedi mynd i'r afael yn benodol â'r hyn sy'n gwneud sefyllfa trefi bach yn wahanol. Ymhlith yr eithriadau mae Jones (2002), yr oedd ei waith yng Ngogledd Cymru'n cofnodi tyndra trefi bach rhwng ieuencid 'lleol' a mewnfudwyr; ac Edwards et al. (2001 a 2003) sy'n archwilio deinameg gweithio mewn partneriaeth ym Menter Trefi Marchnad Bwrdd Datblygu Cymru Wledig a chyfraniad cymunedau cyfagos i bartneriaethau adfywio trefi bach.

- 1.23 Gellir dadlau bod ymchwil i'r rhyngweithio economaidd sy'n bodoli rhwng trefi bach a'u cefnwlod wledig yn faes hyd yn oed fwy cyfyngedig. Serch hynny, mae tair astudiaeth flaenorol wedi llywio datblygiad yr astudiaeth bresennol. Yn gyntaf, archwiliodd ymchwil gan Powe a Shaw (2004) swyddogaeth trefi marchnad ar hyn o bryd ac yn y dyfodol o ran gwasanaethu'u cefnwlod trwy astudiaeth achos yn Alnwick yn Northumberland. Dangosont batrwm cymhleth o ryngweithio: roedd bron pawb a atebodd yn y gefnwlod wledig wedi ymweld ag Alnwick ar gyfer siopa neu wasanaethau yn ystod y mis blaenorol, ond roedd bron hanner wedi ymweld â'r canolfannau rhanbarthol, sef Newcastle a Gateshead ar gyfer eu prif siopa nad oedd yn cynnwys bwyd. Maent yn nodi mai presenoldeb yr archfarchnad yw prif atynfa Alnwick i siopwyr ac maent yn awgrymu mai trigolion o'r gefnwlod leol sydd ar ymweliad ag Alnwick am resymau eraill sy'n fwyaf tebygol o ddefnyddio cyfleusterau fel y theatr. Nodant hefyd fod diffygion ansawdd ac amrywiaeth yn siopau'r dref, anawsterau parcio a chludiant cyhoeddus cyfyngedig yn ystyriaethau allweddol yn newis trigolion y gefnwlod wledig i deithio i ganolfannau eraill ar gyfer siopa a gwasanaethau. O'r herwydd, daw Powe a Shaw i'r casgliad fod cyd-ddibyniaeth rhwng trigolion y dref a'r gefnwlod ond bod parhad y berthynas honno'n dibynnu ar allu trefi marchnad i fanteisio ar dueddiadau demograffig diweddar, yn enwedig adennill masnach trwy gynnig amgylchedd siopa o ansawdd uwch a thrwy ledaenu'r ymdeimlad o berthyn tu hwnt i ffiniau'r dref.
- 1.24 Yn ail, archwiliodd ymchwil a gynhaliwyd gan ymgynghorwyr defnydd tir, SERRL ac Emma Dewlow ar gyfer yr Asiantaeth Cefn Gwlad (LUC 2004) y graddau y mae trefi marchnad yn gweithredu fel darparwyr gwasanaeth mewn ardaloedd gwledig. Canolbwyntiodd yr ymchwil ar fapio patrymau gofodol defnydd gwasanaethau gan deuluoedd a busnesau mewn gwahanol 'sefyllfaoedd gwledig'. Gan ddefnyddio gwybodaeth genedlaethol bresennol ac astudiaeth achos wyth tref farchnad a'u cefnwlod, daeth yr awduron i'r casgliad canlynol: er bod trefi marchnad at ei gilydd yn chwarae rôl bwysig i deuluoedd a busnesau, roedd gan ganolfannau trefol eraill swyddogaeth sylweddol o ran gwasanaethau. O ganlyniad, roedd unrhyw "syniad bod tref farchnad yn 'ganolfan wasanaethau' unedig ar gyfer cefnwlod dybiedig yn ymddangos yn hynod o naif yn sgil yr ymchwil hon.' Yn benodol, mae awduron yr adroddiad yn awgrymu bod trigolion y gefnwlod dipyn yn llai 'teyrngar' i drefi marchnad nag a dybiwyd gan bolisiau presennol.

- 1.25 Honnodd yr adroddiad fod trefi marchnad yn gweithredu fel canolfannau gwasanaeth allweddol ar gyfer y prif siopa bwyd, siopa cyflenwi a siopa cyfleuster, ond eu bod yn llai pwysig o lawer ar gyfer mathau eraill o siopa, a bod trefi mawr cyfagos a chanolfannau trefol eraill yn 'atyniadau cystadleuol' sylweddol ar gyfer trigolion y cefnwledydd gwledig. Fodd bynnag, roedd defnyddio gwasanaethau ariannol a phroffesiynol gan drigolion y gefnwlad yn canolbwyntio ar drefi marchnad yn hytrach na chanolfannau trefol mawr. Roedd trefi marchnad hefyd yn ganolfannau pwysig ar gyfer cymdeithasu, ond roeddent yn llai pwysig ar gyfer gweithgareddau hamdden eraill. Roedd y rhan fwyaf o fusnesau gwledig yn pwyso ar drefi marchnad fel prif ffynhonnell cyflenwadau bwyd, swyddfa a glanhau a gwasanaethau proffesiynol, ond yn pwyso'n fwy ar gyflenwyr rhanbarthol a chenedlaethol am fathau eraill o fewnbwn cyflenwi a chynhyrchu. I lawer o fusnesau gwledig, y dref farchnad leol oedd yn darparu'r rhan fwyaf o'u gwaith, ond roedd marchnadoedd rhanbarthol ac – yn enwedig – marchnadoedd cenedlaethol hefyd yn bwysig. Ynghyd â'r casgliadau cyffredinol hyn, pwysleisiodd yr ymchwiler fod "pob un o'r wyth ardal astudiaeth achos wedi arddangos digon o wahaniaeth y naill i'r llall i awgrymu y dylid arfer pwyll mawr wrth fentro ar ddiolli trefi".
- 1.26 Yn drydydd, archwiliodd ymchwiler gan Courtney ac Errington (1999 a 2000) batrwm gofodol y trosglwyddiadau economaidd rhwng trefi bach a'u cefnwledydd. Wrth olrhain y llif i mewn ac allan ar gyfer busnesau mewn dwy dref astudiaeth achos, Kingsbridge yn Swydd Devon ac Olney yn Swydd Buckingham, mapiwyd 'ôl troed economaidd' y trefi a chyfrifwyd graddau integreiddio trefi a'u cefnwledydd. Dangosodd y rhain fod cyfnewid economaidd rhwng cwmnïau, cyflenwyr a theuluoedd yn y trefi yn gymharol gyfyngedig, a bod cwmnïau yn y ddwy dref a'r ddwy gefnwlad yn derbyn 80% o'u cyflenwadau o'r tu allan i'r ardal. O ran gwerthiant, serch hynny, dangosodd Kingsbridge lawer mwy o integreiddio nag Olney, ac roedd Kingsbridge a'i chefnwlad yn cynhyrchu 30% o incwm gwerthu cwmnïau'r dref a 45% o incwm gwerthu cwmnïau'r gefnwlad, tra oedd Olney a'i chefnwlad yn gyfrifol am 8% o incwm gwerthu cwmnïau'r dref, a 3% ar gyfer cwmnïau'r gefnwlad (Courtney ac Errington 1999). Ym marn Courtney ac Errington, mae'r gwahaniaeth hwn o ran integreiddio'n adlewyrchu gwahaniaeth sectorol ac meint yn cyfeirio, o'r herwydd, at strategaethau gwahanol ar gyfer y twf economaidd lleol mwyaf. Awgrymant fod perchenogaeth leol yn bwysig yn Kingsbridge, a byddai polisiau sy'n annog cwmnïau annibynnol seiliedig ar wasanaeth yn cynyddu i'r eithaf y gallu i greu incwm yn lleol, tra byddai targedu buddsoddi at gwmnïau gwasanaethu cwsmeriaid yn Olney yn dod â'r elw mwyaf.
- 1.27 Yn olaf, dylid hefyd nodi'r ymchwiler gan Thomas a Bromley (2002) ar y berthynas rhwng gwerthu yng nghanolfan tref Llanelli a gwerthu y tu allan i'r dref. Er nad yw Llanelli'n dref fach yn ôl diffiniad yr astudiaeth bresennol, mae ymchwiler Thomas a Bromley yn rhoi tystiolaeth werthfawr o effaith lledaeniad canolfannau siopa y tu allan i'r trefi ar ganolfannau trefi llai yn ogystal â photensial prosiectau adfywio i atal y dirywiad a denu peth o'r fasnach yn ôl.

Methodoleg a Ffynonellau Data

- 1.28 Defnyddiodd yr ymchwiler ar gyfer yr astudiaeth hon ffynonellau cynradd ac eilaidd fel ei gilydd a chafodd ei gwneud mewn dwy ran, fel y nodwyd yn gynharach. Mae rhan o'r ymchwiler wedi ymwneud yn bennaf â dadansoddi data eilaidd ac mae'n ffurfio sylfeini tystiolaeth ar gyfer penodau dau i bump yr adroddiad hwn. Roedd rhan dau'n ymwneud ag ymchwiler astudiaeth achos mewn pum tref ac mae'n cynnwys dadansoddi data eilaidd ymhellach a chasglu a dadansoddi data cynradd trwy ddefnyddio arolwg holiadur dros y ffôn a chyfweiliadau. Adroddir ar ymchwiler yr astudiaeth achos ym mhennod chwech.
- 1.29 Mae dansoddi'r data eilaidd wedi cynnwys pedair graddfa ddadansoddi fel pethau priodol i'r data dan sylw. Yn gyntaf, defnyddiwyd y data a oedd ar gael ar lefel gyfamsymiol awdurdodau lleol i gymharu ardaloedd dinesig, trefol a maestrefi, ac ardaloedd pentrefi a chefn gwlad ar draws Cymru wledig (gweler pennod 2 am drafodaeth bellach ar y categorïau). Yn ail, gwnaed cyfartaledd o'r data fesul ward o'i gymharu ag ardaloedd trefi bach, ardaloedd trefol mwy ac ardaloedd gwledig mewn ardaloedd awdurdodau lleol ac ar draws y Gymru wledig. Yn drydydd, defnyddiwyd data ar lefel ward i gymharu 81 o drefi bach a threfi marchnad sydd wedi'u rhestru yn Atodiad A (gweler hefyd pennod 2). Yn bedwerydd, defnyddiwyd data ardal gynnyrch er mwyn dadansoddi sampl o 44 o drefi bach a threfi marchnad (a restrir yn atodiad B) yn fanylach a'u cymharu â'u cefnwledydd.
- 1.30 Casglwyd data eilaidd oddi wrth nifer o ffynonellau gan gynnwys Cyfrifiad 2001, Cyfrifon Mentrau ac Unedau Lleol ar gyfer Wardiau CAS¹ 2004, cronfa ddata dyfarniadau Swyddfa Cyllid Ewropeaidd Cymru, a chronfa ddata dyfarniadau Bwrdd Elusennau'r Loteri Genedlaethol. Rhoddir manylion o bob un o'r ffynonellau data hyn isod.
- 1.31 Cafwyd data Cyfrifiad 2001 trwy gyfrwng gwefan Ystadegau Cymdogaeth y Swyddfa Ystadegau Genedlaethol ar gyfer y dangosyddion canlynol a defnyddiwyd ef i ddadansoddi ar y graddfeydd gofodol a restrwyd:
- Poblogaeth breswyl (ardal gynnyrch, ward, awdurdod lleol)
 - Trosiant y boblogaeth (ward)
 - Oedran cymedrig (ward)
 - Dosbarthiad strwythur oedran (ardal allbwn, ward)
 - Poblogaeth gweithle (ardal gynnyrch, ward, ardal teithio i'r gwaith)
 - Poblogaeth weithio (ardal gynnyrch, ward, ardal teithio i'r gwaith)
 - Pellter teithio i'r gwaith (ardal gynnyrch, ward)
- 1.32 Yn ychwanegol, dadansoddwyd twf y boblogaeth wrth gymharu data'r boblogaeth breswyl ar gyfer Cyfrifiad 1981, 1991 a 2001 fesul cymuned.

¹ Wardiau CAS yw wardiau Ystadegau Ardaloedd y Cyfrifiad. Yng Nghymru mae'r rhain yn cyfateb i wardiau awdurdodau unedig.

- 1.33 Defnyddiwyd hefyd ddata Cyfrifiad 2001 a gyhoeddwyd gan y Swyddfa Ystadegau Gwladol ar lefel awdurdodau lleol ar gyfer y dosbarthiadau gwledig-trefol newydd wrth ddadansoddi patrymau poblogaeth a chyflogaeth.
- 1.34 Er mwyn dadansoddi dosbarthiad busnesau yn y Gymru wledig defnyddiwyd data'r Cyfrif Busnesau ac Unedau Lleol ar gyfer Wardiau CAS a gasglwyd gan y Swyddfa Ystadegau Gwladol oddi wrth y Gofrestr Busnesau Rhyngadrannol. Mae'r data'n ymwneud ag unedau dydd a gofrestrwyd ar gyfer TAW yn unig ac maent wedi'u dadansoddi ar lefel ward gan gynnwys dangosyddion grwp diwydiannol bras. Defnyddiwyd data a gydgasglwyd at lefel awdurdodau lleol ar gyfer ardaloedd gwledig a threfol gan y Swyddfa Ystadegau Gwladol wrth ddadansoddi maint y busnesau.
- 1.35 Casglwyd data am grantiau a gymeradwywyd gan ERDF a wnaed o dan raglenni Amcan 1 ac Amcan 2 yng Nghymru wledig gan gronfa ddata dyfarniadau a gadwyd gan Swyddfa Cyllid Ewropeaidd Cymru (WEFO). Dosbarthwyd y data yn ôl y math o ardal; (tref fach/ trefol ymylol/ gwledig ar sail y data a gynhwyswyd ar y gronfa ddata, gan ddiffinio trefi bach fel y'u rhestrir yn atodiad A a defnyddio dosbarthiad gwledig-trefol wardiau ONS ar gyfer pob ardal arall.
- 1.36 Casglwyd data am grantiau oddi wrth Fwrdd Elusennau'r Loteri Genedlaethol neu'r Gronfa Gymunedol oddi wrth y gronfa data dyfarniadau a gynhelir gan y Gronfa Gymunedol. Dosbarthwyd y wybodaeth hon yn ôl math o ardal (tref fach/ trefol ac ymylol / gwledig) ar sail y wybodaeth a geir ar y gronfa ddata, gan ddiffinio trefi bach fel y'u rhestrir yn atodiad A a defnyddio dosbarthiad wardiau gwledig-trefol are gyfer pob ardal arall. Nid oedd modd priodoli tua 10% o ddyfarniadau i leoliad penodol ar sail y wybodaeth a oedd ar gael yn y gronfa ddata. Nid yw'r gronfa ddata hon yn cynnwys dyfarniadau a wnaed trwy Gronfa Dreftadaeth y Loteri, Cronfa'r Mileniwm neu SportsLot.
- 1.37 Casglwyd data am leoliad archfarchnadoedd, ysbytai, gorsafedd heddlu, colegau addysg uwch ac ysgolion uwchradd oddi wrth wybodaeth ar gael ar wefannau cwmnïau'r archfarchnadoedd, GIG Cymru, awdurdodau'r heddlu, HERA ac awdurdodau lleol. Unwaith eto, dosbarthwyd lleoliad y cyfleusterau hyn yn ôl math o ardal (tref fach / trefol ac ymylol / gwledig) ar sail y wybodaeth a gynhwysir yn y gronfa ddata, gan ddiffinio trefi fel y'u rhestrir yn atodiad A a defnyddio dosbarthiadau wardiau gwledig-trefol ONS ar gyfer pob ardal. Mewn rhai achosion, defnyddiwyd ail ddiffiniad ffiniau trefi bach a ddisgrifir yn atodiad B i gynnwys cyfleusterau a fyddai fel arall wedi'u gosod y tu allan i'r trefi dan sylw.
- 1.38 Defnyddiodd rhan gyntaf yr ymchwil ddwy gyfres o ddata sylfaenol a gasglwyd gan ymchwil gynharach gan Arsyllfa Wledig Cymru. Yn gyntaf, defnyddiwyd data am fudo oddi wrth arolwg ffôn o 4,023 o gartrefi yng Nghymru wledig a gynhaliwyd gan NOP ar ran yr Arsyllfa rhwng mis Chwefror a mis Mawrth 2004. Gellir cael gwybodaeth fethodolegol bellach am yr arolwg hwn yn WRO (2005). Yn ail, defnyddiwyd data am ddarpariaeth gwasanaethau lleol oddi wrth arolwg holiadur trwy'r post o glercod cynghorau trefol a chymunedol a gynhaliwyd tua diwedd 2004. Anfonwyd yr arolwg hwn

i bob un o'r 593 o gynghorau yn ardaloedd gwledig Cymru gyda 69% yn ymateb. Roedd yr ymatebion yn cynnwys 37 gan gynghorau a ddiffiniwyd yn drefi bach neu'n drefi marchnad yn yr astudiaeth hon. Gellir cael manylion yr arolwg hwn yn WRO (2005).

PENNOD 2: DIFFINIO TREFI BACH A THREFI MARCHNAD

Cyflwyniad

- 2.1 Nid oes diffiniad safonol o drefi bach a threfi marchnad sy'n cael ei ddefnyddio ar hyn o bryd ym Mhrydain. Mae astudiaethau blaenorol ac asiantaethau cyhoeddus wedi defnyddio amrywiaeth o ddiffiniadau sy'n cyfuno poblogaeth, dangosyddion defnydd tir a swyddogaeth. Mae angen gwahaniaethu trefi bach a threfi marchnad oddi wrth bentrefi mawr ac ardaloedd trefol mwy, eto ar y naill begwn a'r llall maent yn rhannu llawer o nodweddion y categorïau eraill hyn. Gall fod gan drefi marchnad llai boblogaeth debyg i lawer o bentrefi neu boblogaeth is, ond mae modd eu hadnabod oherwydd presenoldeb clwstwr penodol o wasanaethau masnachol ac isadeiledd a thraddodiad dinesig sefydlog. Mae trefi bach a threfi marchnad hefyd yn wahanol o ran morffoleg, gan eu bod yn aneddiadau sy'n sefyll ar eu pennau eu hunain yn hytrach na bod yn rhan o ardal drefol helaethach. Trwy hyn y mae modd eu gwahaniaethu oddi wrth ardaloedd busnes maestrefol.
- 2.2 Yn ôl diffiniad yr adroddiad Trefi Bychain Deinamig, roedd 'trefi bach' yn drefi â rhwng 1,000 a 30,000 o drigolion a oedd yn darparu swyddogaeth gwasanaeth a chyflogaeth i'r ardal wledig oddi amgylch (Brown *et al.*, 2004). Mae'r amrywiaeth hon o boblogaeth fwy neu lai'n cyfateb i ddiffiniadau eraill, er bod rhai, fel y diffiniad a ddefnyddir gan yr Asiantaeth Cefn Gwlad yn Lloegr, yn gosod uchafswm trothwy poblogaeth o 20,000. Yn ogystal, oherwydd dwysedd poblogaeth isel Cymru wledig mae gan lawer o aneddiadau sydd wedi cyflawni swyddogaeth tref farchnad yn hanesyddol boblogaeth is o dipyn na'r hyn a ddisgwyliid fel arfer mewn mannau eraill yn y wlad, gan gynnwys nifer sydd â phoblogaeth o lai na 1,000 o drigolion.²
- 2.3 Daw problem bellach wrth ddiffinio ardal tref fechan y mae'r boblogaeth wedi'i chyfrif ar ei chyfer. Mae ardaloedd adeiledig llawer o drefi bach yn croesi ffiniau cynghorau cymunedol nes i'r boblogaeth a gofnodir ar gyfer y gymuned fod yn is na maint gwirioneddol y dref fel ardal drefol. Ar ben hyn, lleolir llawer o safleoedd cyflogaeth mawr, gan gynnwys ffatrioedd, ystadau diwydiannol, ysbytai, ac ysgolion a cholegau ar ymyl trefi bach ac, yn dechnegol, gallant fod y tu allan i'w ffiniau dinesig (gweler hefyd paragraff 2.9).

Dosbarthiadau Gwledig-Trefol

- 2.4 Er mwyn goresgyn rhai o'r anawsterau hyn, rydym wedi seilio'n diffinad o drefi bach a threfi marchnad yn yr adroddiad hwn ar y dosbarthiadau o

² Nid oes diffiniad safonol o 'dref farchnad' ac mae'n anodd penderfynu ar ffigurau pendant o ran poblogaeth ar gyfer ardaloedd adeiledig bach. Fodd bynnag, awgrymwn fod naw anheddiad yn y Gymru wledig sydd â phoblogaeth o lai na 1,000 sydd wedi cyflawni swyddogaeth tref farchnad: Tregaron (Ceredigion), Aberdaron, Abersoch (Gwynedd), Trefdraeth (Sir Benfro), Llanfair Caereinion, Llanfyllin, Llanwrtyd, Trefaldwyn (Powys), a Rhosneigr (Ynys Môn). Fel y dengys atodiad A, mae rhan fwyaf y trefi hyn i'w cael mewn wardiau sy'n cynnwys ardal helaethach â phoblogaethau sy'n fwy na 1000.

ardaloedd gwledig a threfol a gyhoeddir gan y Swyddfa Ystadegau Gwladol (ONS), y mae modd eu defnyddio ar amrywiaeth o raddfeydd. Roedd dosbarthiad yr ONS yn cynnwys codio ardaloedd cynnyrch y cyfrifiad (unedau o godau post cyfagos o ryw 125 o gartrefi) drwy broses ag iddi dri cham. Yn gyntaf, dosbarthwyd ardaloedd cynnyrch yn drefol neu'n wledig yn ôl y ffaith a oedd mwyafrif cartrefi'r ardal yn rhan o anheddiad o 10,000 o drigolion neu fwy. Yn ail, dosbarthwyd ardaloedd cynnyrch gwledig ymhellach yn 'dref ac ymylol', 'pentref', neu 'bentrefan neu aneddiadau ynysig' ar sail dwysedd y cartrefi a gyfrifwyd ar gyfer sgwâr grid 100x100 metr (Bibby a Shepherd, 2004). Yn drydydd, dosbarthwyd cyd-destun daearyddol ardal gynnyrch yn ôl dwysedd poblogaeth wedi'i chyfrif ar raddfeydd o 10cm, 20cm a 30cm i gynhyrchu 'sgôr teneurwydd'. Dosbarthwyd ardal gynnyrch yn 'denau' petai'n disgyn oddi mewn i 5% yr ardaloedd cynnyrch â'r sgorau teneurwydd ar gyfer pob graddfa. Dosbarthwyd pob ardal gynnyrch arall yn llai tenau. Mae'r broses hon yn cynhyrchu dosbarthiad o wyth grwp ar gyfer ardaloedd cynnyrch:

- Trefol (Tenau)
- Tref ac Ymylol (Tenau)
- Pentref (Tenau)
- Pentrefan ac Anedd Ynysig (Tenau)
- Trefol (Llai Tenau)
- Tref ac Ymylol (Llai Tenau)
- Pentref (Llai Tenau)
- Pentrefan ac Anedd Ynysig (Llai Tenau)

2.5 Mae'r ONS hefyd wedi defnyddio data ardaloedd cynnyrch cyfansymiol i greu dosbarthiadau cyfatebol ar gyfer ardaloedd cynnyrch ehangach, wardiau awdurdodau lleol ac awdurdodau lleol. Mae hyn yn galluogi dadansoddi data sydd ar gael ar amrywiaeth o raddfeydd yn ôl y dosbarthiad gwledig-trefol.

Diffinio Trefi Bach a Threfi Marchnad yn yr Astudiaeth hon

2.6 Diffinnir trefi bach a threfi marchnad at ddibenion yr astudiaeth hon fel yr aneddiadau hynny yn naw sir wledig graidd y Gymru wledig sy'n cynnwys wardiau y mae'r ONS yn eu dosbarthu fel a ganlyn:

- Tref ac Ymylol (tenau a llai tenau)
- Trefol (tenau) (megis Aberystwyth, Caerfyrddin, Caergybi a'r Drenewydd)
- Trefol (llai tenau) lle gwahenir yr anheddiad oddi wrth ardaloedd trefol eraill gan ardal wledig sylweddol rhyngddynt (megis Y Fenni, Bangor, Caldicot, Cas-gwent, Hwlfordd ac Aberdaugleddau)

Ac eithrio:

- Wardiau trefol (llai tenau) sy'n rhan o ardal drefol gyffyrddol sy'n cynnwys dwy dref wahanol neu fwy (sy'n eithrio, yn y naw sir wledig

graidd, llinyn arfordirol Gogledd Cymru o Landudno i Brestatyn; Ystradgynlais; a Llanelli, Rhydaman a'r cylch.)

- Wardiau a ddsbarthwyd yn 'dref ac ymylol' sy'n ardaloedd ymylol trefol ger ardaloedd trefol cyffyrddol arfordir Gogledd Cymru, Llanelli/Rhydaman, a Chasnewydd/Cwmbrân.

- 2.7 O ddefnyddio'r diffiniad hwn ar lefel ward rydym wedi canfod 81 tref fach a thref farchnad yn y Gymru wledig, a cheir rhestr ohonynt yn atodiad A. Yn ogystal, rydym wedi cynnwys yn y rhestr hon naw anheddiad sydd yn hanesyddol wedi cyflawni swyddogaeth trefi marchnad ac sydd â 'chynghorau tref' ond sydd mewn wardiau a ddsberthir yn ardaloedd 'pentref' (Corwen, Llanfair Caereinion, Llanfyllin, Llanwrtyd, Trefaldwyn, Castellnewydd Emlyn, Sanclêr, Tregaron a Hendy-gwyn ar Daf). Ni chynhwysir y naw tref fel 'trefi bach' yn y dadansoddiad o ystadegau poblogaeth ac ystadegau economaidd fesul ward ym mhenodau 3 a 4 (fe'u cynhwysir yn y dosbarthiad 'gwledig'), ond fe'u cynhwysir fel 'trefi bach' yn y dadansoddiad o leoliad gwasanaethau ym mhenodau 4 a 5.

Diffinio Ardaloedd Trefi Bach a Graddfeydd Data

- 2.8 Cafwyd y data a ddefnyddiwyd yn yr adroddiad hwn o gronfeydd data a grëwyd trwy ddefnyddio amrywiaeth o unedau lle. Felly, nid yw pennu ffiniau manwl trefi bach a threfi marchnad bob amser yn gyson. Lle bo'n bosibl rydym wedi defnyddio data sydd ar gael ar lefel ardal gynnyrch y cyfrifiad i alluogi pennu ffiniau ardaloedd trefi marchnad bach yn y modd agosaf ag y bo modd, ond nid oes data ar gael ar raddfa ar gyfer pob newidyn.
- 2.8 Mae cyfanswm yr ystadegau ar boblogaeth, cyflogaeth a busnesau sydd wedi'u cofrestru ar gyfer TAW a gyflwynwyd ar lefel Cymru gyfan a Chymru wledig ym mhenodau 3 a 4 yn dod o gyfanswm y data fesul awdurdod lleol gan y Swyddfa Ystadegau Gwladol ac mae'n adlewyrchu dosbarthiadau ar lefel gynnyrch. Mae cyfanswm yr ystadegau ar gyfer newid yn y boblogaeth ym mhennod 3 yn seiliedig ar ardal gymuned ac meant yn diffinio trefi bach a threfi marchnad yn ôl y wardiau sydd wedi'u rhestru yn atodiad A
- 2.9 Mae pennod 4 yn rhoi dadansoddiad manylach o 44 o drefi fel y maent wedi'u rhestru yn atodiad B. At ddibenion y dadansoddiad hwn, diffiniwyd ardaloedd y trefi hyn yn dynnach gan ddefnyddio ardaloedd cynnyrch y cyfrifiad (gweler atodiad B). Yn gyffredinol, diffiniwyd ardal y dref fel pob un o'r ardaloedd cynnyrch cyfagos a ddsberthir yn 'drefol' neu yn 'dref ac ymylol'. Fodd bynnag, yn achos rhai trefi cynhwyswyd ardaloedd cynnyrch cyfagos a ddsberthir yn 'bentref' neu yn 'bentrefan ac annedd ynysig' er mwyn sicrhau bod pob stryd lle mae trigolion yn yr ardaloedd adeiledig cyffyrddol yn cael eu cynnwys a bod safleoedd cyflogaeth pwysig ar ymylon trefi yn cael eu cynnwys. Er enghraifft, estynnwyd yr ardal a ddiffiniwyd ar gyfer Aberystwyth er mwyn cynnwys yr ardal gynnyrch oddi mewn i ward Llanfarian sy'n cynnwys Ystad Ddiwydiannol Glanyrafon, sydd yn dechnegol yn cael ei dosbarthu yn 'bentrefan ac aneddiadau ynysig'.

- 2.10 Ar gyfer 17 o drefi mae ardal y dref yr un peth o ddefnyddio ardaloedd cynnyrch â defnyddio wardiau. Yn achos chwe thref, mae diffiniad yr ardal gynhyrchu ychydig yn fwy na'r diffiniad sy'n seiliedig ar ward. Cynhwyswyd rhan ogleddol Llwyn Celyn, er enghraifft, yn ardal Hwlfordd, a chynhwyswyd Llanelwedd a Maes Sioe Frenhinol Cymru yn Llanfair ym Muallt. Mae gan bob un o'r 21 dref sy'n weddill ardal a phoblogaeth llai ar ddiffiniad ardal gynnyrch gan fod rhannau gwledig wardiau wedi'u heithrio. Mae hyn yn arbennig o arwyddocaol i nifer o drefi llai sydd mewn wardiau sy'n cynnwys wardiau eraill. Mae ward Trefyclo, er enghraifft, yn cynnwys pentref Norton sydd wedi'i eithrio o ddiffiniad yr ardal gynnyrch. Ni ellir diffinio Castellnewydd Emlyn yn foddhaol ar lefel ward, ond fe'i diffinnir fel ei fod yn cynnwys ardaloedd cynnyrch y 'dref' yn ward Cenarth yn Sir Gaerfyrddin ac ardaloedd cynnyrch y 'dref' ar gyfer anheddiad Adpar yng Ngheredigion. Yn yr un modd, cynhwyswyd Tutshill a Sedbury ar ochr Lloegr Afon Gwy yn ardal Cas-gwent.
- 2.11 Cymerwyd y data am bresenoldeb gwasanaethau mewn trefi bach a gyflwynwyd ym mhennod 4 o Arolwg Gwasanaethau Arsyllfa Wledig Cymru. Casglwyd data trwy gyfrwng arolwg a anfonwyd at glerc cod cynghorau cymuned a thref. Mae a wnelo'r data fel y cyfryw ag ardaloedd cymunedol, sydd yn aml yn fwy cyfyng nag ardaloedd trefi a ddiffinnir yn atodiad B. Yn yr un modd, mae data a roddwyd gan Arolwg Cartrefi Arsyllfa Wledig Cymru yn defnyddio hunan-ddiffiniad yr ymatebwyr a ydynt yn byw mewn tref, pentref, pentrefan neu gefn gwlad agored.
- 2.12 Yn olaf, gall data a gafwyd gan ffynonellau cyhoeddus eraill, gan gynnwys yr adroddiad Trefi Bychain Deinamig, ddefnyddio diffiniadau gwahanol o ran dosbarthu trefi bach ac ardal trefi unigol fel ei gilydd.

PENNOD 3: TREFI BACH YNG NGHED-DESTUN Y GYMRU WLEDIG

Cyflwyniad

- 3.1 Mae gan drefi bach a threfi marchnad sefyllfa gymdeithasol ac economaidd benodol yng Nghymru sy'n wahanol i sefyllfa ardaloedd trefol mwy a phentrefi a chymunedau gwledig gwasgaredig. Wedi dweud hyn, cysylltir trefi bach a threfi marchnad trwy lif poblogaeth, cysylltiadau cyflogaeth a chyfnwid economaidd â'u cefnwledydd gwledig eu hunain, ac â chanolfannau trefol mwy. Mae'r bennod hon yn sylwi ar gyd-destun cymdeithasol ac economaidd trefi bach a threfi marchnad yn y Gymru wledig. Mae'r rhan gyntaf yn canolbwyntio ar nodweddion poblogaeth trefi bach a threfi marchnad, gan gynnwys maint a newid mewn poblogaeth, ymfudo a demograffeg. Mae'r ail ran yn canolbwyntio ar nodweddion economaidd trefi bach a threfi marchnad, yn enwedig nifer, maint a diwydiant busnesau sydd wedi'u cofrestru ar gyfer TAW ac unedau lleol.

Poblogaeth

- 3.2 Ledled Cymru gyfan, mae tua hanner miliwn o bobl yn byw mewn ardaloedd trefol ac ymylol, neu mewn ardaloedd trefol mwy anghysbell megis Aberystwyth, Caerfyrddin, Caerdybi a'r Drenewydd, sef ychydig llai nag un rhan o bump o'r boblogaeth genedlaethol ac sy'n cyfateb yn fras i'r boblogaeth 'wledig' weddilliol (tabl 3.1). Mae'r rhan fwyaf o'r rhain, fodd bynnag, yn y maestrefi, cymunedau trefol ymylol a chyn-drefi glofaol de Cymru a de-ddwyrain Cymru. Yn y naw sir y mae'n arfer eu hystyried yn gnewyllyn y Gymru wledig,³ mae modd rhannu'r boblogaeth yn fras iawn fel hyn 45/25/30 rhwng pentrefi chefn gwlad agored, ardaloedd tref ac ymylol, ac ardaloedd trefol dosbarthiad y Swyddfa Ystadegau Gwladol (tabl 3.2). Fodd bynnag, nid yw'r dosbarthiad hwn yn do'i hun yn canfod poblogaeth y dref fechan. Mae diffiniad o drefi bach sy'n defnyddio'r data hwn, fel yr amlinellwyd ym mhennod un, yn nodi 81 o drefi bach a threfi marchnad yn y Gymru wledig, â chyfanswm poblogaeth o 377,833 neu 39% o boblogaeth y naw sir (tabl 3.3) (a hynny'n eithrio 9 o drefi bach a threfi marchnad mewn wardiau a ddosberthir yn 'bentref, pentrefan ac annedd ynysig gan ddosbarthiad yr ONS (gweler paragraff 2.7)).
- 3.3 Mae'r un a phedwar ugain o drefi bach a threfi marchnad hwythau'n amrywio'n sylweddol iawn o ran maint. Mae gan dri chwarter boblogaeth o rhwng 1,000 a 5,000 o drigolion, er bod ystod y boblogaeth (o'i chyfrif fesul ward) yn ymestyn o 901 (Rhosneigr) i 16,928 (Aberystwyth) (tabl 3.4). Mae'r bum tref fwyaf (Aberystwyth, Bangor, Caerfyrddin, Y Fenni and Aberdaugleddau) yn cynnwys un rhan o bump poblogaeth trefi bach yn y Gymru wledig. Amrywiol hefyd yw arwyddocâd y trefi bach o ran strwythur poblogaeth y gwahanol awdurdodau lleol gwledig, gan gynnwys mwy na hanner poblogaeth Gwynedd, Sir Benfro a Sir Fynwy, ond llai na thraean

³ Sir Gaerfyrddin, Ceredigion, Conwy, Sir Ddinbych, Gwynedd, Sir Fynwy, Sir Benfro, Powys ac Ynys Môn.

poblogaeth Conwy, Sir Ddinbych a Sir Gaerfyrddin (tabl 3.5). Ar lefel y trefi, Aberystwyth sydd fwyaf arwyddocaol o ran poblogaeth yn ei sir, gan gynnwys 23% o boblogaeth Ceredigion, wedyn Caerdybi (17% o boblogaeth Ynys Môn), Y Fenni (16% o boblogaeth Sir Fynwy) a Bangor (14% o boblogaeth Gwynedd).

	Poblogaeth 2001	%
Trefol –tenau	56,160	1.9%
Tref ac ymylol – tenau	96,166	3.3%
Tref ac ymylol – llai tenau	371,674	12.8%
Cyfanswm ‘tref ac ymyl’ a ‘threfol-tenau’	524,000	18.0%
Pentref - tenau	150,950	5.2%
Pentref – llai tenau	202,845	7.0%
Pentrefan ac ynysig – tenau	122,062	4.2%
Pentrefan ac ynysig – llai tenau	93,399	3.2%
Cyfanswm ‘gwledig’	569,256	19.6%
Trefol – llai tenau	1,809,829	62.3%

Tabl 3.1: Poblogaeth Cymru yn ôl Dosbarthiad Ardaloedd Gwledig-Trefol

	Poblogaeth 2001	%
Trefol –Tenau	56,160	5.9%
Tref ac ymylol – tenau	96,166	10.0%
Tref ac ymylol – lai tenau	138,367	14.4%
Cyfanswm ‘tref ac ymylol’ a ‘threfol-tenau’	290,693	30.3%
Pentref - tenau	150,950	15.7%
Pentref – llai tenau	94,551	9.9%
Pentrefan ac ynysig – tenau	121,716	12.7%
Pentrefan ac ynysig – llai tenau	53,282	5.6%
Cyfanswm ‘gwledig’	420,499	43.8%
Trefol – llai tenau	248,294	25.9%

Tabl 3.2: Poblogaeth Cymru Wledig yn ôl Dosbarthiad Ardaloedd Gwledig-Trefol (9 sir wledig graidd)

	Poblogaeth 2001	%
Trefi Bach	377,833	39.3%
Ardaloedd Trefol ac Ymylol Eraill	34,891	3.6%
Ardaloedd Trefol Eraill	175,396	18.3%
Pentrefi, Pentrefannau ac Anheddau Ynysig	371,366	38.7%
Cyfanswm Poblogaeth	959,486	100.0%

Tabl 3.3: Arwyddocâd Trefi Bach o ran Poblogaeth Naw Sir Graidd y Gymru Wledig

Band poblogaeth	Nifer y trefi	Canran
15,000+	4	4.9%
10,000 – 14,999	6	7.4%
7,500 – 9,999	6	7.4%
5,000 – 7,499	5	6.2%
2,500 – 4,999	30	37.0%
1,000 – 2,499	31	38.2%
Llai na 1,000	2	2.5%

Tabl 3.4: Poblogaeth Trefi Bach a Threfi Marchnad yn y Gymru Wledig (Cyfrifiad 2001)

	Trefi Bach	Trefi ac Ymylol Eraill	Trefol Arall	Pentrefi a Chefn Gwlad Arall
Sir Gaerfyrddin	43,700 25%	7,937 4%	59,693 35%	61,512 36%
Ceredigion	28,181 38%	-	-	46,760 62%
Conwy	14,459 13%	17,195 16%	62,715 57%	15,227 14%
Sir Ddinbych	28,523 31%	-	46,452 50%	18,090 19%
Gwynedd	65,853 55%	-	-	50,990 45%
Sir Fynwy	50,773 60%	9,759 12%	-	24,353 28%
Sir Benfro	63,698 56%	-	-	50,433 44%
Powys	50,745 40%	-	6,536 5%	69,073 55%
Ynys Môn	31,901 48%	-	-	34,928 52%

Tabl 3.5: Arwyddocâd Poblogaeth Trefi Bach y Gymru Wledig fesul Sir (Cyfrifiad 2001)

3.4 Mae poblogaeth y Gymru wledig yn gyffredinol wedi cynyddu'n sylweddol yn ystod y ddau ddegawd diwethaf. Ym 1981 roedd gan y tir lle ceir naw sir 'graidd' y Gymru wledig boblogaeth o 886,200. Erbyn 2001 roedd wedi cynyddu i 959,700 - sef cynnydd o 8.2%. Fodd bynnag, dangosodd dadansoddiad cynnar gan Arsyllfa Wledig Cymru na ddigwyddodd y twf poblogaeth hwn yn wastad ar draws y Gymru wledig. O'r herwydd, er bod gan drefi bach a threfi marchnad at ei gilydd gynnydd o ran poblogaeth yn ôl y tueddiad cyffredinol, mae graddfa a phatrwm newid o ran poblogaeth yn amrywio'n fawr rhwng trefi. Ar y naill begwn, mae poblogaeth Aberystwyth, Llanbedr Pont Steffan a Llanandras wedi cynyddu fwy na thraen rhwng 1981 a 2001 (yn achos y ddau cyntaf, mae a wnelo hyn yn rhannol â chynnydd ymrestrïadau yn y prifysgolion); ar y llall, mae poblogaeth Caldicot, Hwlfordd, Caergybi, Aberdaugleddau a Phwllheli wedi lleihau yn ystod yr un cyfnod.

3.5 O rannu'r newid o ran poblogaeth yn ddau gyfnod o ddeng mlynedd, mae modd canfod chwe thuedd benodol o ran tueddiadau poblogaeth ar gyfer 35 o'r sampl o drefi bach y mae data cymharol ar gael ar eu cyfer (tabl 3.6). Yn gyntaf, mae pump o'r trefi hyn wedi arddangos twf arwyddocaol parhaol dros y ddau ddegawd, gyda chynnydd o ran poblogaeth o ryw 5% yn ystod y ddau gyfnod. Diddorol sylwi bod pob un o'r trefi hyn naill ai yng nghanolbarth Powys neu yn agos at ffin Lloegr (gweler atodiad C ar gyfer y data'n llawn). Yn ail, mae tair tref, Aberystwyth, Cas-gwent a Llandeilo, wedi arddangos twf carlamus, gyda chynnyddiau cymharol fach o ran poblogaeth yn ystod y 1980au a chynnyddiau cyflymach o lawer yn y 1990au. Yn drydydd, mae chwe thref wedi dangos Twf cyson, â chynnydd cyffredinol o ran y boblogaeth rhwng 3% a 8% rhwng 1981 a 2001. Dosberthir y trefi hyn ar draws y Gymru wledig ac maent yn cynnwys trefi fel Y Bala ac Aberaeron a threfi mwy gan gynnwys Caerfyrddin a Doc Penfro. Yn bedwerydd mae poblogaeth tair tref (Abergwaun, Llangefni a Phenfro) wedi bod yn sefydlog, gyda chynnydd bach yn y ddau ddegawd ond cyfanswm cynnydd sy'n llai na 3% yn ystod y cyfnod o ugain mlynedd. Grwpiwyd y rhain yn nhabl 3.6 gyda saith tref y mae eu poblogaeth wedi amrywio er 1981. Collodd tair o'r trefi hyn boblogaeth yn ystod y 1980au, ond cynyddodd eu poblogaeth yn y 1990au (gan gynnwys Llanidloes, lle cafwyd cynnydd yn y boblogaeth o 9.2% rhwng 1991 a 2001). Yn y pedair tref arall, dilynwyd cynnydd poblogaeth yn y 1980 gan ostyngiad graddol yn y boblogaeth yn y 1990au. Yn olaf, profodd pedair tref ostyngiad parhaol o ran eu poblogaeth yn ystod y cyfnod hwn. Lleolir tair o'r trefi hyn (Caerdybi, Aberdaugleddau a Phwllheli) ar yr arfordir ymhell i'r gorllewin, ac mae tair (Caerdybi, Aberdaugleddau a Caldicot) yn gysylltiedig â chyflogaeth borthladd neu gyflogaeth ddiwydiannol sy'n dirywio.

	1981-91	1991-2001	1981-2001
Twf Sylweddol Parhaol			
Llanfair ym Muallt	+12.0%	+16.6%	+30.6%
Trefynwy	+10.7	+7.1	+18.5
Cyflymu Twf			
Aberystwyth	+3.4%	+36.7%	+43.4%
Cas-gwent	+1.1%	+16.0%	+17.2%
Twf sy'n Arafu			
Bangor	+13.0%	+3.0%	+16.3%
Llandrindod	+13.1%	+2.6%	+16.0%
Twf Cyson			
Dinbych	+4.2%	+1.4%	+5.7%
Caerfyrddin	+0.6%	+3.5%	+4.1%
Poblogaeth Amrywiol neu Sefydlog			
Caernarfon	-0.3%	+1.9%	+1.6%
Aberteifi	+2.8%	-1.8%	+0.9%
Poblogaeth sy'n Disgyn			
Caerdybi	-7.1%	-2.7%	-9.6%
Pwllheli	-3.3%	-0.5%	-3.8%

Tabl 3.6: Enghreifftiau o Batrymau o Newid yn y Boblogaeth ar gyfer Trefi Bach a Threfi Marchnad y Gymru Wledig


- 3.6 Mae'r amrywiaeth rhwng trefi'n adlewyrchu i ryw raddau'r gwahaniaethau is-ranbarthol o ran tueddiadau poblogaeth. Mae gan yr ardal yng nghanolbarth Cymru a gogledd Ceredigion, sy'n cynnwys trefi â graddfeydd twf mawr fel Aberystwyth, Llanfair ym Muallt, Y Gelli, Llanandras a'r Trallwng, duedd gyffredinol i'r boblogaeth gynnyddu'n sylweddol, a phoblogaeth Hwlfordd, Caergybi, Aberdaugleddau a Phwllheli i leihau, yn adlewyrchu patrymau mwy cyffredinol o leihau poblogaeth mewn rhannau helaeth o Sir Benfro a gogledd-orllewin Cymru (gweler ffigwr 3.1).
- 3.7 Fodd bynnag, mae llawer o drefi bach yn arddangos patrwm eglur o newid mewn poblogaeth mewn perthynas ag ardaloedd gwledig cyfagos. Fel y dengys tabl 3.7, roedd gan dair ar ddeg o'r trefi yn y sampl gyfraddau uwch o gynnydd yn y boblogaeth rhwng 1991 a 2001 na'r cyfartaledd ar gyfer y sir lle'r oeddent wedi'u lleoli. Dylid nodi bod naw o'r trefi hyn i'w cael yn nhair o'r siroedd cyflymaf eu cynnydd yng Nghymru - Ceredigion (cynnydd poblogaeth o 14.4% rhwng 1991 a 2001), Sir Fynwy (6.0%) a Phowys (5.6%) - ac mae modd o'r herwydd eu hystyried yn drefi sy'n gyrru cynnydd poblogaeth yn yr ardaloedd hyn. Fodd bynnag, roedd gan y rhan fwyaf o drefi yn y sampl gyfraddau arafach o dwf o ran poblogaeth na chymedr yr awdurdod lleol, gan awgrymu bod twf mewn poblogaeth mewn ardaloedd fel Sir Gaerfyrddin a Sir Benfro yn cael ei yrru gan dwf mewn cymunedau gwledig. Eto i gyd, dylid hefyd nodi bod amryw o'r trefi hyn yn parhau i dyfu o ran poblogaeth ar raddfa gyflymach na'r cymunedau gwledig oddi amgylch y maent agosaf atynt neu sy'n eu hamlygu eu hunain fel pocedi o dwf bach o ran poblogaeth mewn ardaloedd lle mae'r boblogaeth at ei gilydd yn dirywio, er enghraifft Y Bala, Abergwaun a Llangefni (gweler ffigwr 3.1)

Graddfa twf uwch na chymedr yr awdurdod lleol	Llangefni, Bangor, Rhuthun, Llanfair ym Muallt, Llandrindod, Y Drenewydd, Llanandras, Y Trallwng, Aberystwyth, Llanbedr Pont Steffan, Llandeilo, Cas-gwent, Trefynwy
Graddfa twf yn unol â chymedr yr awdurdod lleol	Y Gelli, Caerfyrddin
Graddfa twf yn is na chymedr yr awdurdod lleol	Caergybi, Y Bala, Caernarfon, Pwllheli, Llanrwst, Dinbych, Llanellwyr, Aberhonddu, Llanidloes, Machynlleth, Rhaeadr, Aberaeron, Aberteifi, Abergwaun, Hwlfordd, Aberdaugleddau, Penfro, Doc Penfro, Dinbych-y-pysgod, Caldicot

Tabl 3.7: Graddfeydd Twf mewn Trefi Bach a Threfi Marchnad o'u Cymharu â Chyfartaledd yr Awdurdod Lleol, 1991-2001.

- 3.8 Mae twf mewn poblogaeth yn gysylltiedig â thwf mewn tai, sef un o'r dangosyddion a ddadansoddwyd gan yr adroddiad Trefi Bychain Deinamig. Fel y dengys y data a gyflwynir yn yr adroddiad hwnnw ar gyfer deng tref fechan yng Nghymru, mae twf perthynol mewn tai yn adlewyrchu twf perthynol yn y boblogaeth, ac Aberystwyth a Llanandras sy'n codi'r nifer fwyaf o unedau tai newydd (tabl 3.8). Ar ben hyn, mae'r adroddiad Trefi Bychain Deinamig hefyd yn nodi yn achos wyth o'r trefi hyn, fod twf tai yn y

dref yn uwch na'r twf tai yn ardaloedd preswyl gwledig gweddilliol, ac roedd y gwahaniaeth weithiau'n sylweddol. Dangosodd yr eithriadau, Bangor a Llanidloes, dwf tai a oedd yn unol â'r ardal breswyl wledig weddilliol.



Ffigwr 3.1: Newid yn y boblogaeth yng Nghymru fesul ward, 1991-2001.

	Cynnydd (gwir) yn yr anheddau yn y dref	Cynnydd (%) yn yr anheddau yn y dref	Cynnydd (%) yn yr anheddau yn yr ardal wledig oddi amgylch
Aberystwyth	1400	28.3%	8.3%
Llanandras	200	20.7%	8.8%
Castellnewydd Emlyn	200	14.2%	8.8%
Machynlleth	100	9.7%	8.8%
Aberhonddu	300	9.6%	8.8%
Abergwaun	150	9.3%	8.7%
Bala	100	8.8%	5.7%
Llanidloes	100	8.7%	8.8%
Y Fenni	400	6.5%	4.3%
Bangor	300	5.6%	5.7%

Tabl 3.8: Twf Tai mewn Trefi Bach Dethol ac Ardaloedd Gwledig Oddi Amgylch, 1991-2000.

Ffynhonnell: Adroddiad Trefi Bychain Deïnamig (Brown *et al.*, 2004).

- 3.9 Mae trefi bach a threfi marchnad felly'n rhan o rwydweithiau cymhleth o ymfudo a newid poblogaeth sy'n gweithredu ar raddfa ranbarthol ac is-ranbarthol ac sy'n cynnwys trefi bach a chymunedau gwledig fel ei gilydd. Dangosodd arolwg ffôn o 4,023 o gartrefi yn y Gymru wledig a gynhaliwyd ar gyfer Arsyllfa Wledig Cymru yng ngwanwyn 2004 fod graddau o symudedd a sefydlogrwydd cartrefi yn debyg ar draws gwahanol fathau o anheddiad, er bod ymatebwyr a ddywedodd eu bod yn byw mewn tref ychydig yn fwy tebygol o fod wedi symud yn ddiweddar na'r rheiny a oedd yn byw mewn pentrefi, pentrefannau neu gefn gwlad agored, ac ychydig yn llai tebygol o fod wedi byw yn yr un cyfeiriad am fwy nag ugain mlynedd (tabl 3.9).
- 3.10 Mae canlyniadau'r arolwg aelwydydd hefyd yn dangos patrymau cymhleth o ran llif y boblogaeth oddi mewn a thu hwnt i'r Gymru wledig. Roedd y rhan fwyaf o ymatebwyr y trefi wedi byw mewn tref neu ddinas cyn symud i'w cyfeiriad presennol (gallai hwn fod yn eiddo yn yr un dref, neu'n dref neu'n ddinas wahanol efafallai), ond mae grwp lleiafrifol arwyddocaol sydd wedi symud i drefi bach o gymunedau mwy gwledig (tabl 3.10). Ar ben hyn, er bod mwy na hanner ymatebwyr y dref wedi dweud eu bod wedi byw mewn tref fach am 'y rhan fwyaf o'u bywyd', dywed tua chwarter trigolion presennol trefi eu bod wedi treulio'r rhan fwyaf o'u bywyd mewn tref neu ddinas fawr, a dywedodd bron i un rhan o bump eu bod wedi treulio'r rhan fwyaf o'u bywydau mewn cymuned wledig (tabl 3.11). O'r herwydd, gellid dadlau mai trefi bach sydd ar eu hennill yn y broses o drefoli a gwrthdrefoli fel ei gilydd, yn dibynnu ar y raddfa a ddefnyddir i fesur tueddiadau o ran poblogaeth.
- 3.11 Yn ogystal, awgryma tabl 3.11 fod ychydig o'r cynnydd ym mhoblogaeth trefi bach y Gymru wledig yn gynnrych ymfudo o bell, gyda thua chwarter trigolion y trefi wedi treulio'r rhan fwyaf o'u bywyd y tu allan i Gymru. Eto i gyd, ymddengys fod trefi bach yn llai deniadol, o'u cymharu â chymunedau gwledig, i ymfudwyr o'r tu allan i Gymru.

	Tref	Pentref	Pentrefan neu Gefn Gwlad Agored
Llai na blwyddyn	10%	8%	7%
1-2 flynedd	9%	8%	6%
2-5 mlynedd	21%	19%	16%
5-10 mlynedd	17%	18%	18%
10-20 mlynedd	19%	22%	23%
Mwy nag 20 mlynedd	24%	25%	29%
Cyfanswm atebion	1349	1935	733

Tabl 3.9: Hyd preswyllo yn eu cartref presennol, yn ôl hunan-ddiffiniad ardal gartref Ffynhonnell: Arolwg Aelwydydd Arsyllfa Wledig Cymru 2004

	Hunan-ddisgrifiad o gartrefi presennol		
	Tref	Pentref	Pentrefan neu gefn gwlad agored
Tref neu ddinas	58%	41%	41%
Pentref mawr	7%	13%	8%
Pentref bach	16%	27%	18%
Pentrefan	1%	2%	6%
Cefn gwlad agored	6%	7%	20%
Wedi byw yn y cartref presennol erioed	10%	8%	6%
Cyfanswm atebion	1349	1935	733

Tabl 3.10: Disgrifiad o'r man lle y bu pobl yn byw cyn symud i'w cartref presennol. Ffynhonnell: Arolwg Aelwydydd Arsyllfa Wledig Cymru 2004

	Hunan-ddisgrifiad o gartrefi presennol		
	Tref	Pentref	Pentrefan neu gefn gwlad agored
Tref neu ddinas fawr	26%	22%	22%
Tref lai	57%	17%	17%
Pentref mawr	5%	21%	6%
Pentref bach	7%	34%	13%
Pentrefan	3%	5%	32%
Cefn gwlad agored	3%	5%	32%
Yng Nghymru	74%	71%	63%
Y tu allan i Gymru	26%	29%	37%
Cyfanswm atebion	1349	1935	733

Tabl 3.11: Ardal lle mae'r ymatebydd wedi treulio'r rhan fwyaf o'i fywyd. Ffynhonnell: Arolwg Aelwydydd Arsyllfa Wledig Cymru 2004

- 3.12 Mae dadansoddi'r arolwg cartrefi hefyd yn dangos mai ffactorau sy'n gysylltiedig ag eiddo yw'r rhai mwyaf arwyddocaol o ran rhesymau trigolion trefi dros symud i'w cartref presennol, ond mae hefyd yn dangos i ffactorau sy'n gysylltiedig â chyflogaeth fod yn fwy arwyddocaol i drigolion trefi nag i ymatebwyr a oedd yn byw mewn pentrefannau neu mewn cefn gwlad agored. Nododd deunaw y cant o drigolion trefi eu bod wedi symud i'w cartref presennol er mwyn naill ai iddynt hwy neu i'w partner gwaith.
- 3.13 Mae'r canfyddiadau hyn, ynghyd â dadansoddiadau eraill o dueddiadau ymfudo ar lefel leol yng Nghanolbarth Cymru a gynhaliwyd mewn mannau eraill (Walford, 2005), yn awgrymu y gellir cysylltu ymfudo i drefi bach ag adegau penodol yng nghylch bywyd rhywun. Mae pobl iau yn symud o gymunedau gwledig i drefi bach er mwyn cael gwaith a chyfleoedd hyfforddiant ac oherwydd bod mwy o dai fforddiadwy ar gael, gan gynnwys tai ar rent. Ar yr un pryd, mae peth tystiolaeth fod tuedd i bobl oedrannus symud i drefi bach o gymunedau gwledig er mwyn cael gofal gwell, gan gynnwys llety cysgodol (Newidiem, 2003).
- 3.14 O'r herwydd, y trefi bach hynny sydd â'r graddfeydd uchaf o drosiant poblogaeth sydd â throsiant uchel o drigolion rhwng 15 a 24 oed. Nid syndod felly, fel y dengys tabl 3.12, fod naw o bob deg ward trefi bach sydd â'r trosiant poblogaeth uchaf yn nhrefi prifysgol Aberystwyth a Bangor a bod hyn yn gysylltiedig â llety myfyrwyr dros dro. Fodd bynnag, hyd yn oed wrth eithrio'r trefi prifysgol (gan gynnwys Llanbedr Pont Steffan a Chaerfyrddin hefyd), mae graddau uchel o drosiant poblogaeth yn dal i fod yn gysylltiedig â mewn-ymfudo gan bobl ifanc, yn enwedig mewn canolfannau is-ranbarthol fel Hwlfordd, Y Drenewydd a Llandrindod (tabl 3.13).

	Graddfa mewnlif poblogaeth, 2000-1	Graddfa all-lif poblogaeth, 2000-1	Mewnlif pobl 15-24 oed
	Am bob 1,000 o drigolion		
Llanbadarn Sulien (Aberystwyth)	417	369	559
Garth (Bangor)	387	349	740
Bronglais (Aberystwyth)	347	324	542
Menai (Bangor)	282	309	365
Canol (Aberystwyth)	277	289	377
Gogledd (Aberystwyth)	228	220	348
Deiniol (Bangor)	227	257	322
Faenor (Aberystwyth)	212	221	457
Llandrindod Dwyrain/Gorllewin	194	158	386
Rheidol (Aberystwyth)	191	195	337

Tabl 3.12: Graddfeydd Trosiant Uchaf yn y Boblogaeth ar gyfer Wardiau Trefi Bach, 2000-1

	Graddfa mewnlif poblogaeth, 2000-1	Graddfa all-lif poblogaeth outflow, 2000-1	Mewnlif pobl 15-24 oed
	Am bob 1,000 o drigolion		
Dwyrain/Gorllewin Llandrindod	194	158	386
Drybridge (Trefynwy)	178	99	212
Priory (Hwlfordd)	173	114	295
Dwyrain Y Drenewydd	144	115	174
Aberteifi Teifi	140	148	256
Castell (Hwlfordd)	138	145	255
Marchnad Doc Penfro	138	95	276
Tref Caergybi	79	144	135
Canol Dinbych	100	136	231
Garth (Hwlfordd)	110	161	132

Tabl 3.13: Graddfeydd Trosiant Uchaf yn y Boblogaeth ar gyfer Wardiau Trefi Bach, ac eithrio Trefi Prifysgol

- 3.15 Dim ond nifer gyfyngedig o drefi, fodd bynnag, sydd â'r nodweddion strwythurol priodol i gynnal nifer sylweddol y pobl ifanc sy'n ymfudo i mewn. Cysylltir y math hwn o ymfudo â threfi lle ceir cyfleoedd sylweddol am waith, yn enwedig mewn swyddi gweinyddol a chlercaidd, sy'n ganolfannau ar gyfer addysg AB ac AU, a lle ceir sector rhentu tai cymharol fawr neu brisiau tai is na'r cymunedau cyfagos. Ar y llaw arall, mae trefi bach nad yw'r nodweddion hyn ganddynt yn dueddol o weld all-lif o bobl ifanc, ac mae hyn yn cyfrannu at heneiddio perthynol proffil y boblogaeth. Ar ben hyn, ychwanegir at y duedd hon yn rhai trefi fel Aberaeron sy'n cael eu cyfrif yn lleoliadau ymddeol deniadol.
- 3.16 O ganlyniad, mae pegynnu o ran proffil oedran trefi bach a threfi marchnad yn y Gymru wledig. Mae gan nifer o drefi, gan gynnwys trefi prifysgol Aberystwyth, Bangor a Llanbedr Pont Steffan, ond hefyd Aberhonddu, Caernarfon, Caldicot, Cas-gwent, Dinbych, Caergybi, Aberdaugleddau, Y Drenewydd, Penfro a Doc Penfro boblogaeth lle mae'r oedran cymedrig dan 40 oed (gweler atodiad C am y data llawn). Mewn nifer o'r trefi hyn mae mwy na thraean y trigolion dan 25 oed (tabl 3.14). I'r gwrthwyneb, mae oedran cymedrig y boblogaeth yn Aberaeron, Llanandras a Rhaeadr dros 45 oed, ac mae mwy na chwarter trigolion y trefi hyn dros eu 60 (tabl 3.14). Unwaith eto mae'r gwahaniaethau hyn o ran strwythur oedran yn adlewyrchu i ryw raddau gwahaniaethau rhanbarthol yn y Gymru wledig, ond mae'n werth nodi mai'r trefi sydd â'r poblogaethau ieuengaf neu hyn yw'r rhai sy'n amlwg o'u cymharu â'r cyfartaledd cyffredinol ar gyfer ardal eu hawdurdod lleol (tabl 3.15).

	Oedran cymedrig trigolion	Poblogaeth dan 25 oed	Poblogaeth dros 65 oed
Oedran cymedrig uchaf			
Aberaeron	46.9	23.7%	29.3%
Rhaeadr	45.1	24.6%	26.2%
Llanandras	44.8	25.6%	26.2%
Dolgellau	44.1	28.3%	21.8%
Llangollen	43.9	24.9%	21.7%
Oedran cymedrig isaf			
Hwlfordd	37.7	34.3%	16.4%
Doc Penfro	37.5	33.8%	15.1%
Drenewydd	37.3	33.9%	15.0%
Bangor	35.1	44.0%	13.8%
Aberystwyth	34.9	49.2%	14.2%

Tabl3.14: Trefi â'r oedrannau cymedrig isaf ac uchaf

Oedran cymedrig trigolion bum mlynedd neu fwy yn uwch na chymedr y sir	Aberaeron
Oedran cymedrig trigolion rhwng dwy a phum mlynedd yn uwch na chymedr y sir	Dolgellau, Porthmadog, Llangollen, Llanidloes, Llanandras, Rhaeadr, Abergwaun, Llandeilo,
Oedran cymedrig trigolion rhwng dwy a thair blynedd yn uwch neu yn is na chymedr y sir	Llangefni, Bala, Blaenau Ffestiniog, Caernarfon, Pwllheli, Llanrwst, Rhuthun , Llanellwyr, Llanfair ym Muallt, Crughywel, Y Gelli, Trefyclo, Llandrindod, Machynlleth, Y Trallwng, Aberteifi, Aberdaugleddau, Penfro, Dinbych-y-pysgod, Caerfyrddin, Llanymddyfri, Y Fenni, Caldicot, Trefynwy.
Oedran cymedrig trigolion rhwng dwy a phum mlynedd yn is na chymedr y sir	Caerdybi, Dinbych, Aberhonddu, Y Drenewydd, Llanbedr Pont Steffan, Hwlfordd, Doc Penfro, Cas-gwent,
Oedran cymedrig trigolion bum mlynedd neu fwy yn is na chymedr y sir	Bangor, Aberystwyth.

Tabl 3.15: Oedran Cymedrig Trigolion Trefi Bach o'u Cymharu ag Oedran Cymedrig Poblogaeth y Sir

3.18 Mae dadansoddi'r ystadegau poblogaeth yn dangos felly nad yw trefi bach a threfi marchnad y Gymru wledig yn ddsbarth unffurf cyson ei dueddiadau, ond bod gwahaniaeth amlwg rhwng trefi sydd wedi profi cynnydd sylweddol mewn poblogaeth gyda chymorth ymfudo i mewn gan drigolion iau o'r cymunedau gwledig; trefi sydd wedi profi twf poblogaeth er gwaethaf ymfudo allan gan bobl ifanc, gyda chymorth ymfudo o bellter mwy ac ar gyfer ymdeol; trefi lled sefydlog eu poblogaeth; a threfi lle mae'r boblogaeth yn lleihau. Mae yna berthynas fras rhwng y tueddiadau hyn mewn trefi unigol a thueddiadau ehangach mewn cyd-destun is-ranbarthol, ond mae rhan fwyaf y

trefi bach hefyd yn arddangos patrymau penodol o ran strwythur poblogaeth a newid poblogaeth i'r ardaloedd gwledig cyfagos atynt.

3.19 Gwelir patrwm cymysg tebyg pan gaiff nodweddion economaidd-gymdeithasol eraill eu hystyried. Dengys data Mynegai Amddifadedd Lluosog (2000), er enghraifft, fod gan trefi bach a threfi marchnad yn y Gymru wledig, o'u hystyried yn ddosbarth, lefel uwch o amddifadedd na chymunedau gwledig ond lefel is na'r unedau dinesig mwy yn y naw sir (tabl 3.16). Yn wir, mae'n werth nodi bod sgôr gymedrig amddifadedd trefi bach ar y rhan fwyaf o fesurau'n drawiadol o agos at gymedr Cymru gyfan – ac eithrio amddifadedd iechyd ac amddifadedd mynediad, lle mae rhai trefi bach yn llai amddifad o dipyn na chyfartaledd Cymru.

3.20 Eto i gyd, mae'r sefyllfa gyfartalog hon yn cuddio gwahaniaethau sylweddol yn lefel yr amddifadedd rhwng trefi unigol. Dim ond 12 ward trefi bach yn y naw sir wledig oedd ymhlith 100 ward mwyaf amddifad Cymru ar Fynegai Amddifadedd Lluosog 2000, ond roedd y rhain yn cynnwys y chweched ward mwyaf amddifad, sef Peblig yng Nghaernarfon, yn bedwerydd ar ddeg, Cilmaen ym Mhenfro, ac yn ddeunawfed, Marchog ym Mangor (gweler tabl 3.17). Ar ben arall y raddfa, roedd 21 o 100 ward lleiaf amddifad Cymru yn wardiau trefi bach yn y Gymru wledig, gan gynnwys y pedwerydd ward lleiaf amddifad, Brynbuga, a'r seithfed ward lleiaf amddifad, Saint Kingsmark yng Nghas-gwent (gweler tabl 3.18). Yn yr un modd, ym maes mynediad, dim ond pum ward trefi bach a gynhwyswyd yn y 100 mwyaf amddifad, ond roedd y rhain yn cynnwys y pedwerydd ward mwyaf amddifad, sef Aberdaron; tra oedd 19 ward trefi bach ymhlith y 100 lleiaf amddifad, gan gynnwys y tri ward lleiaf amddifad - wardiau Hirael a Menai ym Mangor (rhif 863 a 865 allan o 865 yn eu tro) a Chanol Doc Penfro (rhif 864). Fel y dengys tabl 3.19, mae'r mynegai hefyd yn dangos presenoldeb uwch o rai mathau eraill o amddifadedd mewn trefi bach. O'r herwydd, er nad oedd yr un ward trefi bach ymhlith y 100 ward mwyaf amddifad ym maes iechyd, roedd trefi bach yn cynnwys 30 o'r 100 ward mwyaf amddifad ym maes tai, gan gynnwys y mwyaf amddifad a'r trydydd mwyaf (sef Aberdaron a Gogledd Pwllheli yn eu tro).

Maes	Trefi Bach (n=164)	Gwledig (219)	Trefol ac Ymylol (63)	Cymedr Cymru gyfan (865)
Mynegai Amddifadedd Lluosog	19.86	16.84	25.00	21.75
Incwm	26.98	19.78	28.70	25.58
Cyflogaeth	15.30	12.48	18.66	15.92
Iechyd	-0.36	-0.60	0.48	0.00
Addysg	0.05	-0.58	0.13	0.00
Tai	0.13	0.16	0.10	0.11
Mynediad	-0.23	1.14	-0.42	0.00

Tabl 3.16: Sgôr gymedrig wardiau yn y Gymru wledig ym Mynegai Amddifadedd Lluosog 2000, fesul categori.

D.S.: Sgôr uwch yn cyfateb i fwy o amddifadedd. Ffigurau ar gyfer wardiau 1991, wardiau mewn 9 sir 'graidd' y Gymru wledig yn unig. Ffynhonnell: CCC (2000).

Ward	Tref	Sgôr MALI	Safle MALI
Peblig	Caernarfon	67.93	6
Cil-maen	Penfro	64.14	14
Marchog	Bangor	62.35	18
Morawelon	Caergybi	52.08	40
Tudur	Llangefni	45.25	73
Bowydd and Rhiw	Blaenau Ffestiniog	44.92	74
Llanion	Doc Penfro	43.20	76
Abermaw	Barmouth	42.71	79
Maeshyfyd	Caergybi	42.01	83
Porthladd Amlwch	Amlwch	40.46	90

Tabl 3.17: Y deg ward mwyaf amddifad ymysg trefi bach yn y Gymru wledig, yn ôl mesur Mynegai Amddifadedd Lluosog, 2000.

D.S.: Ffigurau ar gyfer wardiau 1991, wardiau 9 sir 'graidd' y Gymru wledig yn unig. Ffynhonnell: CCC (2000).

Ward	Tref	Sgôr MALI	Safle MALI(/865)
Brynbuga	Brynbuga	1.79	861
St Kingsmark	Cas-gwent	2.09	859
Larkfield	Cas-gwent	3.90	841
Castell Caldicot	Caldicot	3.90	840
Dinbych Isaf	Dinbych	4.48	833
Dwyrain Aberystwyth	Aberystwyth	4.67	828
Rhaglan	Rhaglan	5.22	818
Gogledd Llanllwchaearn	Drenewydd	5.37	813
Vauxhall	Trefynwy	5.60	809
Gwyngyll	Llanfair PG	5.74	805

Tabl 3.18: Y deg ward lleiaf amddifad ymysg trefi bach yn y Gymru wledig, yn ôl mesur Mynegai Amddifadedd Lluosog, 2000.

D.S.: Ffigurau ar gyfer wardiau 1991, wardiau mewn 9 sir 'graidd' y Gymru wledig yn unig. Ffynhonnell: CCC (2000).

Safle	MALL	Iechyd	Addysg	Tai	Mynediad	Incwm
1-100	12	0	8	30	5	19
101-200	18	9	8	22	11	23
201-300	23	15	26	26	23	23
301-400	18	31	33	20	25	18
401-500	19	26	22	16	32	20
501-600	22	22	26	17	20	20
601-700	20	33	22	11	18	20
701-800	21	16	9	17	14	16
801-865	11	11	9	5	15	5

Tabl 3.19: Dosbarthiad wardiau trefi bach yn y Gymru wledig yn y Mynegai Amddifadedd Lluosog fesul safle band am bob maes. (n=164).

Ffynhonnell: CCC (2000)

- 3.21 I raddau helaeth, mae dosbarthiad wardiau trefi bach yn y Mynegai Amddifadedd Lluosog yn adlewyrchu gwahaniaethau rhanbarthol disgwylidig, gyda threfi ar ymylon y gogledd a'r gorllewin fel arfer mewn safle uwch yn y Mynegai a threfi yn ne-ddwyrain Cymru, yn enwedig Sir Fynwy, fel arfer mewn safleoedd is. Byddai sgôr berthynol amddifadedd ar gyfer wardiau trefi bach o'u cymharu â wardiau gwledig cyfagos felly'n fwy arwyddocaol. Fel y dengys dadansoddiad sampl o 36 o drefi, unwaith eto nid oes unrhyw batrwm cyson o berfformiad i'w ganfod (tabl 3.20; gweler atodiad D am y ffigurau llawn).
- 3.22 Yn gyntaf, mae gan nifer o drefi lefel uwch o lawer amddifadedd na'r wardiau gwledig cyfagos atynt, yn enwedig cyn drefi diwydiannol neu drefi porthladd fel Blaenau Ffestiniog, Caergybi ac Abergwaun a threfi glan môr Pwllheli a Dinbych-y-pysgod. Yn ail, i'r gwrthwyneb, mae gan nifer o drefi sgôr amddifadedd lluosog is na'u cymdogion gwledig. Tuedda'r rhain i fod mewn manau mwy ynysig neu ganolfannau cyflogaeth y sector cyhoeddus. Mae gan drydydd grwp o drefi lefelau amddifadedd lluosog tebyg iawn i ardaloedd gwledig cyfagos, gan gynnwys nifer o drefi bach y mae eu nodweddion economaidd-gymdeithasol yn debycach i gymunedau gwledig (Y Bala, Machynlleth), yn ogystal â threfi mewn rhanbarthau mwy llewyrchus fel Sir Fynwy a chanolbarth Sir Gaerfyrddin. Yn olaf, yn achos llawer o drefi mae amrywiaeth sylweddol yn sgôr y Mynegai Amddifadedd Lluosog rhwng gwahanol wardiau sy'n perthyn iddynt. Yn eu plith nid syndod yw gweld rhai o'r trefi bach mwy, ond maent hefyd yn cynnwys rhai trefi canolig fel Dinbych, Llangefni a Phenfro. Mae gan Fangor, er enghraifft, y deunawfed ward mwyaf amddifad yng Nghymru (Marchog) a'r 791^{fed} (Garth), ac mae gan Benfro y pedwerydd ward ar ddeg mwyaf amddifad (Cil-maen) a'r 632^{fed} (San Mihangel).

Sgôr gymedrig MALI uwch na'r sgôr gymedrig MALI ar gyfer wardiau gwledig cyfagos	Blaenau Ffestiniog, Aberteifi, Abergwaun, Caergybi, Llandrindod, Aberdaugleddau, Pwllheli, Dinbych-y-pysgod, Y Trallwng.
Sgôr gymedrig MALI is na'r sgôr gymedrig MALI ar gyfer wardiau gwledig cyfagos	Aberaeron, Llanfair ym Muallt, Llanbedr Pont Steffan, Llanidloes, Porthmadog, Rhuthun, Llanelwy.
Sgôr gymedrig MALI debyg i'r sgôr gymedrig MALI ar gyfer wardiau gwledig cyfagos	Y Bala, Aberhonddu, Caldicot, Caerfyrddin, Cas-gwent, Llandeilo, Llangollen, Llanrwst, Machynlleth, Trefynwy.
Amrywiaeth arwyddocaol o ran sgôr gymedrig MALI rhwng wardiau mewn tref	Y Fenni, Aberystwyth, Bangor, Caernarfon, Dinbych, Hwlfordd, Llangefni, Y Drenewydd, Penfro, Doc Penfro.

Tabl 3.20: Mynegai Cymedrig Sgôr Amddifadedd Trefi Bach yn y Gymru wledig o'u cymharu â Sgorau Cymedrig ar gyfer Wardiau Gwledig Cyfagos

Economi Leol

3.23 Os oes gan rai trefi bach a threfi marchnad rôl o ran darparu gwasanaethau i'r Gymru wledig, yna gellid disgwyl y bydd eu presenoldeb yn economi'r Gymru wledig yn fwy arwyddocaol nag y byddai'u cyfran o'r boblogaeth yn ei awgrymu. Eto ymddengys mai prin yw'r dystiolaeth o hyn ar y dechrau. Mae cyfrifiad syml o fusnesau sydd wedi'u cofrestru ar gyfer TAW ar draws Cymru yn ôl dosbarthiad gwledig-dinesig yr ONS yn dangos mai ychydig yn llai na 17% o'r busnesau a oedd wedi'u lleoli mewn ardaloedd 'tref ac ymylol' a 'threfol-tenau' o'u cymharu â 18% y boblogaeth (tabl 3.21). Yn yr un modd, dim ond 31% o fusnesau a gofrestrwyd ar gyfer TAW yn 9 sir graidd y Gymru wledig sydd wedi'u lleoli mewn trefi bach (yn ôl diffiniad atodiad A), o'u cymharu â 39% o'r boblogaeth (tabl 3.22). Fodd bynnag, mae angen dadansoddi'r ffigurau hyn ymhellach.

3.24 Yn gyntaf, am eu bod yn cofnodi cofrestriadau ar gyfer TAW nid ydynt yn cynnwys gweithleoedd nad ydynt oherwydd eu natur wedi eu cofrestru ar gyfer TAW. Nid ydynt chwaith yn adlewyrchu gweithgarwch yn yr economi anffurfiol. Yn ail, mae yna wahaniaeth sylweddol yn y ffigurau ar gyfer busnesau ac unedau lleol, gyda'r cyntaf yn cyfateb i 'gwmni' neu 'fusnes' a'r ail yn cynnwys swyddfeydd a changhennau sefydliadau mwy. Gan fod tua 4,000 o unedau mwy lleol nag sydd o fusnesau mewn trefi bach yn y Gymru wledig, mae hyn yn awgrymu economi math cangen-ffatri yn y trefi bach, gyda changhennau'n cynnwys tua chwarter yr unedau lleol (cymharer tabl 3.22 a thabl 3.23). Yn drydydd, mae'r ffigurau hyn wedi'u gwyro yn sgil cynnwys ffermydd fel unedau TAW. Pan gaiff unedau amaethyddol eu heithrio, mae arwyddocâd trefi bach yn cynyddu, gyda hanner yr unedau anamaethyddol cofrestredig ar gyfer TAW yn y Gymru wledig wedi'u lleoli mewn trefi bach (tablau 3.22 a 3.23).

	Busnesau	%	Unedau lleol (gan gynnwys swyddfeydd cangen a ffatrioedd)	%
Trefol – tenau	1,320	1.8%	2,070	2.2%
Tref ac ymylol – tenau	3,780	5.1%	5,155	5.5%
Tref ac ymylol – llai tenau	7,135	9.7%	9,290	9.9%
Cyfanswm 'tref ac ymylol' a threfol - tenau	12,235	16.6%	16,515	17.5%
Pentref - tenau	6,345	8.6%	6,975	7.4%
Pentref – llai tenau	6,645	9.0%	7,420	7.9%
Pentrefan ac ynysig – tenau	10,980	14.9%	11,400	12.1%
Pentrefan ac ynysig – llai tenau	6,010	8.2%	6,656	7.1%
Cyfanswm 'gwledig'	29,980	40.8%	32,451	34.5%
Trefol – llai tenau	31,295	42.6%	45,275	48.1%

Tabl 3.21: Busnesau sydd wedi eu cofrestru ar gyfer TAW ac unedau lleol yng Nghymru yn ôl Dosbarthiad Gwledig-Trefol 2005

Ffynhonnell: Data gan y Gofrestr Busnesau Rhyngadrannol, a gyhoeddwyd ar wefan y Swyddfa Ystadegau Gwladol.

	Pob busnes		Ac eithrio busnesau amaethyddol	
Trefi bach	11550	31%	9955	42%
Pentrefi a chefn gwlad agored	21690	58%	9940	42%
Ardaloedd trefol ymylol	685	2%	585	3%
Trefol	3195	9%	3050	13%
Cyfanswm	37120	100%	23530	100%

Tabl 3.22: Busnesau a gofrestrwyd ar gyfer TAW mewn naw sir graidd y Gymru wledig fesul math o ardal, 2004

D.S.: Trefi bach yn ôl diffiniad atodiad A. Ardaloedd sydd wedi'u dosbarthu ar lefel ward. Cyfanswm nifer y busnesau wedi'u crynhoi i'r 5 agosaf.

	Pob uned leol		Ac eithrio unedau amaethyddol	
Trefi bach	15680	36%	14015	50%
Pentrefi a chefn gwlad agored	22285	51%	10645	38%
Ardaloedd trefol ymylol	770	2%	285	1%
Trefol	4620	11%	2855	10%
Cyfanswm				

Tabl 3.23: Unedau lleol a gofrestrwyd ar gyfer TAW mewn naw sir graidd y Gymru wledig fesul math o ardal, 2004

D.S.: Trefi bach yn ôl diffiniad atodiad A. Ardaloedd sydd wedi'u dosbarthu ar lefel ward. Cyfanswm nifer yr unedau lleol wedi'u crynhoi i'r 5 agosaf.

3.25 Yn ogystal, mae arwyddocâd trefi bach fel lleoliad ar gyfer busnesau yn y Gymru wledig yn amrywio'n ddaeryddol rhwng y siroedd. I raddau helaeth, mae graddau crynodiad y busnesau'n adlewyrchu crynodiad y boblogaeth. Mae yna gysylltiad arbennig o gryf o ran dosbarthiad busnesau a gofrestrwyd ar gyfer TAW (tabl 3.24 â thabl 3.5), er bod y crynodiad mewn trefi bach, o gyfrif unedau lleol, yn gryfach nag y byddai dosbarthiad y boblogaeth yn ei awgrymu (tabl 3.25). Fodd bynnag, daw dau batrwm braidd yn anghyson i'r amlwg. Yn gyntaf, yng Ngwynedd a Cheredigion mae crynodiad busnesau mewn trefi bach yn uwch o lawer na chrynodiad y boblogaeth, sy'n arwydd o bwysigrwydd trefi yn y siroedd hyn fel canolfannau ar gyfer masnach a busnes is-ranbarthol. Yn ail, yn Sir Gaerfyrddin a Sir Ddinbych, sydd â phoblogaeth drefol sylweddol yn ardaloedd Llanelli a Rhyl/Prestatyn yn eu tro, mae cyfran y busnesau sydd i'w cael yn yr ardaloedd trefol hyn yn drawiadol o is na chyfran y boblogaeth y sir, ac mae crynodiad busnesau mewn trefi bach yn uwch na chyfran y boblogaeth. Awgryma hyn fod trefi bach yn y siroedd hyn yn gallu cystadlu'n economaidd â'u cymdogion trefol mwy.

	Trefi Bach		Gwledig		Ymylol eraill		Trefol eraill	
Gwynedd	1810	61%	1180	39%				
Sir Fynwy	1375	57%	835	35%	185	8%		
Sir Benfro	1535	53%	1360	47%				
Ynys Môn	620	47%	700	53%				
Powys	1700	43%	2160	55%			100	2%

Ceredigion	815	43%	1100	57%				
Sir Ddinbych	745	38%	505	25%			735	37%
Sir Gaerfyrddin	1035	28%	1675	46%	105	3%	850	23%
Conwy	320	13%	425	18%	295	12%	1365	57%
Cyfanswm y Gymru wledig	9955	42%	9940	42%	585	3%	3050	13%

Tabl 3.24: Busnesau a gofrestrwyd ar gyfer TAW yn y Gymru wledig fesul ardal, ac eithrio unedau amaethyddol, 2004.

D.S.: Trefi bach yn ôl diffiniad atodiad A. Dosbarthwyd ardaloedd ar lefel ward.
Ffynhonnell: Data gan y Gofrestr Busnes Rhyngadrannol, a gyhoeddwyd ar wefan y Swyddfa Ystadegau Gwladol.

	Trefi Bach		Gwledig		Ymylol Arall		Trefol Arall`	
Gwynedd	2570	65%	1400	35%				
Sir Fynwy	1885	65%	795	28%	205	7%		
Sir Benfro	2120	58%	1525	42%				
Ynys Môn	915	54%	790	46%				
Powys	2465	49%	2435	48%			155	3%
Ceredigion	1110	47%	1270	53%				
Sir Ddinbych	1055	39%	615	22%			1065	39%
Sir Gaerfyrddin	1475	32%	1815	39%	110	2%	1230	27%
Conwy	420	10%	730	21%	355	10%	1975	57%
Cyfanswm y Gymru wledig	14015	50%	10645	38%	585	1%	3050	10%

Tabl 3.25: Unedau a gofrestrwyd ar gyfer TAW yn y Gymru wledig fesul ardal, ac eithrio unedau amaethyddol, 2004.

D.S.: Trefi Bach yn ôl diffiniad atodiad A. Ardaloedd a ddosbarthwyd ar lefel ward.
Ffynhonnell: Data gan y Gofrestr Busnes Rhyngadrannol, a gyhoeddwyd ar wefan Swyddfa Ystadegau Gwladol.

3.26 Gall y data am fusnesau ac unedau lleol a gofrestrwyd ar gyfer TAW roi mewnwelediad hefyd i natur economi trefi bach yn y Gymru wledig. Yn benodol, dangosant economi sydd wedi'i rheoli gan y sector gwasanaethau. Mae un o bob pum uned leol mewn trefi bach yn y Gymru wledig yn fusnesau gwerthu, ac mae 15% pellach yn wasanaethau eiddo a busnesau a bron i 11% yn y diwydiant gwestai ac arlwyo (tabl 3.26). Yn ogystal, mae'n fwy tebygol y caiff busnesau yn y sectorau hyn eu lleoli mewn trefi bach na mewn unrhyw ran arall o gefn gwlad Cymru. Lleolir mwy na hanner pob uned fanwerthu yn y Gymru wledig mewn trefi bach, fel y mae bron hanner yr unedau lleol yn y gwasanaethau eiddo a busnes a'r diwydiannau gwestai ac arlwyo (tabl 3.27). Yn yr un modd, ceir hanner yr unedau gweinyddiaeth gyhoeddus a gofrestrwyd ar gyfer TAW mewn trefi bach. Yn ogystal, trefi bach yw cartref rhan fwyaf y swyddogaethau gwasanaeth gradd uwch yn y diwydiannau cyllid, iechyd, post a thelegyfathrebu.

Manwerthu	3055	19.5%
Gwasanaethau eiddo a busnes	2410	15.4%
Gwestai ac arlwyo	1685	10.7%

Amaethyddiaeth	1665	10.6%
Gweinyddiaeth gyhoeddus	1380	8.8%
Adeiladu	1265	8.1%
Cynhyrchu	960	6.1%
Masnach foduron	620	4.0%
Cyfanwerthu	645	4.1%
Cludiant	495	3.2%
Iechyd	370	2.4%
Addysg	320	2.0%
Cyllid	275	1.8%
Post a thelegyfathrebu	75	0.5%
Cyfanswm	15680	100.0%

Tabl 3.26: Unedau lleol a gofrestrwyd ar gyfer TAW mewn trefi bach yn y Gymru wledig fesul diwydiant, 2004. (Trefi bach yn ôl diffiniad atodiad A.)

Ffynhonnell: Data gan y Gofrestr Busnes Rhyngadrannol, a gyhoeddwyd ar wefan y Swyddfa Ystadegau Gwladol.

	Trefi Bach		Gwledig		Ymylol Arall		Trefol Arall	
Cyllid	275	76%	10	3%	0	0%	75	21%
Iechyd	370	62%	55	9%	5	1%	165	28%
Post a thelegyfathrebu	75	58%	15	12%	10	8%	30	23%
Gwerthu	3055	57%	1085	20%	85	2%	1090	21%
Gweinyddiaeth gyhoeddus	1380	49%	955	34%	55	2%	440	16%
Gwasanaethau eiddo a busnes	2410	46%	1965	38%	140	3%	690	13%
Gwestai ac arlwyo	1685	46%	1325	37%	65	2%	555	15%
Addysg	320	40%	385	48%	5	1%	95	12%
Cynhyrchu	960	42%	960	42%	55	2%	285	13%
Cyfanwerthu	645	39%	740	45%	50	3%	220	13%
Masnach fodurol	620	38%	740	46%	40	3%	215	13%
Cludiant	495	38%	640	49%	40	3%	125	10%
Adeiladu	1265	35%	1855	51%	105	3%	420	12%
Amaethyddiaeth	1665	12%	11640	86%	100	1%	195	1%
Cyfanswm Cymru wledig	15680	36%	22785	52%	770	2%	4620	10%

Tabl 3.27: Dosbarthiad daearyddol unedau a gofrestrwyd ar gyfer TAW yn y Gymru wledig fesul diwydiant, 2004. (Trefi bach yn ôl diffiniad atodiad A. Dosbarthwyd ardalodd ar lefel ward.)

Ffynhonnell: Data gan y Gofrestr Busnes Rhyngadrannol, a gyhoeddwyd gan y Swyddfa Ystadegau Gwladol.

3.27 I'r gwrthwyneb, ymddengys nad oes tuedd i Gronni'n arbennig mewn trefi bach ar gyfer nifer o sectorau eraill, gan gynnwys cynhyrchu, cyfanwerthu,

diwydiannau moduro, cludiant ac adeiladu. Yn wir, lleolir mwy o unedau lleol yn y diwydiannau hyn yn y Gymru wledig mewn pentrefi a'r cefn gwlad agored na mewn trefi bach (tabl 3.27). O'r herwydd, mae arwyddocâd trefi bach a threfi marchnad fel canolfannau crynodiad ar gyfer yr economi wledig economi yng Nghymru'n dibynnu i raddau helaeth ar bwysigrwydd y sector gwasanaethau yn y rhanbarth. Y tu allan i'r sector gwasanaethau, nid yw trefi bach a threfi marchnad yn rhagori ar eu cefnwledydd gwledig fel lleoliad busnes i'r un graddau.

3.28 Fodd bynnag, mae arwyddocâd economaidd trefi bach yn y Gymru wledig yn swyddogaeth nid yn unig o bresenoldeb unedau economaidd, ond hefyd o'u maint, ac o ganlyniad o gyfleoedd cyflogaeth yn y trefi. Mae dwy ran o dair yr unedau lleol mewn trefi bach a threfi marchnad yn y Gymru wledig yn cyflogi pedwar o weithwyr neu lai (tabl 3.28). Dim ond tua 8% sydd â mwy nag ugain o weithwyr, ond mae hyn bedair gwaith y gyfran ar gyfer unedau lleol yn yr ardal wledig weddilliol. Ceir mwy na hanner yr holl unedau lleol yn y Gymru wledig sydd â phedwar o weithwyr neu lai mewn trefi bach, ac mae'r graddau o Gronni'n cynyddu yn ôl maint yr uned (tabl 3.29). Dylid nodi, fodd bynnag, mai cyfanswm y data ar lefel wardiau yw'r ffigurau hyn a'u bod wedi'u talgrynnu i'r pum uned agosaf ac felly dylid eu darllen â phwyll.

Nifer y gweithwyr	Amcangyfrif yr unedau lleol	%
0-4	10450	65%
5-9	2855	18%
10-19	1430	9%
20+	1270	8%
Cyfanswm	16010	100%

Tabl 3.28: Rhaniad unedau lleol a gofrestrwyd ar gyfer TAW yn ôl band maint cyflogaeth, 2004. (D.S.: Seilir y tabl hwn ar ddata sydd wedi'i dalgrynnu ar lefel wardiau)

Ffynhonnell: Data gan y Gofrestr Busnes Rhyngadrannol, a gyhoeddwyd ar wefan y Swyddfa Ystadegau Gwladol.

	Nifer y gweithwyr mewn uned leol			
	0-4	5-9	10-19	20+
Tref fach	31%	52%	57%	59%
Gwledig	58%	29%	25%	18%
Trefol ac ymylol	11%	19%	18%	23%
Cyfanswm	100%	100%	100%	100%

Tabl 3.29: Dosbarthiad unedau lleol a gofrestrwyd ar gyfer TAW yn ôl bandiau maint cyflogaeth yn y Gymru wledig, 2004. (D.S.: Seilir y tabl hwn ar ddata sydd wedi'i dalgrynnu ar lefel wardiau.)

Ffynhonnell: Data gan y Gofrestr Fusnes Ryngadrannol, a gyhoeddwyd ar wefan y Swyddfa Ystadegau Gwladol.

3.29 Mae crynodiad cyflogwyr mwy Cymru wledig yn y trefi bach a threfi marchnad yn gyfochrog â leoli'r cwmnïau mwyaf o ran trosiant yn y rhanbarth. Dim ond

43 o 300 o brif gwmnïau Cymru o ran trosiant sydd i'w cael yn y Gymru wledig, a cheir 34 o'r rhain mewn trefi bach, pump yng nghefnwledydd uniongyrchol trefi bach, a dim ond pedwar mewn leoliadau mwy gwledig (*Western Mail*, 2005). Ar ben hyn, fel y dengys manylion atodiad E, nid yw'r trefi sy'n gartref i'r cwmnïau hyn o reidrwydd y trefi mwyaf yn y Gymru wledig. Lleolir pedwar o'r cwmnïau yn Llangefni, tri yn Y Drenewydd a thri yn Y Fenni a'i chefnwlad. Mae gan Gaergybi, Cas-gwent, Llanelwy, Castellnewydd Emlyn, Porthaethwy a Phwllheli ddau o gwmnïau wedi'u lleoli yn y dref neu yn y gefnwlad uniongyrchol. I'r gwrthwyneb, ymhlith trefi sydd â phoblogaeth o fwy na 5,000, nid oes gan Gaernarfon, Dinbych, Y Trallwng, Abergwaun, Aberdaugleddau, Penfro, Doc Penfro, Pembre a Phorth Tywyn na Threfynwy unrhyw un o 300 o gwmnïau mwyaf Cymru, a dim ond un sydd gan Aberystwyth yn ei chefnwlad yn hytrach nag yn y dref ei hun.

3.30 Mae prif gwmnïau trefi bach y Gymru wledig yn cynnwys rhai busnesau sy'n ymwneud â'r diwydiannau 'mwy newydd' gan gynnwys technoleg a buddsoddiad, ond yn gyffredinol mae'r cwmnïau hyn yn arddangos proffil traddodiadol iawn gan ddangos cysylltiadau cryf â'r gefnwlad wledig. Mae wyth o'r 38 cwmni mewn trefi ac mae eu cefnwledydd uniongyrchol yn y diwydiant prosesu bwyd, ac mae'r busnesau chwareli a gwasanaethau amaethyddol hefyd wedi'u cynrychioli (tabl 3.30). Yn ogystal, gwerthwyr ceir yw pedwar o'r chwe chwmni manwerthu yn y rhestr, gan adlewyrchu statws cerbydau modur fel un o'r ychydig nwyddau uchel eu gwerth sy'n cael eu gwerthu mewn trefi bach i farchnad is-ranbarthol.

Diwydiant	Nifer	Canran
Prosesu bwyd	8	21%
Manwerthu	6	16%
Cynhyrchu	5	13%
Peirianeg	3	8%
Adeiladu	3	8%
Cerbydau	2	5%
Cyllid	2	5%
Technoleg	2	5%
Arall	7	18%
<i>Cyfanswm</i>	38	100%

Tabl 3.30: Cwmnïau yn y 300 gorau yng Nghymru yn ôl trosiant sydd wedi'u lleoli mewn trefi bach a'u cefnwledydd, fesul diwydiant.

Ffynhonnell: *Western Mail* (2005)

3.31 Mae trefi bach a threfi marchnad y Gymru wledig yn arddangos proffil economaidd pendant sy'n adlewyrchu eu swyddogaeth fel canolfannau ar gyfer darparu gwasanaethau a chyflogaeth yn rhanbarth. Trafodir deinameg y swyddogaethau hyn ymhellach yn y bennod nesaf.

PENNOD 4: TREFI BACH FEL CANOLFANNAU GWASANAETHAU A CHYFLOGAETH YN Y GYMRU WLEDIG

Cyflwyniad

- 4.1 Mae cysyniad y ‘dref farchnad’ yn cofnodi’r rôl hanesyddol a oedd gan yr aneddiadau hyn fel canolfannau cymdeithasol ac economaidd poblogaeth wledig wasgaredig. Y dref farchnad oedd lle gallai trigolion gwledig ddod ar gyfer trafodion masnachol - gwerthu cynnyrch a nwyddau, prynu nwyddau a chael gwaith. Trefi marchnad hefyd oedd nodau cyfathrebu cefn gwlad, a chyfuniad o’r holl ffactorau hyn a’u gwnaeth yn lleoliadau dethol ar gyfer ffatrioedd newydd wrth i ddiwydiant ddatblygu. Yn yr un modd, gydag amser daeth trefi marchnad yn fannau lle y byddai trigolion cefn gwlad yn mynd er mwyn cael addysg uwchradd a gofal iechyd ac am wasanaethau eraill na ellid eu cael yn eu cymunedau eu hunain. Dibynnai sefyllfa arbennig trefi bach, fodd bynnag, ar yr angen i gydbwyso maint a phellter – sef yr angen am gael maint digonol o bobl mewn lle i gefnogi marchnad neu ysgol neu ysbyty, yn erbyn yr angen i’r cyfleusterau hyn fod o fewn cyrraedd cartrefi pobl. Yn wreiddiol, cryfhaodd cludiant modur ar ddechrau’r ugeinfed ganrif rôl darparu gwasanaethau trefi marchnad wrth i nifer y siopau a’r gwasanaethau a’r gwasanaethau eraill mewn pentrefi leihau. Yn fwy diweddar, fodd bynnag, mae cynnydd gallu a gallu cynyddol trigolion cefn gwlad i deithio’n ddiraferth wedi golygu bod trefi marchnad ar eu colled o’u cymharu â chanolfannau rhanbarthol mwy.
- 4.2 Mae’r bennod hon yn archwilio’r graddau y mae trefi bach a threfi marchnad y Gymru wledig yn parhau â’u rôl hanesyddol o fod yn ganolfannau cymdeithasol ac economaidd ar gyfer y rhanbarth. Yn benodol mae’n canolbwyntio ar ddwy wedd ar y rôl hon. Yn gyntaf, rôl trefi bach a threfi marchnad fel canolfannau cyflogaeth yn y Gymru wledig; ac yn ail, rôl trefi bach a threfi marchnad wrth ddarparu gwasanaethau cyhoeddus a masnachol i’w cefnwledydd gwledig.

Cyflogaeth

- 4.3 Mae ychydig dros hanner yr holl bobl sy’n gweithio yn naw sir y Gymru wledig yn gweithio mewn trefi bach a threfi marchnad (tabl 4.1), sef cyfran uwch o lawer na chyfran y boblogaeth sydd yn byw ynddynt. Awgryma’r sylw hwn fod trefi bach a threfi marchnad yn parhau i weithredu fel canolfannau cyflogaeth ar gyfer y rhanbarth, gan dynnu ar weithwyr o’u cefnwledydd gwledig. Eto i gyd, mae manylion y darlun yn fwy cymhleth. Anwastad yw’r dosbarthiad swyddi rhwng trefi bach a threfi marchnad y Gymru wledig, i’r graddau nes, er bod dwywaith cymaint o swyddi ag sydd o drigolion oedran gweithio mewn rhai trefi, bod llai o swyddi nag sydd o drigolion oedran gweithio mewn trefi eraill (tabl 4.2; gweler hefyd atodiad F ar gyfer y data llawn).
- 4.4 Mae lleoli trefi unigol ar y continwmm hwn yn dueddol o beidio ag adlewyrchu maint y dref, gymaint â’i lleoliad a’i swyddogaeth (tabl 4.3). Mae’r trefi uchaf eu cymarebau o swyddi i drigolion o oedran gweithio yn ganolfannau gweinyddol sylweddol (Caerfyrddin, Hwlfordd, Llandrindod,

Llangefni ac Aberaeron - mae pob un o'r rhain yn lleoliadau pencadlysoedd cynghorau sir), neu drefi marchnad canolig mewn lleoliadau mwy ynysig (Aberteifi, Y Trallwng), neu'r ddau. I'r gwrthwyneb, mae'r trefi sydd â'r cymarebau isaf o swyddi mewn perthynas â thrigolion oedran gweithio yn dueddol o fod yn gymharol agos at drefi mwy (neu o leiaf trefi sydd â swyddogaeth weinyddol fwy sylweddol), neu drefi sydd wedi profi dad-ddiwydianeiddio sylweddol (Blaenau Ffestiniog, Caldicot, Aberdaugleddau), neu'r ddau.

	Tref Fach	%	Trefol ac ymylol arall	%	Gwledig	%
Gwynedd	34,595	70.1%		-	14,730	29.9%
Sir Fynwy	23,845	68.7%	3,215	9.3%	7,650	22.0%
Sir Benfro	27,672	65.0%	-	-	14,871	35.0%
Ynys Môn	13,135	60.4%	-	-	8,627	39.6%
Ceredigion	17,322	60.1%	-	-	11,520	39.9%
Powys	28,773	53.8%	2,025	3.8%	22,603	42.3%
Sir Ddinbych	17,024	45.6%	13,168	35.2%	7,182	19.2%
Sir Gaerfyrddin	19,918	32.1%	24,069	38.8%	18,032	29.1%
Conwy	4,955	12.8%	29,133	75.5%	4,503	11.7%
Cyfanswm y Gymru wledig	187,239	50.8%	71,610	19.4%	109,718	29.8%

Tabl 4.1: Gweithwyr yn ôl lleoliad gweithle, fesul sir, 2001 (addaswyd i ffiniau trefi bach yn ôl disgrifiad atodiad B)

Cymhareb uchel o swyddi i'r boblogaeth weithio	
Bangor	2.28
Llangefni	2.28
Caerfyrddin	2.28
Aberaeron	2.14
Llanbedr Pont Steffan	2.08
Cymhareb swyddi i'r boblogaeth weithio bron yn gyfartal	
Abergwaun	1.10
Cas-gwent	1.09
Llanidloes	0.99
Llanfair ym Muallt	0.96
Trefyclo	0.96
Cymhareb isel o swyddi i'r boblogaeth weithio	
Crughywel	0.84
Rhaeadr	0.76
Aberdaugleddau	0.74
Caldicot	0.71
Penfro	0.70
Blaenau Ffestiniog	0.69

Tabl 4.2: Cymhareb swyddi i'r boblogaeth weithio ar gyfer trefi dethol

Poblogaeth y dref	Cymhareb swyddi i'r boblogaeth oedran gweithio			
	>1.75	1.1-1.75	0.9-1.1	<0.9
10,000 +	Bangor Caerfyrddin Hwlfordd	Y Fenni Aberystwyth Caergybi Drenewydd	Cas-gwent	Caldicot Aberdaugleddau
5,000 – 10,000	Llandrindod Y Trallwng	Aberhonddu Rhuthun	Dinbych Llangollen Abergwaun	Penfro
2,000 – 5,000	Aberteifi Llanbedr Pont Steffan Llangefni	Dolgellau Llanelwy Llandeilo	Llanfair ym Muallt Llanidloes	B Ffestiniog Crughywel Llanrwst Rhaeadr
Dan 2,000	Aberaeron	Y Gelli Llanandras	Trefyclo Rhaeadr	

Tabl 4.3: Cymhareb swyddi i'r boblogaeth weithio i gyfanswm poblogaeth y dref, ar gyfer trefi dethol.

4.5 Mae nifer o drefi hefyd sydd â'r un nifer o bobl yn fras yn gweithio yn y dref ag sydd o bobl oedran gweithio sy'n byw yno. Ymddengys fod y clwstwr hwn yn cynrychioli dwy wahanol broses sydd ar waith. Mae gan rai o'r trefi hyn gyfran gymharol uchel o drigolion sy'n gweithio yn y dref neu yn ei chefnwlad uniongyrchol (gan deithio llai na 2 gilomedr i'r gwaith), er eu bod yn gymharol agos at ganolfannau cyflogaeth mwy (tabl 4.4). Awgryma hyn y gall y trefi hyn ddarparu cyflogaeth ar gyfer cyfran sylweddol o'u trigolion eu hunain, ond ni allant gystadlu â threfi mwy gerllaw o ran rhoi gwaith i'r gefnwlad oddi amgylch. Mae Cas-gwent a Llangollen, fodd bynnag, yn eithriadau amlwg i'r ddeinamag hon, gan fod llai na hanner y trigolion oedran gwaith wedi cael cyflogaeth yn y dref. Yn yr achosion hyn ymddengys fod y trefi'n rhan o feysydd cymudo mwy, gyda phobl yn teithio i mewn ac allan i weithio, a hynny yn eu niferoedd sylweddol.

Tref	Cymhareb swyddi i'r boblogaeth weithio	Y boblogaeth weithio'n teithio <2km i'r gwaith
Trefynwy	1.14:1	57%
Abergwaun	1.10:1	61%
Cas-gwent	1.09:1	45%
Llanidloes	0.99:1	58%
Trefyclo	0.96:1	61%
Llanfair ym Muallt	0.96:1	54%
Dinbych	0.93:1	54%
Llangollen	0.93:1	47%
Rhaeadr	0.76:1	57%

Tabl 4.4: Cymhareb swyddi i'r boblogaeth weithio a'r trigolion mewn gwaith sy'n cael eu cyflogi yn y dref neu yn eu cefnwlad uniongyrchol ar gyfer trefi dethol.

4.6 Mae'r sylwadau hyn yn gofyn cwestiynau pellach ynghylch arwyddocâd cymharol trefi bach a threfi marchnad fel ffynhonnell gyflogaeth yn eu hardal leol. Fel y dengys tabl 4.5, mae Caerfyrddin, Aberystwyth a Hwlfordd yn cynnwys mwy na thri chwarter yr holl swyddi mewn radiws bras o ddeg cilomedr; ac ar y pen arall, cafwyd llai nag un o bob deg swydd yn Llanelwy a

Chrughywel oddi mewn i'r un radiws. Nid oes syndod bod pwysigrwydd cymharol tref mewn marchnad lafur leol yn adlewyrchu maint a lleoliad y dref (tabl 4.6), ond mae gan nifer o drefi llai mewn lleoliadau mwy anghysbell, gan gynnwys Y Bala, Dolgellau ac Aberteifi le hollbwysig o ran cyflogaeth leol. I'r gwrthwyneb, mae Caldicot, Llangollen a Phenfro yn llai arwyddocaol o lawer na threfi eraill o'r un maint, sy'n adlewyrchu eu hagosrwydd i ganolfannau mwy.

- 4.7 Mae modd cymryd cyd-destun daearyddol i ystyriaeth i ryw raddau wrth archwilio pwysigrwydd tref fel ffynhonnell gyflogaeth oddi mewn i'w dalgylch teithio-i'r-gwaith, gan fod trefi mwy anghysbell yn dueddol o gael dalgylch teithio-i'r-gwaith ehangach na'r rheiny sy'n byw mewn rhannau o'r wlad sy'n ddwysach eu poblogaeth. O'r 44 o drefi a restrir yn atodiad B, mae 21 yn brif ganolfannau mewn dalgylch teithio-i'r-gwaith, ac eto mae pwysigrwydd y trefi hyn yn amrywio'n fawr o hyd (tabl 4.7). Dim ond Caergybi, Y Drenewydd a Chaerfyrddin sy'n darparu mwy na hanner y swyddi yn eu dalgylch teithio-i'r-gwaith. Mae Llandeilo a Llanbedr Pont Steffan yn darparu llai na chwarter y swyddi yn eu dalgylch teithio-i'r-gwaith. O blith y trefi sy'n ganolfannau eilaidd yn eu dalgylch teithio-i'r-gwaith, mae nifer yn eithaf dibwys o'u cymharu â chanolfannau mwy, gan ddarparu llai nag un o bob deg swydd yn y dalgylch. Fodd bynnag, mae Trefyclo a Llanymddyfri yn darparu ychydig yn llai o swyddi yn unig na'r brif ganolfan yn eu dalgylch teithio-i'r-gwaith (Llanandras a Llandeilo yn eu tro). Felly, ymddengys fod gan rannau helaeth o gefn gwlad Cymru batrwm eithaf amrywiol o ran darparu cyflogaeth gyda nifer o drefi bach yn ffynonellau arwyddocaol ond pwysig o swyddi yn eu hardaloedd lleol.

% uchelcyfanswm swyddi mewn radiws o 10km	
Caerfyrddin	81%
Aberystwyth	78%
Hwlfordd	75%
Dolgellau	74%
Llandrindod	74%
Y Drenewydd	74%
% iselcyfanswm swyddi mewn radiws o 10km	
Penfro	16%
Llanandras	14%
Llangollen	12%
Llanelwy	8%
Crughywel	5%

Ffigwr 4.5: Trefi â'r crynodiadau mwyaf ac isaf o swyddi o fewn radiws o 10km

Poblogaeth dref	y	Swyddi yn y dref fel % o'r holl swyddi mewn radiws o 10km			
		>50%	30-49%	10-29%	<10%
10,000 +	Y Fenni Aberystwyth Bangor Caerfyrddin Cas-gwent		Aberdaugleddau	Caldicot	

	Hwlfordd Caergybi Y Drenewydd			
5,000 – 10,000	Aberhonddu Abergwaun Llandrindod Y Trallwng	Dinbych Doc Penfro Trefynwy Rhuthun	Llangollen Penfro	
2,000 – 5,000	Aberteifi Dolgellau	B Ffestiniog Llanbedr Pont Steffan Llangefni Llanidloes Llanrwst Porthmadog Pwllheli	Llanfair ym Muallt Llandeilo	Crughywel Llanelwy
Dan 2,000	Y Bala	Aberaeron Y Gelli Castellnewydd Emlyn Rhaeadr	Trefyclo Llanandras	

Ffigwr 4.6: Nifer y swyddi yn y dref fel % o'r holl swyddi mewn radiws o 10km, fesul poblogaeth y dref.

Prif Ganolfan mewn TTWA		Canolfan eilaidd mewn TTWA	
Caergybi	65%	Trefyclo	26%
Drenewydd	52%	Llanymddyfri	20%
Caerfyrddin	51%	Caernarfon	17%
Aberystwyth	49%	Dinbych-y-pysgod	16%
Dolgellau	41%	Aberdaugleddau	14%
Abergwaun	39%	Blaenau Ffestiniog	13%
Llandrindod	39%	Aberaeron	12%
Hwlfordd	38%	Y Fenni	11%
Pwllheli	38%	Y Bala	11%
Bangor	36%	Llanfair ym Muallt	11%
Aberhonddu	36%	Penfro	11%
Y Trallwng	36%	Castellnewydd Emlyn	10%
Llanandras	34%	Dinbych	9%
Rhuthun	34%	Y Gelli	8%
Llangefni	31%	Llanidloes	8%
Doc Penfro	30%	Trefynwy	8%
Aberteifi	29%	Cas-gwent	7%
Machynlleth	29%	Llanelwy	6%
Porthmadog	27%	Rhaeadr	5%
Llandeilo	23%	Caldicot	4%
Llanbedr Pont Steffan	22%	Llanrwst	3%
		Llangollen	2%
		Crughywel	1%

Tabl 4.7: Nifer y swyddi yn y dref fel % o'r holl swyddi mewn Ardal Teithio i'r Gwaith (TTWA)

4.8 Mae trefi bach a threfi marchnad y Gymru wledig yn bodoli felly oddi mewn i blethwaith cymhleth o batrymau cymudo, lle maent yn derbyn ac yn darparu llafur. Mae maint y cymudo'n drawiadol o ystyried poblogaeth y trefi dan sylw. Mae Caerfyrddin a Bangor yn denu mwy na 9000 o gymudwyr, sef tua chwe rhan o ddeg eu poblogaeth. Nid syndod mai'r ddwy dref hon, ynghyd ag Aberystwyth, Hwlfordd a'r Drenewydd sydd â'r cyfanswm uchaf yn llifo i mewn i'r dref (tabl 4.8), ond gall y gymhareb cymudwyr fod yn uwch mewn trefi llai sydd â chyflogwyr sylweddol, yn y sector cyhoeddus gan amlaf. Mae bron pum gwaith cymaint o bobl yn cymudo i mewn i Landrindod i weithio nag sy'n cymudo allan o'r dref. Yn Llanbedr Pont Steffan a Llangefni mae'r gymhareb yn bedwar-i-un, yn Aberaeron mae'n fwy na thri-i-un (tabl 4.9). Mae'r trefi hyn yn ffynonellau cyflogaeth sylweddol ar gyfer ardal wledig ehangach, ac eto gwnânt hynny i raddau helaeth oherwydd presenoldeb eithriadol cyflogwr mawr fel cyngor sir (neu brifysgol yn achos Llanbedr Pont Steffan). Nid ydynt felly'n cynnig patrwm hawdd ei atgynhyrchu.

	Cyfanswm cymudwyr i mewn/allan (+/-)	Cyfanswm cymudwyr i mewn	Cymhareb cymudwyr i mewn â chymudwyr allan
Caerfyrddin	+7395	9615	4.33
Bangor	+7090	9590	3.84
Aberystwyth	+4335	6245	3.27
Hwlfordd	+4240	6445	2.93
Y Drenewydd	+2960	4550	2.86
Caernarfon	+2500	4060	2.89
Llangefni	+2080	2810	3.84
Y Trallwng	+1870	2620	3.34
Y Fenni	+1815	4475	1.68
Llandrindod	+1780	2250	4.77

Tabl 4.8: Trefi â'r nifer net uchaf o gymudwyr i mewn.

	Cymhareb cymudwyr i mewn i gymudwyr allan	Cyfanswm cymudwyr i mewn/allan (+/-)	Cyfanswm cymudwyr i mewn
Llandrindod	4.77	+1780	2250
Caerfyrddin	4.33	+7395	9615
Bangor	3.84	+7090	9590
Llangefni	3.84	+2080	2810
Llanbedr Pont Steffan	3.84	+975	1320
Aberteifi	3.81	+1370	1855
Y Trallwng	3.34	+1870	2620
Aberystwyth	3.27	+4335	6245
Aberaeron	3.22	+555	805
Dolgellau	3.16	+645	945

Tabl 4.9: Trefi â'r gymhareb uchaf o gymudwyr i mewn o gymharu â chymudwyr allan.

4.9 Gall fod yn wir fod gan Gaerfyrddin, Bangor, Hwlfordd a'r Fenni lif net mawr o gymudwyr i mewn, ond mae ganddynt hefyd fwy na 2,000 o drigolion yr un yn cymudo allan o'r dref i weithio. O'r herwydd, mae llif y cymudwyr i mewn yn adlewyrchu nid yn unig gormodedd o gyfleoedd cyflogaeth, ond hefyd natur y gyflogaeth sydd ar gael yn y dref ac mewn mannau eraill. Yn yr un modd, gall trefi lle mae mwy o gymudwyr yn llifo allan adlewyrchu diffyg cyfleoedd cyflogaeth yn y dref ond hefyd dewis a wnaed o'r dref fel lle i fyw ynddo er mwyn cymudo i weithio yn rhywle arall. Felly, er bod Aberdaugleddau a Blaenau Ffestiniog wedi profi dad-ddiwydianeiddio sydd wedi lleihau cyfle i weithio yn y dref, yn achos Caldicot yn sgil dad-ddiwydianeiddio disodlwyd un gyrchfan i gymudwyr, sef Gwaith Dur Llanwern, gan amrywiaeth ehangach o gyrchfannau cymudo yng Nghaerdydd, Casnewydd, Cas-gwent a Bryste (tabl 4.10).

	Cyfanswm cymudwyr i mewn/allan (+/-)	Cyfanswm cymudwyr allan	Cymhareb cymudwyr i mewn â chymudwyr allan
Caldicot	-1510	3305	0.54
Aberdaugleddau	-1195	2605	0.54
Penfro	-710	1450	0.51
Blaenau Ffestiniog	-320	655	0.51
Dinbych	-200	2000	0.90
Llanrwst	-180	630	0.72
Rhaeadr	-165	320	0.49
Crughywel	-145	475	0.70
Llanfair ym Muallt	-60	540	0.89
Trefyclo	-50	320	0.84

Tabl 4.10: Trefi â'r nifer net uchaf o gymudwyr allan.

4.10 Mae cymhlethdod y maes cymudo hefyd yn amlwg yn y pellteroedd a deithir i'r gwaith. Roedd y trefi â'r canrannau uchaf o weithlu'n teithio mwy na deng cilometr ar hugain i'r gwaith yn cynnwys nid yn unig trefi eithaf anghysbell fel Y Bala ac Aberteifi, sydd â chefnwledydd daearyddol helaeth, ond hefyd trefi lle mae'r mathau o gyflogaeth yn gofyn am sgiliau neu gymwysterau arbenigol, technegol neu broffesiynol penodol (Llandrindod, Llanbedr Pont Steffan, Caerfyrddin, Aberystwyth) (tabl 4.11). Yn ogystal, mae gan drefi fel Llanbedr Pont Steffan, Aberystwyth ac Aberteifi nifer sylweddol o drigolion sy'n teithio'n bell iawn i'r gwaith. Mae bron un o bob pum trigolyn cyflogedig yn Llanbedr Pont Steffan yn teithio mwy na deg ar hugain o gilomedrau i'r gwaith (tabl 4.12).

Llandrindod	14%
Y Bala, Aberteifi, Caerfyrddin, Llanbedr Pont Steffan	11%
Aberystwyth, Aberhonddu, Cas-gwent, Caerdybi, Y Drenewydd	10%

Ffigur 4.11: Trefi â'r canrannau chaf o weithlu sy'n teithio mwy na 30km i'r gwaith.

Y Bala	19%
Llanbedr Pont Steffan	18%
Machynlleth	16%
Trefynwy	15%
Aberteifi, Llanymddyfri	14%
Aberystwyth	13%
Bangor, Crughywel, Pwllheli	12%
Y Fenni, Caerfyrddin, Cas-gwent, Dolgellau, Trefyclo, Llanelwy	11%
Aberhonddu, Llanfair ym Muallt, Caergybi, Porthmadog	10%

Ffigwr 4.12: Trefi â'r canrannau uchaf o drigolion sy'n teithio mwy na 30km i'r gwaith

4.11 O gasglu'r dystiolaeth hon at ei gilydd, mae modd cynnig dosbarthiad pedwarplyg o drefi bach a threfi marchnad yn y Gymru wledig yn ôl eu nodweddion o ran cyflogaeth (tabl 4.13). Mae'r grwp cyntaf o drefi'n ganolfannau pwysig o ran cyflogaeth yn eu hardaloedd gwledig. Mae ganddynt gymhareb uchel o gymudwyr i mewn a chymudwyr allan ac maent yn cyflogi mwy na 60% o drigolion y dref. Mae'r dosbarth hwn gan mwyaf yn cynnwys trefi yng nghanolbarth Cymru (Sir Gaerfyrddin, Ceredigion, Powys a de Gwynedd). Mae'r ail grwp yn ganolfannau cyflogaeth sylweddol mewn maes cymudo aml-ganolfan. Mae ganddynt hefyd niferoedd sylweddol o bobl sy'n cymudo i'r gwaith, ond caiff llai na 60% o'r trigolion eu cyflogi yn y dref lle mae nifer sylweddol yn cymudo allan i weithio mewn mannau eraill. Tuedda'r trefi hyn i fod y trefi mwyaf yn ardaloedd gwledig gogledd Cymru, de-ddwyrain Cymru a Sir Benfro sy'n ddwysach eu poblogaeth ac yn fwy hygyrch i ganolfannau trefol mwy. Mae'r trydydd grwp yn ganolfannau cyflogaeth hunangynhwysol mewn meysydd cymudo cyfyngedig. Mae gan y trefi hyn gymhareb is o gymudwyr i mewn a chymudwyr allan, ond cyflogir mwy na hanner y trigolion yn y dref neu ei chefnwlad uniongyrchol. Tueddant i fod yn drefi llai sy'n bellach oddi wrth brif ganolfannau dinesig. Y grwp olaf yw'r trefi bwydo yn eu meysydd cymudo. Roedd llai na hanner y trigolion hyn yn gweithio yn y dref, ac mae'r rhan fwyaf yn teithio allan ohoni. Mae pob un yn dref sydd â mynediad hawdd at drefi mwy neu ganolfannau gweinyddu.

Prif ganolfannau cyflogaeth (Cymhareb cymudwyr i mewn:allan>1.9; >60% o boblogaeth weithio'r dref yn gweithio yn y dref)		Canolfannau cyflogaeth sylweddol mewn maes cymudo aml-ganolfan (Cymhareb cymudwyr i mewn:allan>1.4;<60% o boblogaeth weithio'r dref yn gweithio yn y dref)	
Aberystwyth	Llanbedr Pont	Aberaeron	Llangefni
Aberhonddu	Steffan	Y Fenni	Castellnewydd
Aberteifi	Llandrindod	Bangor	Emlyn
Caerfyrddin	Machynlleth	Caernarfon	Doc Penfro
Dolgellau	Y Drenewydd	Llandeilo	Porthmadog
Hwlfordd	Pwllheli	Llanymddyfri	Rhuthun
Y Gelli	Y Trallwng		Llanelwy
Canolfannau cyflogaeth hunangynhwysol lle mae maes cymudo cyfyngedig (Cymhareb cymudwyr i mewn:allan<1.75; >50%)		Trefi bwydo mewn maes cymudo ehangach (Cymhareb cymudwyr i mewn:allan<1.0; <50% o boblogaeth weithio'r dref yn gweithio yn y dref)	

o boblogaeth weithio'r dref yn gweithio yn y dref)			
Y Bala	Llanidloes	Caldicot	Llanrwst
Llanfair ym Muallt	Trefynwy	Cas-gwent	Aberdaugleddau
Dinbych	Llanandras	Crughywel	Penfro
Abergwaun	Rhaeadr	Llangollen	
Caergybi	Dinbych-y-pysgod		
Trefyclo			

Ffigwr 4.13: Categoriadau trefi yn ôl natur patrymau cymudo a chyflogaeth.

Gwasanaethau Masnachol, Cyhoeddus a Chymunedol

4.12 Mae rôl trefi bach a threfi marchnad fel canolfannau gwasanaethau ar gyfer ardaloedd gwledig yn cynnwys darparu gwasanaethau cyhoeddus a masnachol. Mae'r ddau fath o ddarpariaeth yn gweithredu yn ôl deinameg wahanol. Pennir darpariaeth gwasanaethau cyhoeddus, fel sy'n cael ei drafod yn ddiweddarach yn yr adran hon, trwy gynllunio strategol ac mae'n amodol ar bwysau gwleidyddol i gadw presenoldeb mewn trefi penodol. Mae darparu gwasanaethau masnachol, fodd bynnag, yn fwy agored i bwysau'r farchnad ac o ganlyniad mae llawer o drefi llai wedi colli gwasanaethau masnachol allweddol.

4.13 Mae'r sector bancio'n un enghraifft o resymoli gwasanaethau masnachol mewn tref fach. Arferai banciau fod yn nodwedd anhepgor o drefi marchnad ac yn rhan o'r gwasanaeth a ddarparwyd gan y trefi i'r ardal wledig ehangach. Fodd bynnag, rhwng 1998 a 2003 caewyd canghennau banciau mewn 29 o drefi bach a threfi marchnad y Gymru wledig (Leyshon *et al.*, 2005). Mae canghennau banciau yn y Gymru wledig wedi'u cronni o hyd yn fawr iawn mewn trefi bach (tabl 4.14), ond dim ond hanner y trefi a ymatebodd i arolwg gwasanaethau Arsyllfa Wledig Cymru yn 2004 a ddywedodd fod ganddynt gangen banc amser-llawn ac nid oedd gan un o bob with yr un gangen banc. Mae swyddfeydd cymdeithasau adeiladu wedi eu cronni yn yr un modd, ond nid oedd gan fwy na hanner trefi bach yr arolwg hwn yr un gymdeithas adeiladu (tabl 4.13).

	Trefi Bach (n=42)		Cymunedau gwledig (n=269)	
Banc amser llawn	21	50%	3	1%
Banc rhan-amser	16	38%	7	3%
Dim banc	5	12%	231	86%
Heb ateb y cwestiwn	0	0%	28	10%

Ffigwr 4.14: Cyfleusterau bancio mewn trefi bach a chymunedau gwledig y Gymru wledig a atebodd yr holiadur gwasanaethau, 2004.

	Trefi Bach (n=42)		Cymunedau gwledig (n=269)	
Cymdeithas adeiladu amser llawn	14	33%	13	5%
Cymdeithas adeiladu ran-	1	2%	1	<1%

amser				
Dim cymdeithas adeiladu	26	62%	226	84%
Cwestiwn heb ei ateb	1	2%	29	11%

Tabl 4.15: Cymdeithasau adeiladu mewn trefi bach a chymunedau gwledig y Gymru wledig a atebodd yr holiadur gwasanaethau, 2004.

4.14 Caiff hierarchaeth darparu gwasanaethau rhwng trefi bach a threfi marchnad y Gymru wledig y mae'r ffigurau bacio yn ei hawgrymu eu hatgyfnerthu gan ddsbarthiad daearyddol archfarchnadoedd. Roedd gan y prif gadwyni archfarchnad (Tesco, Asda, Morrisons, Sainsburys a Waitrose) 29 siop yn naw sir y Gymru wledig ym mis Chwefror 2006. O'r rhain, roedd 22 mewn trefi bach neu drefi marchnad ac nid oedd yr un mewn cymunedau gwledig (tabl 4.16). Gan fod gan rai trefi, gan gynnwys Bangor a Chaerfyrddin, fwy nag un o'r prif archfarchnadoedd, mae'r crynodiadau hyn hyd yn oed yn fwy nag yr awgryma'r ffigur hon, gyda siopau mewn 18 o drefi yn unig (gweler atodiad H). Roedd gan y cadwyni archfarchnad llai (Somerfield, Kwiksave, Lidl a Co-op), fwy o siopau yn y rhanbarth, wedi'u gwasgaru'n ehangach o safbwynt daearyddol. Fodd bynnag, fel y dengys tabl 4.17, er bod gan bob tref fach a thref farchnad yn y Gymru wledig a oedd â phoblogaeth o fwy na 5,000 archfarchnad o ryw fath, nid oedd gan 60% o drefi a oedd â phoblogaeth o lai na 5,000 yr un archfarchnad. Ymddengys felly fod ffin boblogaeth o 5,000 yn drothwy tyngedfennol. Gall presenoldeb archfarchnad mewn tref ddenu siopwyr a helpu tref i gynnal ei swyddogaeth fel canolfan gwasanaethau; mae trefi heb archfarchnad, fodd bynnag, mewn perygl o golli masnach i drefi sydd â siopau.

	Archfarchnadoedd Mawr		Archfarchnadoedd Llai	
Trefi bach	22	76%	78	83%
Ardaloedd trefol neu ymylol	7	24%	13	14%
Cymunedau gwledig	0	0	3	3%

Tabl 4.16: Lleoliad archfarchnadoedd y Gymru wledig, Chwefror 2006.

	Dros 10,000	5,000 -9,999	2,000-4,999	Dan 2,000
2 brif archfarchnad ac 1 neu fwy o archfarchnadoedd llai	3 (30%)	1 (9%)	0 (0%)	0 (0%)
1 brif archfarchnad ac 1 neu fwy o archfarchnadoedd llai	6 (60%)	5 (45%)	2 (6%)	0 (0%)
1 brif archfarchnad yn unig	0 (0%)	0 (0%)	1 (3%)	0 (0%)
2 neu fwy o archfarchnadoedd llai yn unig	0 (0%)	2 (18%)	5 (14%)	0 (0%)
1 archfarchnad lai yn unig	1 (10%)	3 (27%)	13 (36%)	5 (16%)
Dim archfarchnad	0 (0%)	0 (0%)	15 (42%)	27 (84%)

Tabl 4.17: Cyfleusterau archfarchnadoedd mewn trefi bach y Gymru wledig, o'u cymharu â maint y boblogaeth, Chwefror 2006. Trefi bach yn ôl rhestr atodiad A.

4.15 Dangosir pwysigrwydd parhaol trefi bach o ran darparu gwasanaethau i'r boblogaeth wledig gan ddsbarthiad daeryddol cyfleusterau gofal iechyd, gorsafoedd yr heddlu, ysgolion uwchradd a llyfrgelloedd ar draws y Gymru wledig. Dywedodd 95% o'r trefi bach a ymatebodd i arolwg gwasanaethau Arsyllfa Wledig Cymru yn 2004 fod ganddynt o leiaf un feddygfa neu ganolfan iechyd, o gymharu ag ychydig dros 14% o gymunedau gwledig llai (tabl 4.18). Dywedodd 86% fod ganddynt o leiaf un fferyllfa, o gymharu â dim ond 7% o gymunedau llai (tabl 4.19). Mewn achosion lle dywedodd trefi nad oedd ganddynt fferyllfa, mae'n bosibl bod meddygon yn cyflenwi presgripsiwn; mae rheoliadau'r GIG, a ddiweddarwyd yn 2005, yn caniatáu i feddygon teulu mewn meddygfeydd lle mae cyfanswm rhestr cleifion yr ardal mewn radiws o 1.6km (1 filltir) yn llai na 2750 gyflenwi meddyginiaeth y GIG ar bresgripsiwn. Dywedodd 61% o drefi bach fod ganddynt o leiaf un deintydd, o gymharu â llai nag 1% mewn cymunedau gwledig llai; fodd bynnag, dywedodd dros draean y trefi bach nad oedd ganddynt ddeintydd lleol (tabl 4.20).

	Trefi Bach (n=42)		Cymunedau gwledig (n=269)	
2 neu fwy o feddygfeydd neu ganolfannau iechyd	8	19%	1	<1%
1 feddygfa neu ganolfan iechyd	32	76%	39	14%
Dim meddygfa na chanolfan iechyd	2	5%	202	75%
Heb ateb y cwestiwn	0	0	27	10%

Tabl4.18: Cyfleusterau meddygfa neu gyfleusterau gofal iechyd mewn trefi bach a chymunedau gwledig yn y Gymru wledig a atebodd yr holiadur gwasanaethau, 2004.

	Trefi Bach (n=42)		Cymunedau gwledig (n=269)	
2 neu fwy o fferyllfeydd	12	29%	4	1%
1 fferyllfa	24	57%	17	6%
Dim fferyllfa	6	14%	223	83%
Heb ateb y cwestiwn	0	0	25	9%

Tabl4.19: Cyfleusterau fferyllfa mewn trefi bach a chymunedau gwledig y Gymru wledig a atebodd yr holiadur gwasanaethau, 2004.

	Trefi Bach (n=42)		Cymunedau Gwledig (n=269)	
2 o ddeintyddfeydd neu fwy	9	21%	1	<1%
1 ddeintyddfa	17	40%	1	<1%
Dim deintyddfa	15	36%	240	89%
Heb ateb y cwestiwn	1	3%	27	10%

Tabl4.20: Deintyddfeydd mewn trefi bach a chymunedau gwledig y Gymru wledig yn ôl atebion i holiadur gwasanaethau, 2004.

4.16 Caiff cyfleusterau ysbytai'r Gymru wledig eu cronni mewn trefi bach (tabl 4.21). Mae gan wyth o'r deng tref sydd â phoblogaeth dros 10,000 ysbyty, yn ogystal â dwy ran o dair o'r trefi sydd â phoblogaeth rhwng 5,000 a 9,999. I'r gwrthwyneb, dim ond 10% o drefi â phoblogaeth o lai na 2,000 sy'n cynnal unrhyw fath o gyfleuster ysbyty. Awgryma hyn fod darpariaeth cyfleusterau ysbyty'n dibynnu i ryw raddau ar faint yr anheddiad, a 2,000 fyddai'r trothwy tyngedfennol o ran poblogaeth. Fodd bynnag, nid maint yr anheddiad yw'r unig ffactor o bwys; nid yw bod yn 'dref fach fwy neu dref farchnad' yn sicrwydd o ddarpariaeth ysbyty. O blith y 10 o drefi bach yn y Gymru wledig y mae eu poblogaeth dros 10,000, nid oes gan ddwy'r un ysbyty, yn debyg i draean o bob tref fach sydd â phoblogaeth rhwng 2,000 a 5,000. Mae ysbytai sydd â chyfleusterau damweiniau ac achosion brys (DAC) i'w cael yn unig mewn trefi y mae eu poblogaeth dros 10,000, ond unwaith yn rhagor mae cael cyfleusterau DAC yn dibynnu ar fwy na maint yr anheddiad; o'r wyth ysbyty yn y trefi hyn, nid oes gan dair unrhyw adran ddamweiniau ac achosion brys.

	Poblogaeth y dref			
	Dros 10,000	5,000 -9,999	2,000-4,999	Dan 2,000
Ysbyty â chyfleusterau DA	5 (50%)	0 (0%)	0 (0%)	0 (0%)
Ysbyty heb gyfleusterau DA	3 (30%)	7 (64%)	18 (64%)	3 (10%)
Dim ysbyty	2 (20%)	4 (36%)	20 (36%)	27 (90%)

Tabl 4.21: Ysbytai mewn trefi bach yn y Gymru wledig, 2006, o gymharu â maint y boblogaeth. Trefi bach yn ôl rhestr atodiad A.

4.17 Trefi bach yw'r elfen fwyaf yn sylfaen gweithredu gwasanaeth y Gymru wledig. Mae pencadlysoedd adrannol pob un o'r chwe heddlu yn y Gymru wledig mewn trefi bach a threfi bach hefyd sydd â mwyafrif (81%) gorsafodd yr heddlu mewn ardaloedd gwledig (tabl 4.22). Fodd bynnag, mae hierarchaeth eglur mewn trefi bach a threfi marchnad (tabl 4.23). Mae gan bob tref sydd â phoblogaeth o fwy na 10,000 orsaf heddlu, yn debyg i bob tref (heblaw am un) sydd â phoblogaeth rhwng 5,000 a 10,000. Nid syndod mai'r trefi bach mwy a'r trefi marchnad hyn yw'r manau lle ceir pencadlysoedd adrannol yr heddlu hefyd. Mae gan ychydig dros hanner y trefi sydd â phoblogaeth o lai na 5,000 ond mwy na 2,000 orsaf heddlu, sy'n golygu bod bron eu hanner heb orsaf. Ni does gan bron i ddwy ran o dair o'r trefi sydd â phoblogaeth o dan 2,000 yr un orsaf heddlu. Awgryma hyn fod ffin boblogaeth o 5,000 yn drothwy tyngedfennol ond, yn achos trefi bach a threfi marchnad sydd â phoblogaeth is na 5,000, mae presenoldeb neu absenoldeb gorsaf heddlu'n dibynnu ar ffactorau heblaw am lefel y boblogaeth yn unig.

	Pencadlys Adrannol yr Heddlu		Gorsafodd Heddlu	
	N	%	N	%
Trefi Bach	6	100%	47	81%
Ardaloedd trefol neu ymylol	0	0%	8	14%
Ardaloedd gwledig	0	0%	3	5%

Tabl 4.22: Lleoliad gorsafodd heddlu y Gymru wledig, 2006.

	Poblogaeth y dref			
	Dros 10,000	5,000 -9,999	2,000-4,999	Dan 2,000
Pencadlys Adrannol yr Heddlu	3 (30%)	2 (18%)	1 (2%)	0 (0%)
Gorsaf Heddlu	7 (70%)	8 (73%)	23 (53%)	9 (35%)
Dim Gorsafodded Heddlu	0 (0%)	1 (9%)	19 (44%)	17 (65%)

Tabl 4.23: Gorsafodded heddlu mewn trefi bach yn y Gymru wledig 2006, o gymharu â maint y boblogaeth. Trefi bach yn ôl rhestr atodiad A.

4.18 Fodd bynnag, mae dosbarthiad gwasanaethau llysoedd y Gymru wledig yn fwy cyfyngedig ac yn dilyn hierarchaethau poblogaeth yn llai caeth. Ac eithrio llysoedd sirol yn Llanelli a Rhyl, a llysoedd ynadon yn Llanelli a Phrestatyn, mae holl llysoedd naw sir y Gymru wledig mewn trefi bach a threfi marchnad (tabl 4.24). Fodd bynnag, nid y trefi mwyaf sydd o reidrwydd â'r cyfleusterau llys pwysicaf (tabl 4.25). Mae gan Y Trallwng, er enghraifft, llys y goron, llys sirol a llys ynadon, ac mae hyn yn ei gwneud yn brif ganolfan gyfreithiol canolbarth Cymru. Yn yr un modd Caernarfon yw lleoliad llys y goron gogledd-orllewin Cymru, yn hytrach na Bangor, ac mae'r unig llys y goron arall yn y Gymru wledig i'w gael yn Nolgellau (gweler hefyd atodiad I).

	Llys y goron	Llys y sir	Llys ynadon
Trefi bach	3	7	16
Ardaloedd trefol neu ymylol	0	2	3
Ardaloedd gwledig	0	0	0

Tabl 4.24: Lleoliad llysoedd yn y Gymru wledig, 2006.

	Poblogaeth y dref			
	Dros 10,000	5,000 -9,999	2,000-4,999	Dan 2,000
Llys y Goron	0	2	1	0
Llys Sirol	3	3	1	0
Llys Ynadon	7	5	4	0
Dim Llys	2	5	39	26

Tabl 4.25: Llysoedd mewn trefi bach yn y Gymru wledig, 2006, o gymharu â maint y boblogaeth. Trefi bach yn ôl rhestr atodiad A.

4.19 Mae hierarchaeth anheddu eglur ar draws trefi bach yn y Gymru wledig hefyd i'w gweld yn nosbarthiad ysgolion uwchradd a cholegau addysg bellach (tabl 4.26). Mae o leiaf un ysgol uwchradd ym mhob tref fach y mae ei poblogaeth dros 10,000 a phob un ond un o'r trefi bach y mae eu poblogaeth yn llai na 10,000 ond yn fwy na 5,000 (tabl 4.27). I'r gwrthwyneb, nid oes gan fwy na hanner y trefi bach y mae eu poblogaeth yn llai na 5,000 a mwy na dwy ran o dair (69%) o bob tref fach y mae eu poblogaeth dan 2,000 yr un ysgol uwchradd. Mae colegau addysg bellach yn bresennol mewn pob tref fach sydd â phoblogaeth o 10,000 ond mewn llai nag 1 o bob 10 o drefi bach sydd â phoblogaeth o lai na 5,000. Yn debyg i feysydd bancio, ysbytai a'r heddlu, ymddengys fod ffin boblogaeth o 5,000 yn drothwy tyngedfennol.

	Colegau Addysg Bellach		Ysgolion Uwchradd	
Trefi bach	17	77%	61	75%
Ardaloedd trefol neu ymylol	4	18%	15	19%
Ardaloedd gwledig	1	5%	5	6%

Tabl 4.26: Lleoliad Colegau Addysg Bellach ac Ysgolion Uwchradd yn y Gymru wledig, 2006. Trefi Bach yn ôl rhestr atodiad A.

	Poblogaeth y dref			
	Dros 10,000	5,000 -9,999	2,000-4,999	Dan 2,000
Colegau Addysg Bellach	10 (100%)	4 (36%)	4 (9%)	0 (0%)
Ysgolion Uwchradd	10 (100%)	10 (91%)	24 (52%)	8 (31%)
Dim Coleg nac Ysgol Uwchradd	0 (0%)	1 (9%)	18 (39%)	18 (69%)

Tabl 4.27: Colegau Addysg Bellach mewn trefi bach y Gymru wledig, 2006, o gymharu â maint y boblogaeth. Trefi bach yn ôl rhestr atodiad A.

4.20 Lleolir cyfleusterau hamdden y Gymru wledig bron yn gyfan gwbl mewn trefi bach, er bod cyfran sylweddol o drefi bach yn brin o lyfrgell barhaol, pwll nofio neu neuadd chwaraeon. Dywedodd nawdeg y cant o drefi bach wrth ymateb i'r holiadur gwasanaethau gwledig a gynhaliwyd gan Arsyllfa Wledig Cymru yn 2004 fod ganddynt lyfrgell barhaol, o gymharu â dim ond 3% o gymunedau gwledig llai (tabl 4.28). Dywedodd y gweddill, fel y rhan fwyaf o'r cymunedau gwledig llai, eu bod yn derbyn gwasanaeth gan lyfrgell deithiol a leolwyd mewn canolfan drefol fwy. Awgrymodd yr un arolwg, er bod pyllau nofio cyhoeddus yn amlycach o lawer mewn trefi bach nag ydynt mewn cymunedau gwledig lai, nad oes gan dros hanner (57%) y trefi bach bwll nofio cyhoeddus (tabl 4.29). Dywedodd dwy ran o dair o drefi bach fod ganddynt neuadd chwaraeon, gan awgrymu nad oedd gan draean yr un neuadd chwaraeon (tabl 4.29).

	Trefi bach (n=42)		Cymunedau gwledig (n=269)	
Llyfrgell barhaol	38	90%	9	3%
Llyfrgell deithiol yn unig	4	10%	210	78%
Dim cyfleusterau llyfrgell	0	0	50	19%
Heb ateb y cwestiwn	0	0	0	0

Tabl 4.28: Cyfleusterau llyfrgell mewn trefi bach a chymunedau gwledig y Gymru wledig yn ôl yr atebion i holiadur gwasanaethau, 2004.

	Trefi Bach (n=42)		Cymunedau gwledig (n=269)	
Pwll nofio cyhoeddus	18	43%	16	6%
Neuadd Chwaraeon	28	67%	28	10%

Tabl 4.29: Cyfleusterau chwaraeon mewn trefi bach a chymunedau gwledig yn y Gymru wledig yn ôl yr atebion i holiadur gwasanaethau, 2004.

- 4.21 Gall trefi bach hefyd fod yn ganolbwynt cymdeithasol i ardaloedd gwledig ar gyfer gweithgarwch cymdeithasau yn ogystal ag isadeiledd cymdeithasol. Dengys ein holiaduron fod clybiau lleol a chymdeithasau cefn gwlad Cymru yn dueddol o gronni mewn trefi bach, ond i raddau llai na gwasanaethau cyhoeddus (tabl 4.30). Ar sail yr atebion i arolwg Arsyllfa Wledig Cymru o wasanaethau gwledig, ymddengys ei bod yn fwy tebygol y ceir timau pêl-droed a rygbi, cymdeithasau celf a cherddoriaeth a gweithgareddau ar gyfer pobl ifanc (clybiau ieuenctid, Sgowtiaid a Geidiau, ond nid yr Urdd) yn bennaf mewn trefi bach. Er cymhariaeth, dosberthir Clybiau Ffermwyr Ifanc a sefydliadau Cymraeg eu hiaith (yr Urdd a'r Eisteddfodau) yn fwy cyfartal rhwng trefi bach neu drefi marchnad a chymunedau gwledig; mae Clybiau Ffermwyr Ifanc yn gymaint yn rhan o gymunedau gwledig ag yr ydynt o drefi bach neu drefi marchnad. Awgryma'r ffigurau hyn, er bod y rhan fwyaf o drefi bach yn ganolfannau pwysig ar gyfer gweithgareddau diwylliannol a hamdden mewn ardaloedd gwledig, eu bod yn llai pwysig yn hyn o beth nag o ran gwasanaethau eraill.
- 4.22 I raddau helaeth canolir gwasanaethau cymorth cymunedol mewn ardaloedd gwledig mewn trefi bach; ar yr un pryd, mae cyfran sylweddol o drefi bach yn brin o'r gwasanaethau hyn (tabl 4.31). Mae gwasanaethau cymorth i'r digartref, y di-waith, y rhai sydd â phroblemau cyffuriau a'r rhai sy'n dioddef o broblemau cam-drin yn y cartref bron yn gyfan gwbl wedi'u cyfyngu i drefi bach, ond o blith y 42 o drefi bach a ymatebodd i arolwg gwasanaethau Arsyllfa Wledig Cymru yn 2004, dywedodd llai na chwarter eu bod yn cynnig cymorth ar gyfer problemau cyffuriau a llai na 15% eu bod yn cynnig cymorth i'r digartref, y di-waith neu'r rhai sy'n dioddef o drais yn y cartref. Dywedodd llai na hanner y trefi bach a ymatebodd i'r un arolwg fod ganddynt wasanaethau cymorth ar gyfer pobl ifanc neu bobl ag anableddau, er bod trefi bach yn fwy tebygol o lawer o gynnig cymorth na chymunedau gwledig llai. Dywedodd dros hanner y trefi bach fod ganddynt wasanaethau cymorth ar gyfer yr henoed, o gymharu â thraean y cymunedau gwledig llai.

	Trefi bach (n=42)		Cymunedau gwledig (n=269)	
Clwb pêl-droed neu rygbi	38	90%	101	38%
Clwb cerddoriaeth neu gelf	32	76%	70	26%
Eisteddfodau	16	38%	71	26%
Sioe	24	57%	122	45%
Sgowtiaid	19	45%	29	11%
Geidiau	26	62%	47	17%
Clwb Ieuenctid	30	71%	91	34%
Urdd	15	36%	82	30%
Clwb ffermwyr ifanc	15	36%	96	36%

Ffigwr 4.30: Dewis o glybiau a chymdeithasau mewn trefi bach a chymunedau gwledig y Gymru wledig yn ôl holiadur gwasanaethau, 2004.

Grwp targed	Trefi bach (n=42)		Cymunedau gwledig (n=269)	
Henoed	24	57%	88	33%
Pobl ifanc	16	38%	38	14%
Anableddau	12	32%	33	12%
Di-waith	5	14%	3	1%
Digartref	4	11%	5	2%
Problemau cyffuriau	8	22%	4	1%
Trais yn y cartref	7	19%	3	1%

Ffigwr 4.31: Gwasanaethau cymorth mewn trefi bach a chymunedau gwledig yn y Gymru wledig yn ôl atebion i holiadur gwasanaethau, 2004.

- 4.23 O gasglu'r dystiolaeth hon at ei gilydd, mae modd awgrymu categoreiddio pedwarplyg i drefi bach a threfi marchnad y Gymru wledig yn ôl eu rolau fel canolfannau gwasanaethau i ardaloedd gwledig (Ffigwr 4.32). Gan fod y categoreiddio hwn yn seiliedig ar gyfanswm data am bob tref fach neu dref farchnad yn hytrach na gwybodaeth benodol am drefi unigol, ac am na ellir rhannu'r holl ddata am wasanaethau yn ôl maint y boblogaeth, mae'n fwy amodol na chategoreiddio dros dro trefi bach a threfi marchnad yn ôl nodweddion cyflogaeth ac mae'n canolbwyntio ar bresenoldeb neu absenoldeb pum gwasanaeth allweddol - meddygfeydd neu ganolfannau gofal iechyd, archfarchnadoedd, ysbytai, gorsafedd heddlu ac addysg uwchradd a phellach.
- 4.24 Mae trefi yn y grwp cyntaf yn ganolfannau gwasanaethau lefel isel. Gallant ddarparu gwasanaethau masnachol a chymunedol i'w cefnwlod wledig uniongyrchol. Mae gan nifer sylweddol ysgol uwchradd, ac mae gan bron pob un feddygfa meddyg teulu neu ganolfan gofal iechyd. Nid oes ganddynt archfarchnad, ysbyty na gorsaf heddlu. Mae'r categori hwn yn cynnwys mwyafrif llethol y trefi sydd â phoblogaeth o lai na 2,000 a chyfran sylweddol o'r trefi sydd â phoblogaeth o fwy na 2,000 ond llai na 5,000. Mae cyrraedd daearyddol swyddogaeth gwasanaeth y trefi hyn yn gyfyngedig fel rheol i'r dref a'i chymunedau gwledig agosaf, ac mae'r dref ei hun yn debygol o fod yn ddibynnol iawn ar dref fwy i ddarparu gwasanaethau lefel uwch.
- 4.25 Mae trefi yn yr ail grwp yn ganolfannau gwasanaeth lefel isel-canolig. Ochr yn ochr â pha wasanaethau masnachol a chymunedol bynnag y maent yn eu darparu i'w cefnwlod wledig, mae ganddynt ysgol uwchradd, meddygfa neu ganolfan gofal iechyd, o leiaf un archfarchnad fach a gorsaf heddlu. Mae gan nifer sylweddol ysbyty. Mae'r categori hwn yn cynnwys y trefi hynny y mae eu poblogaeth rhwng 2,000 a 4,999 nad ydynt yn ganolfannau darparu gwasanaethau lefel isel, ond maent yn cynnwys rhai trefi y mae eu poblogaeth rhwng 5,000 a 9,999. Mae cyrraedd daearyddol swyddogaeth gwasanaeth y trefi hyn yn ehangach na'r grwp cyntaf, gan gynnwys dosbarth is-sirol a allai, yn rhai o rannau'r Gymru wledig sy'n denuach eu poblogaeth, ymledu am ddeg i ugain cilomedr o gwmpas y dref. Mae'r dref hefyd yn fwy tebygol o gystadlu â'r trefi mwy cyfagos am fasnach a chwsmeriaid o'r ardal gwledig sydd rhyngddynt.
- 4.26 Mae trefi yn y trydydd grwp yn ganolfannau darparu gwasanaethau lefel uwch-canolig. Mae gan bob un ohonynt feddygfa neu ganolfan gofal iechyd, ysgol

uwchradd, gorsaf heddlu ac ysbyty, ac maent yn cynnig dewis o archfarchnad sy'n cynnwys o leiaf un o'r prif gadwyni (Tesco, Asda, Morrisons, Sainsburys a Waitrose). Mae gan nifer sylweddol goleg addysg bellach. Mae'r categori hwn yn cynnwys y trefi hynny y mae eu poblogaeth rhwng 5,000 a 9,999 nad ydynt yn ganolfannau darparu gwasanaethau lefel is-canolig, ynghyd â mwyafrif y trefi y mae eu poblogaeth dros 10,000. Gall cyrraedd daearyddol swyddogaeth gwasanaeth y trefi yn y grwp hwn ymestyn dros sir, neu o leiaf rhan helaethaf sir, hyd at bellter o 30 cilometr neu fwy. Ar gyfer rhan fwyaf y gwasanaethau masnachol a chyhoeddus arferol, y trefi hyn fydd prif ganolfan yr ardal.

4.27 Mae trefi'r pedwerydd grwp yn ganolfannau darparu gwasanaethau lefel uwch. Ynghyd â'r gwasanaethau a ddarperir gan ganolfannau lefel uwch-ganolig, maent yn cynnig o leiaf un archfarchnad fawr ac fel arfer dewis o archfarchnadoedd, a choleg addysg bellach. Mae gan dair ohonynt ysbyty sydd â chyfleusterau damweiniau ac achosion brys. Dim ond trefi y mae eu poblogaeth yn fwy 10,000 sy'n perthyn i'r categori hwn. Gellir disgrifio'r trefi hyn yn ganolfannau is-ranbarthol lle mae'r cyrraedd daearyddol yn ymestyn ar draws rhan helaeth o gefn gwlad Cymru.

4.28 Mae'n amlwg bod swyddogaeth gwasanaeth trefi bach a threfi marchnad yn perthyn i ryw raddau i faint yr anheddiad: po fwyaf y dref, uchaf oll lefel y gwasanaethau y mae'n eu cynnig. Annoeth fyddai honni bod y berthynas rhwng maint y boblogaeth yn un o swyddogaeth neu achos, o gofio amrywiol swyddogaethau gwasanaethau trefi tebyg eu poblogaeth a dylanwad annhebygol ffactorau eraill - fel agosrwydd perthynol canolfannau trefol mwy - ar ddarparu gwasanaethau. Fodd bynnag, ymddengys fod trothwy poblogaeth o 2,000 a 5,000 yn rhoi syniad bras o'r tebygolrwydd y bydd gan y dref wasanaethau a chyfleusterau penodol. Mae rhan fwyaf y trefi bach y mae eu poblogaeth yn llai na 2,000 yn perthyn i gategori o ganolfannau darparu gwasanaethau lefel is. Tuedda trefi y mae eu poblogaeth rhwng 2,000 a 5,000, i'r gwrthwyneb, fod yn y categori o ganolfannau darparu gwasanaethau lefel is-canolig. Yn olaf, tuedda trefi yn y categori o ganolfannau gwasanaethau lefel uwch-canolig ac uwch feddu ar boblogaeth o fwy na 5,000. Nid yw'r gwahaniaeth rhwng y ddau gategori'n perthyn i boblogaeth o reidrwydd ond gallai fod yn adlewyrchu'r cyd-destun daearyddol.

<p>Canolfannau gwasanaethau lefel is <i>Yn darparu</i> Meddygfa neu ganolfan gofal iechyd <i>Darpariaeth bosibl</i> Ysgol uwchradd, archfarchnad fach <i>Enghreifftiau</i> Y Bala, Blaenau Ffestiniog, Llanrwst, Llangollen, Crughywel, Llanandras, Aberaeron, Penfro</p>	<p>Canolfannau gwasanaethau lefel is-canolig <i>Yn darparu</i> Meddygfa neu ganolfan gofal iechyd, ysgol uwchradd, o leiaf un archfarchnad fach, gorsaf heddlu <i>Darpariaeth debygol</i> Ysbyty <i>Enghreifftiau</i> Llangefni, Dolgellau, Porthmadog, Pwllheli, Rhuthun, Llanelwy, Llanfair ym Muallt, Llanidloes, Machynlleth, Llanbedr Pont Steffan, Abergwaun, Dinbych-y-pysgod,</p>
--	--

	Llandeilo, Llanymddyfri, Castellnewydd Emlyn, Caldicot, Trefynwy
<p>Canolfannau gwasanaethau lefel uwch-canolig</p> <p><i>Yn darparu</i> Meddygfa neu ganolfan gofal iechyd, ysgol uwchradd, gorsaf heddlu, ysbyty, dewis o archfarchnadoedd gan gynnwys fel arfer o leiaf un gadwyn fawr</p> <p><i>Darpariaeth bosibl</i> Coleg Addysg Bellach</p> <p><i>Enghreifftiau</i> Caergybi, Dinbych, Aberhonddu, Llandrindod, Y Trallwng, Aberteifi, Casgwent, Y Fenni.</p>	<p>Canolfannau gwasanaethau lefel uwch</p> <p><i>Yn darparu</i> Meddygfa neu ganolfan gofal iechyd, ysgol uwchradd, gorsaf heddlu, ysbyty, o leiaf un archfarchnad fawr, coleg addysg bellach</p> <p><i>Darpariaeth bosibl</i> Adran damweiniau ac achosion brys</p> <p><i>Enghreifftiau</i> Bangor, Caernarfon, Y Drenewydd, Aberystwyth, Hwlfordd, Caerfyrddin.</p>

Ffigwr 4.32: Dosbarthiad trefi yn ôl natur eu swyddogaeth gwasanaeth (presenoldeb neu absenoldeb gorsaf heddlu, archfarchnad, ysbyty, ysgol uwchradd / coleg addysg bellach)

PENNOD 5: TREFI BACH FEL CANOLFANNAU DATBLYGIAD CYMDEITHASOL AC ECONOMAIDD YN Y GYMRU WLEDIG

Cyflwyniad

- 5.1 Mae arwyddocâd posibl trefi bach a threfi marchnad fel manau allweddol ar gyfer buddsoddi er mwyn hybu twf economaidd yn y Gymru wledig wedi ennill ei blwyf mewn polisiau economaidd Cymru ers tro. O'r 1970au i'r 1980au canolbwyntiodd polisiau'n wreiddiol ar ddatblygu trefi bach a threfi marchnad fel pegynnau twf ac yn ddiweddarach fel sylfaen adfywio dan arweiniad y gymuned; rhagwela'r Fenter Trefi Marchnad a sefydlwyd gan Fwrdd Datblygu Cymru Wledig ym 1996 y byddai datblygiad yn y trefi o fudd i'r ardal wledig ehangach o'u cwmpas. Mewn blynyddoedd diweddarach, ystyrir o hyd bod trefi bach a threfi marchnad yn ganolfannau ar gyfer datblygiad cymdeithasol ac economaidd y Gymru wledig trwy Gynllun Gofodol Cymru.
- 5.2 Heriwyd y dybiaeth y gallai buddsoddi mewn trefi bach a threfi marchnad symbylu twf economaidd yn yr ardaloedd gwledig ehangach gan yr adroddiad 'Trefi Bychain Deinamig: Canfod Ffactorau Tyngedfennol ar gyfer Llwyddiant' a gyflwynwyd i Lywodraeth Cynulliad Cymru yn 2004 (Brown *et al.*, 2004). Gwelodd ei ddata ar 369 o drefi bach a 55 o ardaloedd gwledig gweddilliol ar draws Cymru a Lloegr, ynghyd â data cymharol ar 24 ardal astudiaeth achos a oedd yn cynnwys 11 o drefi yn y Gymru wledig, er bod twf tai yn gyflymach yn y trefi bach nag yr oedd yn yr ardaloedd gwledig gweddilliol, f'd twf cyflogaeth rhwng 1995 a 2000 wedi bod yn gryfach ar gyfartaledd yn yr ardaloedd gwledig gweddilliol nag yn y trefi bach. Yn ogystal, datgelodd dadansoddiadau o'r astudiaethau achos amrywiaeth sylweddol o ran perfformiad gwahanol drefi (tabl 5.1).

	Cynnydd mewn swyddi (gwir) yn y dref	Cynnydd mewn swyddi (%) yn y dref	Cynnydd mewn swyddi (%) yn yr ardal wledig oddi amgylch
Aberystwyth	2750	42.4%	69.5%
Abergwaun	300	22.5%	0.0%
Y Bala	100	18.2%	-5.1%
Machynlleth	100	8.2%	4.3%
Castellnewydd Emllyn	100	10.4%	10.3%
Aberhonddu	250	6.4%	22.8%
Llanandras	<50	4.6%	n/a
Y Fenni	-400	-5.2%	22.8%
Bangor	-1200	-9.7%	0.0%
Llanidloes	-100	-10.7%	0.8%

Tabl 5.1: Twf Cyflogaeth ymysg Trefi Bach ac Ardaloedd Gwledig Dethol Oddi Amgylch, 1995-2000.

(Ffynhonnell: Brown *et al.* 2004, yr adroddiad 'Trefi Bychain Deinamig')

- 5.3 Mae'r bennod yn archwilio'r graddau y mae trefi bach a threfi marchnad yn ganolfannau allweddol datblygiad cymdeithasol ac economaidd yn y Gymru wledig trwy archwilio tri dangosydd yn eu tro. Yn gyntaf mae'n chwilio am dystiolaeth o greu swyddi mewn trefi bach a threfi marchnad, gan ddadansoddi'r ddau newid o ran y nifer sy'n hawlio Lwfans Ceisio Gwaith ac adroddiadau o greu swyddi newydd a cholli swyddi yn y Gymru wledig. Yn ail, mae'n olrhain a dadansoddi dosbarthiad daearyddol buddsoddiad economaidd trwy Gronfeydd Strwythurol Ewrop (Amcan 1 ac Amcan 2) rhwng 2000 a 2005. Yn drydydd, mae'n archwilio dosbarthiad daearyddol buddsoddiad trwy Gronfa Gymunedol Bwrdd Elusennau'r Loteri Genedlaethol rhwng 1995 a 2005.

Creu swyddi mewn trefi bach a threfi marchnad

- 5.4 Fel y sylwyd uchod, awgrymodd yr adroddiad Trefi Bychain Deinamig fod lefelau creu swyddi mewn trefi bach yn ystod diwedd y 1990au yn arafach na lefelau creu swyddi yn yr ardaloedd gwledig oddi amgylch. Fodd bynnag, awgrymodd ei ddadansoddiad o 11 astudiaeth achos trefi yng Nghymru, fel y dangoswyd yn nhabl 5.1, fod y patrwm cyffredinol hwn yn amrywio'n sylweddol ar lefel leol. O blith yr un ar ddeg o drefi a archwiliwyd, profodd Aberystwyth lefel uchel o greu swyddi yn y dref a'r ardal wledig oddi amgylch, a chofnododd Abergwaun, Y Bala a Machynlleth gynnydd uwch o dipyn yn y dref nag yn y gefnwlad wledig. I'r gwrthwyneb, nodwyd bod gan Aberhonddu a'r Fenni lefelau is o ran creu swyddi na'u cefnwlad wledig ac, ym Mangor a Llanidloes, cyferbynnwyd gostyngiad mewn lefelau cyflogaeth yn y trefi â niferoedd sefydlog y swyddi yn yr ardal wledig weddilliol.
- 5.5 Mae'n anodd cael ffigurau cywir ar gyfer creu swyddi ar raddfa ofodol sy'n galluogi cymharu trefi bach â'r ardaloedd gwledig oddi amgylch. Er mwyn estyn dadansoddiad yr adroddiad Trefi Bychain Deinamig a phrofi'r patrymau y maent yn eu dangos, rydym wedi troi at ddwy set ddirprwyol o ddata, sydd â phroblemau ill dau yn eu ffordd eu hunain.
- 5.6 Y set gyntaf o ddata yr ydym yn ei harchwilio yw nifer gofnodedig y bobl sy'n hawlio Lwfans Ceisio Gwaith Seiliedig ar Incwm. Mae gennym fynediad at ddata cyfres amser fesul ward ar gyfer hyn. Gan fod Lwfans Ceisio Gwaith yn cael ei thalu i bobl sy'n chwilio am waith, gellir cysylltu gostyngiad yn nifer y bobl sy'n hawlio â chreu swyddi. Fodd bynnag, mae'n rhaid ychwanegu nifer o amodau at y dadansoddiad hwn. Yn gyntaf, crynhoir data fesul ward ar gyfer nifer y rhai sy'n hawlio i bump, ac felly mae'r ffigurau a ddyfynnir yma'n amcangyfrif yn hytrach na'n fesuriadau cywir. Mae hyn yn arbennig o arwyddocaol wrth archwilio tueddiadau mewn trefi lle mae nifer y rhai sy'n hawlio'n isel. Yn ail, mewn rhai ardaloedd gall fod newidiadau yn ffiniau wardiau wedi effeithio ar y ffigurau dros amser. Yn yr un modd, cyhoeddir data ar gyfer 2004 fesul ardal cyfrifiad yn hytrach na ward, fel y bu'r arfer o'r blaen, ac felly nid oes modd eu cymharu'n syth. O'r herwydd mae ein hastudiaeth yn cwmpasu'r cyfnod o 1998 i 2003 yn unig. Yn drydydd, nid yw'r gostyngiad cyffredinol yn nifer y rhai sy'n hawlio Lwfans Ceisio Gwaith o ganlyniad yn unig i greu swyddi ond mae hefyd yn adlewyrchu newidiadau o ran cymhwyster ar gyfer y lwfans. Ar lefel leol, effeithir ar nifer y rhai sy'n

hawlio gan ymfudo yn ogystal â chreu swyddi, gan gynnwys yr hyn a elwir yn 'ymfudo lles' lle mae unigolion sydd â'r hawl i dderbyn yr un lefel o fudd-dal ble bynnag y bont yn byw yn y wlad yn symud i fyw i ardaloedd lle mae costau byw'n is neu lle ceir manteision eraill o ran ffordd o fyw. Gall y rhain gynnwys hawl wyr budd-daliadau sy'n symud o ddinasoedd i drefi bach, ac, yn fwy lleol, hawl wyr yn symud o gymunedau gwledig i drefi bach i gael tai. Mae ymfudo lles yn debygol o fod yn elfen yn y cynnydd yn nifer y rhai sy'n hawlio Lwfans Ceisio Gwaith yn Llandrindod a gofnodwyd rhwng 1998 a 2000. Yn olaf, gan fod y ffigurau'n gysylltiedig â phreswylfa yn hytrach na lleoliad gwaith, nid yw gostyngiad mewn hawl wyr yn y dref o reidrwydd yn cyfateb i greu swyddi yn y dref honno, ond gall adlewyrchu bod trigolion wedi cael gwaith yn rhywle arall.

5.7 Er gwaetha'r amodau uchod, mae data'r Lwfans Ceisio Gwaith yn dangos dwy duedd, sy'n ymddangos eu bod yn cefnogi canfyddiadau'r adroddiad Trefi Bychain Deinaf. Yn gyntaf, yn y rhannau helaeth o gefn gwlad Cymru mae nifer y rhai sy'n hawlio Lwfans Ceisio Gwaith Seiliedig ar Incwm wedi disgyn yn arafach mewn trefi bach a threfi marchnad nag yng ngweddill y sir (tabl 5.2). Yr unig siroedd lle nad yw hyn yn wir yw Conwy and Sir Ddinbych (lle mae graddfa'r disgyniad yn arafach fyth yn ardal arfordirol Gogledd Cymru sy'n drefol), a Sir Fynwy, mae ein dadansoddiad cynnar wedi dangos bod ganddynt batrwm cymhleth o lif cymudo.

		Cyfanswm y rhai sy'n hawlio			Newid 98-03	
		1998	2000	2003	Nifer	%
Sir Gaerfyrddin	Trefi bach	535	515	350	-185	-35%
	Gweddill y sir	2130	1940	1320	-810	-38%
Ceredigion	Trefi bach	515	440	285	-230	-45%
	Gweddill y sir	610	445	285	-325	-53%
Conwy	Trefi bach	325	260	135	-190	-58%
	Gweddill y sir	1555	1260	835	-720	-46%
Sir Ddinbych	Trefi bach	330	230	155	-175	-53%
	Gweddill y sir	1070	860	640	-430	-40%
Gwynedd	Trefi bach	1930	1465	995	-935	-48%
	Gweddill y sir	970	670	420	-550	-57%
Ynys Môn	Trefi bach	1005	805	600	-405	-40%
	Gweddill y sir	845	595	435	-410	-49%
Sir Fynwy	Trefi bach	770	540	330	-440	-57%
	Gweddill y sir	335	220	165	-170	-49%
Sir Benfro	Trefi bach	1785	1480	905	-880	-49%
	Gweddill y sir	615	450	295	-320	-52%
Powys	Trefi bach	645	585	440	-205	-32%
	Gweddill y sir	700	585	430	-270	-39%

Tabl 5.2: Y rhai sy'n hawlio Lwfans Ceisio Gwaith Seiliedig ar Incwm yn y Gymru wledig, 1998, 2000 a 2003. Trefi bach yn ôl rhestr atodiad A.

5.8 Yn ail, mae'r ffigurau ar gyfer y rhai sy'n hawlio Lwfans Ceisio Gwaith Seiliedig ar Incwm unwaith eto yn dangos cryn amrywiaeth rhwng gwahanol drefi yn y Gymru wledig. Ac eithrio'r trefi lle mae niferoedd y rhai sy'n

hawlio yn isel iawn (20 neu lai), mae'r gostyngiadau mwyaf arwyddocaol yn nifer y rhai sy'n hawlio wedi tueddu i fod naill ai yn nhrefi mwy de-ddwyrain Cymru (Y Fenni, Cas-gwent), trefi bach gogledd Cymru o fewn pellter cymudo i ganolfannau mwy (Llanrwst, Penmaenmawr, Porthaethwy) neu drefi mwy anghysbell ger arfordir gorllewin Cymru (Aberystwyth, Dolgellau, Pwllheli) (tabl 5.3). Mae'r patrwm hwn yn cyfateb i dystiolaeth arall o dwf economaidd yn yr ardaloedd hyn.

- 5.9 Mewn cyferbyniad, mae'r gostyngiadau lleiaf yn nifer y rhai sy'n hawlio wedi tueddu i fod mewn trefi ym mherfeddion Cymru wledig ym Mhowys a Sir Gaerfyrddin, yn ogystal â threfi sydd â sylfaen ddiwydiannol gryfach yn hanesyddol fel Llangefni ac Aberteifi (tabl 5.4). Mae gan Sir Gaerfyrddin a Phowys y gostyngiadau lleiaf yn nifer y rhai sy'n hawlio yn y Gymru wledig, a chofnododd dwy dref yn y siroedd hyn, nad ydynt ar restr tabl 5.4, sef Llandeilo a Llanandras, gynnydd bach yn nifer y rhai sy'n hawlio Lwfans Ceisio Gwaith rhwng 1998 a 2003. Cofnododd Y Drenewydd a Llandrindod gynnydd bach ill dau yn nifer y rhai a hawliodd rhwng 1998 a 2000. Felly, er bod y trefi wedi cynyddu o ran poblogaeth yn y blynyddoedd diwethaf, mae'r ffigurau hyn yn awgrymu nad yw twf poblogaeth o reidrwydd yn cael ei yrru gan ymfudwyr sy'n symud i'r dref am waith yn sgil creu swyddi newydd (gweler hefyd atodiad J).
- 5.10 Yr ail set o ddata y seilir y dadansoddiad hwn arni yw'r adroddiadau am greu swyddi a cholli swyddi yn Adroddiad Gweithgarwch y DU, a gyhoeddir dros y we gan UK Business Park. Er bod y rhestr hon yn anghyflawn ac felly ni ellir ei hystyried yn gofnod cynhwysfawr o greu a cholli swyddi yn y rhanbarth - mae nifer o ddatblygiadau sylweddol a safleoedd yn cau yr ydym yn gwybod amdanynt sydd heb eu cofnodi - mae'n rhoi syniad bras o'r prif dueddiadau o ran buddsoddiad y sector preifat.
- 5.11 Ar y sail hon, mae tair tuedd gyffredinol y mae modd eu casglu o'r data. Yn gyntaf, mewn gwrthgyferbyniad ymddangosiadol â chanfyddiadau'r adroddiad Trefi Bychain Deinamig, ceir y mwyafrif o swyddi newydd yn y Gymru wledig a gofnodir gan UK Business Park mewn trefi bach a threfi marchnad (tabl 5.5). Yn ogystal, mae'r swyddi y cofnodir eu bod wedi'u creu mewn trefi bach yn fwy na dwbl nifer y swyddi y cofnodir eu bod wedi'u colli; ac mae'r swyddi a gollir ar gyfer yr ardaloedd gwledig gweddilliol yn y rhanbarth yn fwy na'r swyddi y dywedir eu bod wedi'u creu yn y rhanbarth. Ymddengys y byddai hyn yn cefnogi'r honiad gwreiddiol mai trefi bach yw safleoedd allweddol buddsoddiad economaidd y Gymru wledig.
- 5.12 Yn ail, mae'r adroddiadau hefyd yn awgrymu bod sylfaen economaidd trefi bach yn y Gymru wledig yn lledaenu, pan gaiff sector neu swyddogaeth y swyddi newydd a grëir eu cymharu â'r swyddi hynny y dywedir eu bod wedi eu colli (tabl 5.6). Fodd bynnag, nid tuedd gadarnhaol ddigymysg mo hon. Y meysydd mwyaf o ran creu swyddi yw canolfannau galw a manwerthu, sef sectorau economaidd sy'n gysylltiedig â chyflogaeth sgiliau isel a chyflogau isel, rhan-amser yn aml. Yn ogystal, caiff breuder y sector canolfannau galw ei amlygu gan y ffaith fod yr 800 o swyddi newydd yr adroddwyd amdanynt ar gyfer y trefi bach yn gwrthbwysu yn erbyn colli dros 200 o swyddi yn sgil

adleoli swyddogaethau canolfannau galw dramor. Felly, mae lle i ofyn a yw creu swyddi mewn trefi bach yn gwella ansawdd y sylfaen gyflogaeth, ac a ydynt yn gynaliadwy yn y pen draw.

	Cyfanswm y rhai sy'n hawlio			Newid 1998-2003	
	1998	2000	2003	Nifer	%
Cas-gwent	140	95	35	-105	-75%
Llanrwst	75	50	25	-50	-67%
Dinbych-y-pysgod	100	65	35	-65	-65%
Caldicot	150	105	60	-90	-60%
Dolgellau	75	40	30	-45	-57%
Penmaenmawr	125	95	55	-70	-56%
Porthaethwy	90	60	40	-50	-55%
Tywyn	55	50	25	-30	-55%
Pwllheli	75	45	35	-40	-53%
Y Fenni	335	265	160	-175	-52%
Aberystwyth	320	250	155	-165	-52%
Penfro	210	210	100	-110	-52%

Tabl 5.3: Trefi bach lle cafwyd y gostyngiadau mwyaf o ran nifer y rhai a hawliodd Lwfans Ceisio Gwaith Seiliedig ar Incwm, 1998-2003. (Heb gynnwys trefi lle roedd 20 neu lai yn hawlio)

	Cyfanswm y rhai sy'n hawlio			Newid 1998-2003	
	1998	2000	2003	Nifer	%
Llandrindod	110	125	100	-10	-10%
Y Drenewydd	100	105	85	-15	-15%
Llangefni	120	105	95	-25	-21%
Caerfyrddin	215	215	155	-60	-28%
Deiniolen	50	40	35	-15	-30%
Y Trallwng	65	60	45	-29	-31%
Aberteifi	95	105	65	-30	-32%
Abergwaun	85	75	55	-30	-35%
Bethesda	130	100	85	-45	-35%
Trimsaran	55	50	35	-20	-36%

Tabl 5.4: Trefi bach lle cafwyd y gostyngiadau lleiaf o ran nifer y rhai a hawliodd Lwfans Ceisio Gwaith Seiliedig ar Incwm, 1998-2003. (Heb gynnwys trefi lle roedd 20 neu lai yn hawlio)

- 5.13 Yn olaf, mae adroddiadau o greu a cholli swyddi hefyd yn pwysleisio'r amrywiaeth ddaearyddol o ran profiadau gwahanol drefi yn y Gymru wledig. Er bod y set ddata'n anghyflawn ac ni ellir felly ei defnyddio ar gyfer cymhariaeth gadarn rhwng trefi, mae'n rhoi'r argraff bod buddsoddiad sylweddol a thwf cyflogaeth mewn trefi fel Aberystwyth, Bangor a Llanellwyrdd ond yn awgrymu bod y darlun yn fwy cymhleth mewn trefi fel Llangefni a'r Drenewydd, lle adroddir bod nifer sylweddol o swyddi wedi'u creu a'u colli (gweler atodiad K). Mae'n werth nodi hyn o gofio bod Llangefni a'r Drenewydd ymhlith y trefi sydd â'r gostyngiadau isaf yn nifer y rhai sy'n hawlio Lwfans Ceisio Gwaith.

	Swyddi a grëwyd	Swyddi a gollwyd
Trefi Bach	3040	1325
Ardaloedd trefol ac ymylol	650	400
Cymunedau gwledig	980	1245

Tabl 5.5: Nifer sylweddol y swyddi a grëwyd ac a gollwyd yn y Gymru wledig yn ôl Adroddiad Gweithgarwch UK Business Park, 2000-2005
(www.ukbusinesspark.co.uk)

	Swyddi a grëwyd	Swyddi a gollwyd
Canolfannau galw	800	265
Manwerthu	590	-
Gweinyddiaeth gyhoeddus	500	-
Cynhyrchu/Peirianeg	480	655
Dosbarthu	210	225
TG/Technoleg	180	-
Prosesu bwyd	135	100
Gweinyddiaeth gorfforaethol	85	-
Cludiant	55	-
Twristiaeth	-	15

Tabl 5.6: Sector neu swyddogaeth y swyddi a grëwyd ac a gollwyd mewn trefi bach yn y Gymru wledig yn ôl adroddiad Gweithgarwch UK Business Park, 2000-2005
(www.ukbusinesspark.co.uk).

5.14 Mae'r dystiolaeth bod trefi bach a threfi marchnad yn gweithredu fel canolfannau ar gyfer datblygiad economaidd yn dameidiog ac yn gymysg felly. Mae peth tystiolaeth bod trefi bach yn fwy tebygol o fod yn safleoedd buddsoddiadau mawr sy'n creu nifer sylweddol o swyddi newydd, ond mae tystiolaeth hefyd sy'n awgrymu bod graddfa creu'r swyddi yn gymesur uwch yn yr ardaloedd gwledig gweddilliol. Yn ogystal, mae amrywiadau trawiadol rhwng trefi yn y Gymru wledig o ran lefelau creu swyddi, sy'n awgrymu bod rhai trefi, yn enwedig yng ngogledd, gorllewin a de-ddwyrain Cymru yn safleoedd ffafriol ar gyfer buddsoddiad, a bod trefi sydd wedi elwa o lawer o fuddsoddiad a noddwyd gan asiantaethau datblygu mawr yn y 1970au a'r 1980au, gan gynnwys Y Drenewydd a Llangenfi, yn gweld bod buddsoddiad newydd yn cael ei wrthbwyso gan gollu swyddi ym maes y sector cynhyrchu a ddatblygwyd yn y cyfnod blaenorol.

Cronfeydd Strwythurol Ewrop

5.15 Rhwng 2000 a 2005, rhoddodd Cronfa Datblygu Rhanbarthol Ewrop gyfanswm o £204.3 miliwn o arian i bartneriaethau sirol ar draws parthau gwledig rhanbarthau Amcan 1 ac Amcan 2 Cymru. Aeth y rhan fwyaf o'r arian hwn i (£192.8 miliwn) ardaloedd gwledig yn rhanbarth Amcan 1; aeth y gweddill (£11.5 miliwn) i ardaloedd gwledig yn rhanbarth Amcan 2. Mae parth wledig rhanbarth Amcan 1 yn cynnwys y siroedd canlynol: Sir Gaerfyrddin, Ceredigion, Conwy, Sir Ddinbych, Gwynedd, Sir Benfro, ac

Ynys Môn; mae parth wledig rhanbarth Amcan 2 yn cynnwys siroedd Powys a Mynwy. Yn rhanbarthau Amcan 1 ac Amcan 2, dyfarnwyd llawer o arian ERDF i ardaloedd gwledig ar gyfer mentrau a leolwyd mewn trefi bach neu drefi marchnad.

- 5.16 Mae'r sylw a roddir i drefi bach neu drefi marchnad amlycaf yn yr ardal Amcan 1 (tabl 5.7). Nid yw dogfen y rhaglen ar gyfer ardal Amcan 1 Gorllewin Cymru a'r Cymoedd yn enwi trefi bach a threfi marchnad fel uned neu raddfa ar wahân ar gyfer cyflwyno mesurau Amcan 1. Yn ymarferol, fodd bynnag, roedd mwy na chwarter y 325 o grantiau a ddyfarnwyd rhwng 2000 a 2005 ar gyfer mentrau mewn trefi bach. Yn ogystal, roedd cyfanswm y grantiau hyn yn 41% o gyfanswm cyllid ERDF yn yr ardal Amcan 1 dros y cyfnod hwn. Mewn cymhariaeth, defnyddiodd yr ardaloedd gwledig gweddilliol 19% o gyfanswm y grantiau a ddyfarnwyd a 13% o gyfanswm cyllid ERDF - sef llai na thraean yr arian a dderbyniwyd gan drefi bach - a derbyniodd ardaloedd trefol ymylol 10% o gyfanswm y grantiau a ddyfarnwyd a 10% o gyfanswm ariannu ERDF - sef llai na chwarter yr arian a dderbyniwyd gan drefi bach. Er i nifer fwyaf y grantiau fynd i brosiectau a oedd naill ai heb leoliad sefydlog neu a oedd yn seiliedig ar safleoedd buddsoddiad lluosog, o ran gwerth ariannol y grantiau hyn, roedd gwerth y grantiau hyn yn is o lawer na chyfanswm y cyllid ERDF na'r grantiau a ddyfarnwyd i drefi bach. Derbyniodd trefi bach y gwerth uchaf y pen ar gyfer grantiau a ddyfarnwyd ar gyfer prosiectau mewn lleoliad sefydlog.
- 5.17 Rhestrod dogfen y rhaglen ar gyfer ardal Amcan 2 drefi bach fel safleoedd priodol ar gyfer buddsoddi economaidd. Roedd ei Strategaeth Wledig yn cynnwys helpu 'trefi a phentrefi mawr i ddatblygu'n lleoliadau deniadol ar gyfer busnes... a datblygu màs critigol mwy, hyd yn oed os yw'n gyfyngedig, a manteisio ar gryfderau sy'n bodoli eisoes fel eu proffil twristaidd...'. Pwysleisiodd hefyd yr angen am 'strategaethau datblygu cymuned' i 'gynnwys trefi bach y rhanbarth'. Er gwaethaf hyn, aeth mwyafrif y grantiau (52 o 75) a'r arian (69%) yn yr ardal Amcan 2 at gefnogi mentrau heb unrhyw leoliad sefydlog neu a oedd â safleoedd buddsoddi lluosog (tabl 5.7). Dyfarnwyd tri ar hugain o grantiau i brosiectau mewn lleoliadau sefydlog, sef cyfanswm arian o £4,226,800. Aeth bron i ddwy ran o dair o'r grantiau hyn (14), sef 58% o gyfanswm yr arian na ddyfarnwyd i fentrau mewn lleoliadau sefydlog, i drefi bach. Aeth grantiau eraill ar gyfer prosiectau ag un lleoliad sefydlog i'r ardaloedd gwledig gweddilliol; nid oedd grantiau i ardaloedd trefol ac ardaloedd trefol ymylol, sy'n adlewyrchu diffyg perthynol ardaloedd trefol mwy yn y ddwy ardal drefol yn y ddwy sir wledig a oedd â statws Amcan 2. Derbyniodd mentrau a leolwyd mewn trefi bach bron i un rhan o bump o 75 grant ERDF a ddyfarnwyd i'r rhanbarth Amcan 2 rhwng 2000 a 2005 ac, o ran gwerth ariannol, roedd yn un rhan o bump o gyfanswm arian ERDF dros y cyfnod hwn. Roedd gwerth grantiau y pen a ddyfarnwyd i leoliadau sefydlog yn uwch ar draws trefi bach nag ar draws yr ardaloedd gwledig gweddilliol.

	Nifer y grantiau a ddyfarnwyd		Cyfanswm gwerth y grantiau	
<i>Ardal Amcan 1 (Sir Gaerfyrddin, Ceredigion, Conwy, Sir Ddinbych, Gwynedd, Sir Benfro, Ynys Môn)</i>				
Trefi bach	92	28%	£78,564,837	41%
Ardaloedd trefol eraill ac ardaloedd ymylol	34	10%	£28,365,490	15%
Ardaloedd gwledig	63	19%	£25,764,673	13%
Dim lleoliad sefydlog/ safle lluosog	136	42%	£60,048,045	31%
Cyfanswm	325	100%	£192,743,045	100%
<i>Ardal amcan 2 (Sir Fynwy, Powys)</i>				
Trefi bach	14	19%	£2,436,571	21%
Ardaloedd trefol eraill ac ardaloedd ymylol	0	0%	£0	0%
Ardaloedd gwledig	9	12%	£1,790,229	15%
Dim lleoliad sefydlog/ safle lluosog	52	69%	£7,350,220	63%
Cyfanswm	75	100%	£11,577,020	100%

Tabl 5.7: Grantiau ERDF a wnaed trwy bartneriaethau dan Amcan 1 ac Amcan 2 Cronfeydd Strwythurol yr UE, 2000-Rhag 2005.
Ffynhonnell: WEFO

- 5.18 Mae arwyddocâd trefi bach fel safleoedd ar gyfer cyflwyno buddsoddiad economaidd ar ffurf cyllid ERDF yn amrywio'n fawr iawn rhwng gwahanol awdurdodau gwledig (tabl 5.8). Yn Sir Benfro, Ynys Môn a Sir Fynwy, aeth dros 60% o arian ERDF rhwng 2000 a 2005 at fentrau mewn trefi bach. Aeth mwyafrif yr arian a oedd yn weddill yn yr awdurdodau lleol hyn i fentrau a leolwyd ar safleoedd lluosog neu nad oedd ganddynt leoliad sefydlog. Yng Ngheredigion, Sir Ddinbych a Gwynedd, derbyniodd trefi bach rhwng 42% a 52% o'r arian ERDF. Gwahanol iawn oedd dosbarthiad yr arian a oedd yn weddill yn y tair sir: yng Ngheredigion, aeth y mwyafrif i'r ardaloedd gwledig sy'n weddill; yng Ngwynedd, aeth y mwyafrif i fentrau a leolwyd mewn safleoedd lluosog neu heb leoliad sefydlog; yn Sir Ddinbych, rhannwyd mwyafrif yr arian a oedd yn weddill bron yn gyfartal rhwng ardaloedd trefol / trefol ymylol a mentrau a leolwyd ar safleoedd lluosog neu heb leoliad sefydlog.
- 5.19 Yn Sir Gaerfyrddin, Conwy a Phowys, roedd cyfran yr arian ERDF a ddyfarnwyd i drefi bach yn drawiadol o is na'r chwe sir wledig arall, gan amrywio o 5% yng Nghonwy i 13% yn Sir Gaerfyrddin. Yng Nghonwy, dyfarnwyd mwyafrif yr arian i leoliadau trefol a threfol ymylol, wedyn yr ardaloedd gwledig gweddilliol. Ar draws Sir Gaerfyrddin a Phowys, dyfarnwyd mwy o lawer o arian i brosiectau a leolwyd ar safleoedd lluosog neu heb leoliad sefydlog nag yn unrhyw un arall o'r naw sir wledig - sef 49% yn achos Sir Gaerfyrddin a 70% yn achos Powys. Ymddengys felly fod arwyddocâd cymharol isel trefi marchnad fel safleoedd ar gyfer buddsoddiad economaidd yn yr awdurdodau lleol hyn yn adlewyrchu strategaethau datblygu economaidd lle mae buddsoddi mewnol yn cael ei dargedu at ardal yr awdurdod lleol yn ei chyfanrwydd yn hytrach na lleoliadau penodol, boed yn

drefi bach, yn ardaloedd trefol neu'n ardaloedd trefol ymylol neu'r ardaloedd gwledig gweddilliol

5.20 Mae'r amrywio hwn rhwng awdurdodau lleol gwledig o ran arwyddocâd trefi bach fel safleoedd ar gyfer buddsoddi economaidd yn adlewyrchu i raddau cyfyngedig arwyddocâd gwahanol trefi bach a threfi marchnad o ran dosbarthiad poblogaeth y gwahanol awdurdodau lleol gwledig (tabl 5.9). At ei gilydd, mae cyfran y cyllid ERDF a ddyfarnwyd i fentrau a leolwyd mewn trefi bach yn uwch mewn awdurdodau lleol lle mae cyfran gymharol is o'r boblogaeth yn byw mewn trefi bach ac yn is mewn awdurdodau gwledig lle mae cyfran gymharol is o'r boblogaeth yn byw mewn trefi bach. Ac eithrio Sir Ddinbych, mae trefi bach hefyd yn dueddol o fod y safleoedd mwyaf arwyddocaol ar gyfer buddsoddi economaidd mewn ardaloedd awdurdod lleol lle nad oes neb neu braidd neb o'r boblogaeth yn byw mewn ardaloedd trefol / trefol ymylol. Mae hyn yn arbennig o wir pan fo grantiau ar gyfer prosiectau sydd â lleoliad yn unig yn cael eu hystyried. Yng Ngwynedd, Sir Benfro ac Ynys Môn rhoddwyd dros 80% y grantiau hyn i brosiectau mewn trefi bach, gan nodi'r cymunedau hyn yn amlwg fel safleoedd amlwg ar gyfer buddsoddi economaidd. Yn ardal Amcan 2, fodd bynnag, mae Powys yn dyfarnu dim ond 37% y grantiau i brosiectau gyda lleoliad sefydlog yn mynd i drefi bach, er gwaetha'r ffaith fod trefi bach yn cynnwys 40% o boblogaeth y sir.

	Tref Fach	Ardaloedd trefol ac ymylol eraill	Ardaloedd gwledig	Dim lleoliad sefydlog / safle lluosog
<i>Ardal Amcan 1</i>				
Sir Gaerfyrddin	£4,561,548 (13%)	£9,424,323 (27%)	£3,729,153 (11%)	£17,251,825 (49%)
Ceredigion	£10,321,191 (46%)	-	£8,351,088 (37%)	£3,766,640 (17%)
Conwy	£912,258 (5%)	£13,367,634 (67%)	£3,647,078 (18%)	£1,971,811 (10%)
Sir Ddinbych	£9,842,841 (42%)	£5,573,533 (24%)	£684,545 (3%)	£6,023,749 (26%)
Gwynedd	£24,411,571 (52%)	-	£6,175,045 (13%)	£16,480,891 (35%)
Sir Benfro	£16,375,504 (63%)	-	£1,869,483 (7%)	£7,613,108 (29%)
Ynys Môn	£12,139,924 (60%)	-	£1,308,281 (6%)	£6,940,021 (34%)
<i>Ardal Amcan 2</i>				
Sir Fynwy	£1,402,953 64%	0	0	£793,114 36%
Powys	£1,033,618 11%	0	£1,790,229 19%	£6,557,106 70%

Tabl 5.8: Manylion fesul sir y grantiau ERDF a wnaed trwy bartneriaethau sirol dan Amcan 1 ac Amcan 2 o Gronfeydd Strwythurol yr EU, 2000-Rhag 2005.

Ffynhonnell: WEFO

5.21 Dangosir graddfa lawn y gwahaniaethau rhwng yr awdurdodau lleol yn amlycaf gan rannu cyllid ERDF yn rhanbarthau Amcan 1 a 2 ar gyfer prosiectau lleoliad sefydlog yn ôl gwerth y pen y grantiau a ddyfarnwyd. Fel y dengys tabl 5.10, mae amrywiaeth sylweddol rhwng y rhan fwyaf o awdurdodau yng ngwerth pen y cyllid ERDF ar gyfer pob math o ardal (treffi bach, trefol / trefol ymylol a'r ardaloedd gwledig gweddilliol). Mae ychydig o'r amrywiaeth absoliwt hon yn cyfateb i wahanol lefelau cyfanswm y cyllid ERDF ar draws yr awdurdodau lleol, sy'n amrywio o £17 y pen yn Sir Fynwy i £403 y pen yng Ngwynedd, sy'n adlewyrchu cymhwyster ar gyfer arian Amcan 1. Mae angen gostwng y gwahaniaethau absoliwt yn y cyllid fesul pen ar gyfer treffi bach, a chymharu dosbarthiad perthynol y cyllid ar gyfer treffi bach, ardaloedd trefol ac ymylol eraill a'r ardaloedd gwledig gweddilliol ar draws yr awdurdodau lleol gwledig.

5.22 O'r safbwynt hwn, daw'r amrywiaeth sylweddol rhwng ardaloedd gwledig awdurdodau lleol o ran arwyddocad treffi bach fel safleoedd o fuddsoddi economaidd yn fwyaf amlwg. Yng Ngheredigion, Sir Ddinbych, Gwynedd, Sir Benfro ac Ynys Môn, mae gwerth cyllid ERDF fesul trigolyn a ddyfarnwyd i brosiectau lleoliad sefydlog mewn treffi bach yn uwch o lawer mewn treffi bach na mewn ardaloedd eraill. Ym mhedwar o'r pum awdurdod lleol, nid oes neb o'r boblogaeth yn byw mewn ardaloedd trefol neu drefol ymylol. Dyfarnwyd grantiau ERDF ar gyfer prosiectau lleoliad sefydlog yn Sir Fynwy i drefi bach yn unig; dyfarnwyd gweddill y cyllid ERDF i fentrau heb unrhyw leoliad sefydlog neu a weithredai ar draws safleoedd lluosog. Yn Sir Gaerfyrddin, mae arian y pen ar gyfer prosiectau lleoliad sefydlog mewn treffi bach yn uwch nag yr ardaloedd gwledig gweddilliol ond yn is na mewn ardaloedd trefol a threfol ymylol, ac yng Nghonwy a Phowys mae gwerth y cyllid fesul pen ar gyfer prosiectau lleoliad sefydlog ar ei uchaf mewn ardaloedd gwledig gweddilliol ac ar ei isaf mewn treffi bach.

	Poblogaeth mewn treffi bach (% o'r cyfanswm)	Cyllid ERDF i drefi bach (% o'r cyfanswm)	% y cyllid ERDF ar gyfer prosiectau lleoliad sefydlog i drefi bach
<i>Ardal Amcan 1</i>			
Sir Gaerfyrddin	43,700 25%	£4,561,548 (13%)	26%
Ceredigion	28,181 38%	£10,321,191 (46%)	55%
Conwy	14,459 13%	£912,258 (5%)	5%
Sir Ddinbych	28,523 31%	£9,842,841 (42%)	57%
Gwynedd	65,853 55%	£24,411,571 (52%)	80%
Sir Benfro	63,698 56%	£16,375,504 (63%)	90%
Ynys Môn	31,901 48%	£12,139,924 (60%)	87%
<i>Ardal Amcan 2</i>			

Sir Fynwy	50,773 60%	£1,402,953 64%	100%
Powys	50,745 40%	£1,033,618 11%	37%

Tabl 5.9: Canran poblogaeth y sir sy'n byw mewn trefi bach a % y cyllid ERDF a ddyfarnwyd trwy bartneriaethau sirol i drefi bach yn ardaloedd Amcan 1 ac Amcan 2, 2000 – Rhag 2005. (Poblogaeth yn ôl cyfrifiad 2001)
Ffynhonnell: WEFO a chyfrifiad 2001

	Tref Fach	Ardaloedd trefol arall ac ymylol	Ardaloedd gwledig	Cyfanswm gan gynnwys y sir gyfan
<i>Ardal Amcan 1</i>				
Sir Gaerfyrddin	£104	£139	£61	£202
Ceredigion	£366	-	£179	£299
Conwy	£63	£167	£240	£182
Sir Ddinbych	£345	£120	£38	£238
Gwynedd	£371	-	£121	£403
Sir Benfro	£257	-	£37	£227
Ynys Môn	£381	-	£37	£305
<i>Ardal Amcan 2</i>				
Sir Fynwy	£28	-	-	£17
Powys	£20	-	£26	£111

Tabl 5.10: Gwerth fesul trigolyn y grantiau ERDF a ddyfarnwyd i brosiectau lleoliad sefydlog trwy bartneriaethau sirol dan Amcan 1 ac Amcan 2 Cronfeydd Strwythurol yr UE, 2000 – Rhag 2005. (Poblogaeth yn ôl cyfrifiad 2001).

5.23 Mae gwerth pen y cyllid ERDF ar gyfer prosiectau lleoliad sefydlog hefyd yn amrywio'n sylweddol rhwng gwahanol drefi bach. Ar draws y naw ardal awdurdod lleol sirol, mae deng tref yn amlwg am y safle mwyaf arwyddocaol ar gyfer buddsoddi economaidd o ran grantiau fesul trigolyn (tabl 5.11) (gweler hefyd atodiad L). Yn eu plith y mae dwy o bum tref fwyaf y Gymru wledig (Aberdaugleddau a Bangor) yn ôl diffiniad Pennod 2 a threfi mwyaf of Gwynedd (Bangor), Sir Benfro (Aberdaugleddau) ac Ynys Môn (Caergybi a Llangefni). Mae pob un o'r deng tref mewn awdurdodau lleol gwledig lle mae gwerth fesul trigolyn y cyllid ERDF a ddyfarnwyd i brosiectau lleoliad sefydlog yn uwch o lawer mewn trefi bach na mewn ardaloedd eraill (Sir Ddinbych, Ceredigion, Ynys Môn, Gwynedd a Sir Benfro). Mae'r pum awdurdod hwn hefyd wedi derbyn y lefelau uchaf o gyllid ERDF y pen o ystyried ei werth fesul trigolyn rhwng 2000 a 2005.

Tref	Nifer y grantiau	Cyfanswm gwerth y grantiau	Gwerth y grantiau fesul trigolyn
Llanelwy	2	£8,376,382	£2399.42
Bangor	5	£19,354,434	£1199.90
Aberteifi	6	£4,591,128	£1092.34
Doc Penfro	10	£7,434,480	£856.90
Caergybi	5	£9,567,864	£851.46

Llandysul	3	£902,623	£593.44
Llangefni	4	£2,442,431	£523.90
Aberdaugleddau	5	£6,794,303	£519.20
Blaenau Ffestiniog	3	£1,019,845	£345.71
Tyddewi	2	£616,423	£343.03

Ffigwr 5.6: Trefi sy'n derbyn gwerth uchaf y pen o ran grantiau a ddyfarnwyd gan ERDF ar gyfer prosiectau lleoliad sefydlog trwy bartneriaethau sirol dan Amcan 1 ac Amcan 2 Cronfeydd Strwythurol yr UE, 2000 - Rhag 2005.

Datblygiad Cymdeithasol: Cronfa Gymunedol NLCB

5.24 Mae Cronfa Gymunedol Bwrdd Elusennau'r Loteri Genedlaethol (Cronfa'r Loteri Fawr yn ddiweddarach) wedi dod yn ffynhonnell bwysig ar gyfer buddsoddi cymdeithasol mewn ardaloedd gwledig a threfi bach ers ei lansio ym 1995. Mae'r grantiau a ddyfarnwyd o'r gronfa wedi cefnogi gweithgareddau clybiau a chymdeithasau lleol, trefnu digwyddiadau, gwyliau ac arddangosfeydd, darparu gwasanaethau lles a chyngor i bobl anghenus a hawdd eu niweidio, a datblygu a chynnal a chadw isadeiledd gan gynnwys neuaddau cymunedol a chludiant. Os trefi bach a threfi marchnad yw canolfannau cymdeithasol ac economaidd cefn gwlad Cymru, yna gellir disgwyl y byddai trefi bach yn derbyn cyfran anghymesur o gefnogaeth trwy'r Gronfa Gymunedol.

5.25 Rhwng 1995 a 2005, derbyniodd naw sir graidd y Gymru wledig gyfanswm o 2,592 o ddyfarniadau gan y Gronfa Gymunedol, gwerth dros £71.3 miliwn gyda'i gilydd. O blith y rhain, gwnaed o leiaf 700 o ddyfarniadau i brosiectau a sefydliadau mewn trefi bach a threfi marchnad (yn achos rhyw 200 o ddyfarniadau annigonol yw'r wybodaeth yng nghronfa ddata'r Gronfa Gymunedol i adnabod y lleoliad), gwerth cyfanswm o £17.5 miliwn. Yn ychwanegol, mae trefi bach a threfi marchnad wedi elwa o ychydig o'r £27.5 miliwn a ddyfarnwyd i fentrau heb unrhyw leoliad sefydlog, neu sy'n gweithredu ar wahanol safleoedd, a chaiff llawer o'r rhain eu gweinyddu trwy drefi bach a threfi marchnad.

5.26 Serch hynny, mae newidiadau yng nghyfran y dyfarniadau a'r arian a roddwyd i drefi bach a threfi marchnad rhwng y gwahanol ardaloedd awdurdod lleol (tblâu 5.7 a 5.8), sy'n adlewyrchu fel arfer arwyddocâd ardaloedd trefol ac ymylol yn y sir. Yn Sir Gaerfyrddin, Ceredigion, Conwy, Sir Benfro a Phowys gwnaed mwy o ddyfarniadau go iawn yn sgil ceisiadau gan gymunedau gwledig na threfi bach, ond yn Sir Benfro a Phowys dyfarnwyd cyfanswm uwch o arian i gynlluniau mewn trefi bach.

5.27 At ei gilydd, mae nifer y grantiau a ddyfarnwyd i drefi bach a threfi marchnad y Gymru wledig yn eithaf cymesur â'u harwyddocâd o ran poblogaeth mewn ardaloedd awdurdod lleol. Fodd bynnag, am fod y grantiau a ddyfarnwyd mewn trefi bach yn aml yn uwch o lawer na'r rhai a ddyfarnwyd i brosiectau sydd â lleoliadau mwy gwledig, mae trefi bach wedi tueddu i dderbyn y gyfran fwyaf o'r arian gwirioneddol a ddyfarnwyd gan sir (tbl 5.9). Yn gyffredinol mae gwerth pen y Cronfeydd Cymunedol a dderbyniwyd yn uwch mewn trefi

bach ar gyfer naill ai cymunedau gwledig neu ardaloedd trefol ac ymylol eraill, a hynny'n arwyddocaol ym Mhowys a Cheredigion lle derbyniwyd dros £90 ar gyfartaledd gan y Gronfa Gymunedol am bob trigolyn trefi bach.

	Tref Fach	Ardaloedd trefol ac ymylol eraill	Ardaloedd gwledig	Dim lleoliad sefydlog/ Ar draws y sir	Heb Nodi / anhysbys
Sir Gaerfyrddin	87 (15%)	181 (32%)	223 (40%)	72 (13%)	29
Ceredigion	65 (35%)	- (0%)	82 (45%)	37 (20%)	10
Conwy	15 (10%)	44 (29%)	44 (29%)	49 (32%)	7
Sir Ddinbych	49 (24%)	54 (26%)	44 (21%)	60 (29%)	16
Gwynedd	102 (39%)	- (0%)	97 (37%)	66 (25%)	18
Sir Fynwy	82 (44%)	3 (2%)	57 (31%)	44 (24%)	9
Sir Benfro	98 (35%)	-	134 (48%)	50 (17%)	19
Powys	167 (37%)	14 (3%)	193 (43%)	72 (17%)	74
Ynys Môn	43 (38%)	-	38 (33%)	33 (29%)	11
Cyfanswm – y Gymru wledig	708 (30%)	296 (12%)	912 (38%)	483 (20%)	193

Tabl 5.7: Rhaniad grantiau'r Gronfa Gymunedol a ddyfarnwyd (nifer) fesul sir, 1995-2005.

	Tref Fach	Ardaloedd trefol ac ymylol eraill	Ardaloedd gwledig	Dim lleoliad sefydlog/ Ar draws y sir	Heb nodi / anhysbys
Sir Gaerfyrddin	£1,273,886 10%	£4,393,350 36%	£2,527,468 21%	£4,103,861 33%	£284,420
Ceredigion	£2,484,057 36%	-	£2,656,853 39%	£1,685,544 25%	£241,906
Conwy	£178,668 4%	£1,939,876 38%	£384,865 8%	£2,535,644 50%	£470,867
Sir Ddinbych	£1,120,830 13%	£1,749,763 21%	£485,607 6%	£5,051,043 60%	£977,387
Gwynedd	£3,149,921 35%	-	£2,165,563 24%	£3,789,826 42%	£914,845
Sir Fynwy	£1,069,105 29%	£14,876 <1%	£312,178 9%	£2,257,540 62%	£44,279
Sir Benfro	£2,096,750 42%	-	£1,023,268 21%	£1,853,855 37%	£302,447
Powys	£5,291,325 43%	£232,464 2%	£3,002,220 24%	£3,911,528 31%	£1,347,357
Ynys Môn	£828,930 23%	-	£444,674 12%	£2,342,451 65%	£399,729
Cyfanswm – y Gymru wledig	£17,493,472 26%	£8,330,329 13%	£13,002,696 20%	£27,531,292 41%	£4,983,237

Tabl 5.8 Rhaniad grantiau'r Gronfa Gymunedol a ddyfarnwyd (gwerth) fesul sir, 1995-2005.

	Poblogaeth mewn trefi bach (% o'r cyfanswm)	Dyfarniadau'r Gronfa Gymunedol i drefi bach	Gwerth dyfarniadau Cronfa Gymunedol i drefi bach
Sir Gaerfyrddin	43,700 25%	87 18%	£1,273,886 16%
Ceredigion	28,181 38%	65 44%	£2,484,057 48%
Conwy	14,459 13%	15 15%	£178,668 7%
Sir Ddinbych	28,523 31%	49 33%	£1,120,830 33%
Gwynedd	65,853 55%	102 51%	£3,149,921 59%
Sir Fynwy	50,773 60%	82 58%	£1,069,105 77%
Sir Benfro	63,698 56%	98 42%	£2,096,750 67%
Powys	50,745 40%	167 45%	£5,291,325 62%
Ynys Môn	31,901 48%	43 54%	£828,930 65%

Tabl 5.9: Canran poblogaeth y sir sy'n byw mewn trefi bach a nifer a gwerth dyfarniadau'r Gronfa Gymunedol a dderbyniwyd gan brosiectau a leolwyd mewn trefi bach, 1995 – 2005, fel % o bob dyfarniad gyda lleoliad sefydlog. (Poblogaeth yn ôl cyfrifiad 2001)

Ffynhonnell: Bwrdd Elusennau'r Loteri Genedlaethol a Chyfrifiad 2001

5.28 Mae hefyd llawer o amrywiaeth rhwng trefi unigol o ran nifer y grantiau a dderbyniwyd a maint y cyllid a dderbyniwyd. Roedd gwerth dyfarniadau'r Gronfa Gymunedol y pen yn amrywio o lai na £10 am bob trigolyn mewn nifer o drefi i dros £300 y trigolyn ym Machynlleth (tabl 5.10). Ymddengys fod nifer o ffactorau'n effeithio ar y dosbarthiad hwn. Yn gyntaf, mae trefi sirol a chanolfannau gweinyddol eraill wedi tueddu i ddenu lefelau uwch na'r cyfartaledd o arian am fod gan y trefi hyn gyfleusterau sy'n gwasanaethu'r fro ehangach. Yn ail, mae rhai trefi llai wedi derbyn lefel uchel o arian fesul pen y boblogaeth trwy un neu ddau grant mawr ar gyfer prosiectau isadeiledd, er enghraifft arloesi neuaddau cymunedol. Yn drydydd, mae peth tystiolaeth hefyd fod argaeledd ffynonellau eraill ac effaith mentrau adeiladu gallu cymunedol wrth wella gallu cymuned i wneud cais llwyddiannus am grant yn dylanwadu ar ddsbarthu'r cyllid.

Tref	Nifer y grantiau	Cyfanswm gwerth y grantiau	Gwerth y grantiau fesul trigolyn
Machynlleth	11	£652,500	£303.91
Penygroes	6	£499,856	£282.40
Llandysul	5	£303,560	£199.58
Llanfyllin	10	£266,525	£189.43
Aberaeron	4	£277,344	£182.46
Biwmares	2	£330,988	£162.25
Rhaeadr	8	£295,315	£142.32
Y Drenewydd	33	£1,445,375	£134.09
Trimsaran	4	£327,008	£129.10
Aberteifi	19	£540,488	£128.60

Tabl 5.10: Trefi sy'n derbyn gwerth uchaf y pen o grantiau'r Gronfa Gymunedol, 1995-2005.

D.S.: Poblogaeth yn ôl cyfrifiad 2001. Poblogaeth tref wedi'i chyfrif ar lefel ward, yn unol â diffiniad atodiad A.

5.29 Mae'r ffactor olaf hefyd yn amlwg pan gaiff y trefi a dderbyniodd ran fwyaf grantiau'r Gronfa Gymunedol eu cymharu â'r rhai a dderbyniodd fwyaf yn y naill restr na'r llall o reidrwydd yw trefi mwyaf cefn gwlad Cymru, er bod gan dair o'r trefi yn y deg uchaf boblogaeth o fwy na 15,000 (Aberystwyth, Bangor a Chaerfyrddin). O blith y trefi llai, mae Aberteifi a Chaernarfon ymhlith y deg uchaf ar gyfer y ddau fath o gyllid. Fel arfer, mae derbynwyr mwyaf arian EDRF yn cynnwys llawer o drefi lle mae'r sylfaeni diwydiannol yn dirywio, gan adlewyrchu blaenoriaethau'r rhaglen Amcan 1 wrth gefnogi adfywio economaidd a thargedu eithrio economaidd. Yn ddiddorol, mae derbynwyr mwyaf dyfarniadau'r Gronfa Gymunedol yn cynnwys llawer o drefi ym Mhowys. Mae hyn o bosibl yn adlewyrchiad o'r ffaith fod Powys y tu allan i'r ardal Amcan 1 ac felly roedd y potensial i dderbyn cyllid Ewropeaidd, ynghyd â manteision adeiladu gallu drwy waith datblygu cymunedol tymor hir mewn nifer o drefi Powys.

	Dyfarniadau ERDF, 2000-2005		Dyfarniadau Cronfa Gymunedol, 1995-2005	
1	Bangor	£19,354,434	Y Drenewydd	£1,445,375
2	Caerdybi	£9,567,864	Aberystwyth	£1,270,297
3	Llanelwy	£8,376,382	Bangor	£1,070,257
4	Doc Penfro	£7,434,480	Dinbych	£969,539
5	Aberdaugleddau	£6,794,303	Aberhonddu	£815,964
6	Aberteifi	£4,591,128	Caerfyrddin	£698,756
7	Aberystwyth	£4,443,004	Machynlleth	£652,500
8	Llangefni	£2,442,431	Llandrindod	£633,811
9	Caerfyrddin	£2,287,109	Aberteifi	£540,488
10	Caernarfon	£1,834,447	Caernarfon	£510,910

Tabl 5.11: Cymhariaeth o'r deg tref a dderbyniodd ran fwyaf y dyfarniadau ERDF, 2000-2005, a'r deg a dderbyniodd fwyaf dyfarniadau'r Gronfa Gymunedol, 1995-2005, ymhlith trefi bach y Gymru wledig.

Casgliadau

- 5.30 Mae tystiolaeth mai trefi bach a threfi marchnad yw'r canolfannau ar gyfer datblygiad cymdeithasol ac economaidd yn y Gymru wledig, o leiaf i raddau. Mae trefi bach a threfi marchnad wedi derbyn cyfran uwch o lawer o Gronfeydd Datblygu Rhanbarthol Ewrop dan Amcan 1 ac Amcan 2, a dyfarniadau gan Gronfa Gymunedol Bwrdd Elusennau'r Loteri Genedlaethol, nag y byddai'u cyfran o'r boblogaeth yn ei haeddu fel rheol. Aeth llawer o'r buddsoddiad hwn i brosiectau a mentrau sy'n ehangach o lawer eu cyrraedd na'r dref ei hun, gan gynnwys datblygu isadeiledd corfforol a sefydliadau a leolir yn y trefi ond sydd hefyd yn gwasanaethu'r boblogaeth wledig gyfagos. Mae tystiolaeth o fuddsoddiad sector preifat yn fwy cyfyngedig ac mae'r data sydd ar gael yn awgrymu patrwm daearyddol mwy tameidiog. Mae nifer o drefi wedi elwa o fuddsoddiad sector preifat sylweddol yn y blynyddoedd diwethaf ac mae nifer o swyddi wedi cael eu creu. Eto i gyd, nid oes o reidrwydd unrhyw beth hanfodol unigryw am drefi bach sy'n denu'r buddsoddiad hwn, ac mae rhai o'r buddsoddiadau mwyaf sylweddol wedi'u gwneud i safleoedd cefnwlod, yn debyg i Lanelwy, sy'n cael ei drafod yn y bennod nesaf.

PENNOD 6: ASTUDIAETHAU ACHOS

Cyflwyniad

- 6.1 Mae'r penodau blaenorol wedi dadansoddi nodweddion, deinameg ac amrywiaeth trefi bach a threfi marchnad yn y Gymru wledig yn ôl gwahanol themâu. Yn y bennod hon, rydym yn trawsdorri'r dadansoddiad gydag archwiliad cynhwysol o astudiaeth achos pum tref: Caldicot, Llandeilo, Llandrindod, Llanidloes a Llanelwy. Dewiswyd yr astudiaethau achos ar sail dadansoddiad a amlinellwyd yn y penodau blaenorol. Maent yn drefi sy'n arddangos gwahanol nodweddion a gwahanol ddeinameg, ac sy'n cynrychioli gwahanol gyd-destunau daearyddol y Gymru wledig hefyd.
- 6.2 Roedd yr ymchwil astudiaethau achos yn cynnwys tair elfen o gasglu a dadansoddi data. Yn gyntaf, ymgwymerwyd â dadansoddi ystadegol a dogfennol pellach ar y data a drafodwyd yn y penodau blaenorol ynghyd â'r wybodaeth arall a gyhoeddwyd a dogfennau sy'n benodol i'r astudiaethau achos sydd wedi'u casglu. Yn ail, cynhaliwyd arolwg ffôn o sampl o gyflogwyr ym mhob astudiaeth achos i gasglu data ar gyrraedd gofodol eu cyflogaeth a'u cysylltiadau masnachol. Cysylltwyd ag ugain o gyflogwyr ym mhob astudiaeth achos, a chysylltwyd â chwmnïau cyfatebol ym mhob tref. Samplau arwyddol oeddent, serch hynny, yn hytrach na rhai cynrychiadol ac mae'r data yn yr un modd yn eglurebol heb fod yn ddigon cadarn i roi ystadegau cyfansymiol ar gyfer y trefi. Am resymau cyfrinachedd, ni chyflwynwyd set ddata'r arolwg yn llawn yn yr adroddiad hwn. Yn olaf, cynhaliwyd cyfweiliadau ffôn ag unigolion allweddol i archwilio pynciau sy'n ymwneud â deinameg gymdeithasol ac economaidd y dref a'i pherthynas â'i chefnwlad a'r trefi cyfagos.

Llandrindod

- 6.3 Mae perthynas Llandrindod â'i chefnwlad wledig yng nghanolbarth Cymru yn seiliedig ers tro ar ei swyddogaeth hanesyddol fel tref sirol a thref farchnad hen Sir Faesyfed. Yn draddodiadol, byddai trigolion o gymunedau mor bell â Chleirwy yn ne-ddwyrain yr hen sir yn teithio i Landrindod fel eu tref farchnad yn hytrach nag i drefi a oedd yn nes fel Y Gelli oherwydd cryfder cysylltiadau sirol. Lleihaodd y cysylltiadau pellaf hyn yn fwy diweddar yn sgil cystadleuaeth gan ganolfannau mwy eu maint a mwy hygyrch, gan gynnwys Aberhonddu, Y Drenewydd a Henffordd ond, er 1974, mae Llandrindod hefyd wedi ennill arwyddocâd ehangach fel canolfan weinyddol Cyngor Sir Powys.
- 6.4 Adlewyrchir arwyddocâd sector gweinyddiaeth gyhoeddus Llandrindod gan strwythur cyflogaeth y dref, lle caiff galwedigaethau rheoli a galwedigaethau proffesiynol eu gorgynrychioli o'u cymharu â Phowys yn ei chyfanrwydd (tabl 6.1). Mae hyn yn arbennig o wir yn achos galwedigaethau rheoli a galwedigaethau proffesiynol, sef mwy na chwarter yr holl swyddi yn y dref. Yn ogystal â swyddfeydd Cyngor Sir Powys, sy'n cyflogi 250 o bobl yn Llandrindod, mae'r dref yn gartref i swyddfeydd Llywodraeth Cynulliad Cymru, ynghyd â swyddfeydd llai ar gyfer nifer o asiantaethau eraill y sector cyhoeddus, gan gynnwys Gwasanaeth Prawf Dyfed Powys, a sefydliadau

perthynol, gan gynnwys Cymdeithas Tai Canolbarth Cymru. Mae presenoldeb y sefydliadau hyn yn y dref yn rhannol yn rhinwedd ei swyddogaeth ynghanol Cymru a'u diben, yn hytrach na gwasanaethu'r gefnwlad uniongyrchol, yw gweithredu o Landrindod fel canolfan is-ranbarthol. Mae cyflogwyr sector cyhoeddus eraill sylweddol yn y dref yn cynnwys yr ysbyty, ysgolion a Choleg Powys, sydd â rhyw 50 o weithwyr cyflogedig yn y dref. Yn gyfan gwbl, mae tua 40 o'r 270 o unedau sydd wedi'u cofrestru ar gyfer TAW yn ymwneud â gweinyddiaeth gyhoeddus, ac mae 10 arall yn ymwneud ag iechyd a rhyw 5 ag addysg.

	Llandrindod		Powys	
Cyflogwyr mawr a swyddi rheoli uwch	114	3.0%	1328	2.5%
Proffesiynol uwch	223	5.8%	2505	4.7%
Rheoli is a phroffesiynol	1103	28.6%	11268	21.1%
Canolig	589	15.3%	4948	9.3%
Cyflogwyr llai a gweithwyr ar eu liwt eu hunain	316	8.2%	12545	23.5%
Goruchwylwyr is a galwedigaethau technegol	279	7.2%	5145	9.6%
Galwedigaethau lled arferol	637	16.5%	8142	15.3%
Galwedigaethau arferol	466	12.1%	6097	11.4%
Heb eu rhestru	125	3.2%	1388	2.6%


Tabl 6.1: Galwedigaethau gweithwyr cyflogedig yn Llandrindod o gymharu â'r gweithwyr a gyflogwyd ym Mhowys yn ei chyfanrwydd.
Ffynhonnell: Y Swyddfa Ystadegau Gwladol (Cyfrifiad 2001)

- 6.5 Ynghyd â'i swyddogaeth weinyddol, mae gan Landrindod dreftadaeth fel pen taith i dwristiaid hefyd sy'n dyddio yn ôl i ddyfodiad y rheilffordd a manteisio ar y dyfroedd spa yn y 1860au. O'r herwydd mae'r dref wedi hen fwynhau cyrraedd gofodol o ran masnach sydd wedi ymledu y tu hwnt i'r ardal wledig uniongyrchol i ymwneud â marchnadoedd cenedlaethol a rhyngwladol. Er bod y dref wedi parhau i ddenu ymwelwyr, gan adeiladu ar ei hetifeddiaeth fel tref spa a'i lleoliad gwledig drwy ddigwyddiadau fel yr Wyl Fictoraidd flynyddol. Cynhaliwyd y sector gwestai a lletygarwch gan fasnach gynadledda lewyrchus, sy'n elwa unwaith eto o leoliad canolog Llandrindod yng Nghymru. Mae Gwesty'r Metropole yn cyflogi tua 85 o staff yn y dref, a gwesty llai'r Commodore yn cyflogi tua 15 o staff. Mae'r ddau'n denu hyd at 10% o'u masnach oddi wrth ymwelwyr tramor a rhyw 10% gan gwsmeriaid lleol, gyda chydbwysedd gan gwsmeriaid o fannau eraill yn y DU. Mae'r ddau'n hysbysebu'n rhanbarthol ac yn genedlaethol. Datblygiad diweddar pellach yn sector twristiaeth yw sefydlu'r Amgueddfa Genedlaethol Beiciau yng nghanol y dref.
- 6.6 Nid yw busnesau cynhyrchu ond yn rhyw 15 o'r 270 o unedau sydd wedi'u cofrestru ar gyfer TAW yn Llandrindod. Mae'r cyflogwr diwydiannol mwyaf, Setten a Durward, yn cyflogi rhyw 230 o bobl yn y dref, ac mae 95% o'r rhain yn byw'n lleol. Mae'r cwmni, fodd bynnag, yn gwneud ychydig iawn o fusnes yn lleol. Lleolir bron tri chwarter o'u cwsmeriaid a 90% o'u cyflenwyr y tu allan i'r ardal leol ym Mhrydain, a lleolir 21% o'u cwsmeriaid ac 8% o'u

cyflenwyr y tu allan i Brydain. Cyfrifir bod y prif gwmni, Setten Holdings Ltd., sydd hefyd wedi ei gofrestru yn Llandrindod, yn 263ain cwmni mwyaf Prydain ar sail ei drosiant, a dywedwyd bod ganddo gyfanswm o 304 o weithwyr (*Western Mail*, 2005). Tuedda mentrau diwydiannol a chysylltiedig eraill fod yn llai eu maint ac fe'u ceir yn bennaf ym Marc Menter Dole a Pharc Busnes Calon Cymru sydd newydd ei ddatblygu.

- 6.7 At ei gilydd, mae Llandrindod yn darparu dros 3,800 o swyddi, sef 1.86 gwaith ei phoblogaeth weithio a thri chwarter yr holl swyddi mewn radiws o ddeng milltir, a phedair o bob deg swydd yn ei dalgylch teithio-i'r-gwaith. O'r herwydd, mae Llandrindod yn dibynnu ar fewnlifiad mawr o gymudwyr. Mae dros dri chwarter y trigolion sy'n gweithio'n teithio llai na 2 gilometr i'w lle gwaith, sy'n awgrymu bod y mwyafrif yn gweithio yn y dref - sef graddfa uchel iawn o gyflogaeth leol a'r canlyniad yw bod cymudo allan o Landrindod i weithio'n gyfyngedig. Mae bron i bum gwaith cymaint o bobl yn cymudo i Landrindod i weithio ag sy'n cymudo allan o'r dref, 2250 i 470. Daw rhyw hanner o'r gweithlu o'r dref neu o fewn 5 cilometr, ond mae Llandrindod hefyd yn denu cymudwyr oddi wrth ardal helaeth iawn yng nghanolbarth Cymru a ffin Lloegr (ffigwr 6.1). Mae un o bob chwe gweithiwr yn cymudo o'r dref o 10 i 20 cilometr y tu allan i'r dref, sef ardal sy'n cynnwys Llanfair ym Muallt, Rhaeadr, Llanbister a Maesyfed Newydd; ac mae 6% yn teithio rhwng 40 a 50 cilometr i weithio, sef pellter sy'n cyrraedd Henffordd, Llanllieni, Llwydlo, Y Trallwng ac Aberystwyth. Mae arolwg cyflogwyr lleol yn awgrymu bod gweithwyr mewn gweithleoedd sector cyhoeddus yn fwy tebygol o gael eu denu o ardal ehangach, gyda rhyw chwarter o weithwyr Cyngor Sir Powys yn Llandrindod yn byw mwy na 10 cilometr y tu allan i'r dref o'u cymharu â 5% o weithwyr cyflogedig Setten a Durward.
- 6.8 Mewn cyferbyniad, mae llai na chwarter trigolion Llandrindod yn cymudo allan o'r dref i weithio, ac mae bron hanner y rhai sy'n gwneud yn gweithio o fewn 20 cilometr i'r dref. At ei gilydd, mae un o bob deng trigolyn yn gweithio yng nghefnwlad y dref hyd at 20 cilometr, er bod nifer y cyflogwyr sylweddol yn yr ardal hon yn gymharol fach - melin lifio BSW Timber, a sefydlwyd ym 1981 ac sy'n cyflogi tua 100 o bobl, yw'r amlycaf. Yn 2005, rhoddwyd caniatâd cynllunio i BSW Timber estyn cyfleusterau ar y safle fel rhan o fuddsoddiad gwerth £15 miliwn a fyddai'n creu 20 swydd newydd. Mae llai nag un o bob deg o drigolion Llandrindod yn cymudo pellter sylweddol i weithio yn unrhyw un o'r trefi cyfagos mwy - sef Y Drenewydd, Aberhonddu neu Henffordd.
- 6.9 Gwnaeth cydlynnydd Ymddiriedolaeth Tref Spa Llandrindod y sylw canlynol fodd bynnag: 'Mae gennym bobl sy'n dod i weithio yma o bob man, ond mae gennym bobl hefyd sy'n gadael i weithio ym mhob man.' Mae gan y dref drosiant uchel o drigolion iau - Roedd gan ddwyrain/gorllewin Llandrindod raddfa o ymfudo i mewn o 386 am bob 1000 o drigolion yn y rhychwant oedran 15-24 flwyddyn cyn cyfrifiad 2001 a'r un faint yn union o raddfa ymfudo allan ar gyfer yr un rhychwant oedran, sef un o'r graddfeydd uchaf y tu allan i'r trefi prifysgol. Mae argaeledd tai cymharol fforddiadwy, gan gynnwys tai ar rent mewn cyn-westai a lletyau, yn helpu i ddenu ymfudwyr iau. Eto i gyd, er gwaetha'i arwyddocâd lleol, marchnad lafur gyfyngedig yw

Llandrindod o hyd, ac yn aml y mae'n rhaid i bobl ifanc symud allan er mwyn dod o hyd i gyflogaeth briodol, hirdymor.



Ffigwr 6.1: Tarddiad gweithwyr a gyflogir yn Llandrindod yn ôl y pellter a deithir i'r gwaith, 2001.

- 6.10 Mae argaeledd llety ar rent cymharol fforddiadwy yn Llandrindod hefyd wedi denu 'ymfudwyr lles', sef aelwydydd sy'n ddibynnol ar fudd-daliadau'r wladwriaeth sydd wedi symud i'r dref oherwydd ansawdd y bywyd yno a chostau byw. Mae'r ymfudo lles hwn wedi cyfrannu at gynnal nifer gymharol sefydlog o bobl sy'n hawlio Lwfans Ceisio Gwaith yn Llandrindod ar adeg pan fo nifer y rhai sy'n hawlio wedi gostwng yn gyffredinol.
- 6.11 At ei gilydd, y duedd o ran newid ym mhoblogaeth Llandrindod yw twf sy'n arafu. Dilynwyd cynnydd yn y boblogaeth o 13.1% rhwng 1981 a 1991 gan gynydd llai o lawer o 2.6% rhwng 1991 a 2001. Cyfyngwyd ar y tai newydd a adeiladwyd yn ddiweddar ac mae'r dref wedi'i chynnwys yn bennaf oddi mewn i'w ffiniau cymunedol. Mewn cyferbyniad, roedd twf poblogaeth yn yr holl wardiau gwledig cyfagos yn fwy na 5% rhwng 1991 a 2001, gyda

chynnydd o fwy na 15% yn yr ardal wledig i'r dwyrain o'r dref. Fodd bynnag, cymharol fach yw poblogaeth Sir Faesyfed o hyd, gyda dwysedd isel o ran poblogaeth ac mae absenoldeb poblogaeth dalgylch sylweddol yn cyfyngu ar gyfleoedd ar gyfer twf economaidd yn Llandrindod.

- 6.12 Mae swyddogaeth gwasanaeth Llandrindod, er enghraifft, yn parhau i wyro'n drwm tuag at weithgareddau'r sector cyhoeddus. Yn ogystal â swyddfeydd y cyngor sir, mae gan y dref ysgol uwchradd, canolfan ddydd, llyfrgell gyhoeddus, gorsaf heddlu, coleg addysg bellach, ysbyty a llys ynadon, a phob un yn gwasanaethu ardal wledig eithaf estynedig o gwmpas y dref. Disgwylir theatr, canolfan ddrama, canolfan ddawnsio, canolfan ieuenctid, canolfan chwaraeon a gwahanol gyfleusterau chwaraeon i wasanaethu cymunedau lleol cyfagos lleol yn ogystal â'r dref hefyd. Fodd bynnag, nid oes ganddi swyddogaethau lefel uwch sy'n gysylltiedig fel arfer â phrif dref sir, gan gynnwys llys sirol a phencadlys adrannol yr heddlu. Nid oes gan yr ysbyty uned ddamweiniau ac achosion brys ychwaith, ac mae'r unedau agosaf yn Aberystwyth a Henffordd, sef y lleoliadau agosaf ar gyfer llawer o'r gwasanaethau ysbytai i gleifion preswyl.
- 6.13 Mae gwasanaethau masnachol yn y trefi, yn ogystal, yn tueddu i fod yn fusnesau llai lefel is. Roedd gan y dref hyd yn ddiweddar ddwy archfarchnad fach, Somerfield a Kwiksave. Caeodd siop Kwiksave yng ngwanwyn 2006, ond disgwylir iddi ailagor fel archfarchnad Aldi. Yr agosaf o gadwyni archfarchnad mawr, fodd bynnag, yw Morrisons yn Y Drenewydd, sef 19 cilometr i ffwrdd. Mae gan yr archfarchnad hon a'i chwaer archfarchnad yn Aberhonddu effaith o ran denu ychydig fasnach oddi wrth Landrindod. Hyd yn hyn, nid yw'r dref wedi denu canolfan fanwerthu bwrpasol y tu allan i'r dref, a chyfyngedig yw cynrychiolaeth y cadwynau cenedlaethol mawr yn y dref. Awgryma ein harolwg o fusnesau lleol mai busnesau bach yw'r mwyafrif â llai na deg o weithwyr, a bod llawer yn gwmnïau lleol annibynnol. Ar yr un pryd, amrywiodd cwmnïau'n fawr o ran eu dibyniaeth leol, a nododd nifer fod 40% neu fwy o'u cwsmeriaid y tu allan i'r ardal leol. Yn yr un modd, cafodd y rhan fwyaf o'r busnesau a arolygwyd leiafswm bach yn unig o'u cyflenwadau yn yr ardal leol.
- 6.14 Mae Cynllun Datblygu Unedol Drafft Powys yn nodi bod 12.47 hectar ar draws pum safle yn y dref ar gyfer datblygu tai yn y dyfodol, a bod pedwar safle ar gyfer datblygu sy'n gysylltiedig â chyflogaeth, gan gynnwys yr ardal sy'n cael eu datblygu ar hyn o bryd gan Awdurdod Datblygu Cymru fel Parc Busnes Calon Cymru. Serch hynny, ymddengys fod buddsoddiad economaidd yn Llandrindod yn llai na mewn llawer o'r canolfannau allweddol eraill yn y Gymru wledig. Ac eithrio cyfran grant i Rwydwaith Diwydiant Cynhyrchu Canolbarth Cymru, a oedd hefyd yn cynnwys busnesau yn Y Drenewydd, Machynlleth a'r Trallwng, nid yw'r dref wedi derbyn buddsoddiad uniongyrchol gan Gronfeydd Datblygu Rhanbarthol Ewrop dan Amcan 2 ar gyfer prosiectau lleoliad sefydlog. Cafwyd mwy o lwyddiant, fodd bynnag, wrth gael cyllid gan y Gronfa Gymunedol, a dyfarnwyd dau ar bymtheg o grantiau er 1995, sef cyfanswm o £633,811. Mae'n arwyddocaol i nifer o'r dyfarniadau fod ar gyfer prosiectau a leolwyd yn Llandrindod ond sydd wedi gwasanaethu'r boblogaeth ehangach. Yn eu plith mae Cymryd Rhan, y

dyfarnwyd £370,304 iddo yn 2000 i greu cyfle profiad gwaith i bobl ag anabledau dysgu, a £81,640 a ddyfarnwyd ar ffurf dau grant i Gymorth Menywod Sir Faesyfed.

- 6.15 Mae'r llwyddiant i ennill arian y Loteri'n adlewyrchu profiad ehangach o weithredu'n lleol a gweithio mewn partneriaeth yn y dref. Ailwampwyd y Parc Creigiau hanesyddol yn y dref yn sgil gwaith partneriaeth, ac mae gwaith partneriaeth rhwng cyngor y dref, y cyngor sir a fforwm busnesau wedi galluogi cyflogi swyddog adfywio ar gyfer y dref. Yn ddiweddar, estynnwyd yr ymagwedd bartneriaeth i weithio gyda chymunedau cyfagos trwy Fforwm Cymunedol Dyffryn Ithon.

Llanidloes


- 6.16 Lleolir Llanidloes 25 cilometr i'r gogledd-gogledd-ddwyrain o Landrindod ac i raddau mae'n rhan o gylch dylanwad Llandrindod, ond mae ganddi hefyd hanes hir o fod yn dref farchnad a thref ddiwydiannol annibynnol. Yn benodol, yn hanesyddol Llanidloes oedd canolfan leol cymunedau gwasgaredig gwledig a thyddynnod Clywedog, Trannon ac uchelfannau dyffryn Hafren, ac y mae nifer o'r rhain yn rhan o gymuned Llanidloes allanol. I'r gogledd a'r dwyrain, fodd bynnag, mae Llanidloes yn cystadlu â chanolfannau mwy'r Drenewydd a Llandrindod fel ffynhonnell gyflogaeth a gwasanaethau ar gyfer cymunedau fel Llandinam a Phant-y-dwr.
- 6.17 Bach a thenau eu poblogaeth yw cymunedau Clywedog, Trannon ac uchelderau dyffryn Hafren, fodd bynnag. Cyfanswm poblogaeth y tair ardal cyngor cymuned sy'n cynnwys y gefnwlad wledig hon, sef Llanidloes Allanol, Llangurig a Trefeglwys yw ychydig dros 2,000 o drigolion, ac mae gan Landinam boblogaeth o ychydig dros 1,000. Cyfyngedig felly yw poblogaeth cefnwlad wledig Llanidloes, gan gyfyngu ar unrhyw gyfle o weld twf yn y dref. Arhosodd poblogaeth Llanidloes yn sefydlog yn ystod y 1980au sef tua 2,500 a chynyddodd 9.2% rhwng 1991 a 2001 i ychydig dros 2,800.
- 6.18 Tardda treftadaeth ddiwydiannol Llanidloes yn ôl i ddatblygiad diwydiant nyddu bywiog yn yr unfed ganrif ar bymtheg a'r sylfaen ddiwydiannol yn arallgyfeirio'n ddiweddarach at farcio a gwaith metel cyn dirywio ar ddiwedd yr ugeinfed ganrif. Caeodd prif gyflogwr y dref, ffatri elfennau ceir KTH yn 2003 gyda cholled 240 o swyddi, a hynny ar ôl diswyddo 200 yn 2001 pan wrth-drowyd penderfyniad blaenorol i gau'r ffatri yn dilyn ymgyrchu'n lleol. Roedd cau'r ffatri'n ergyd arbennig o drom gan ei bod yn cael ei hystyried yn ffynhonnell gyflogaeth a oedd yn talu'n dda mewn economi o gyflogau isel, a byddai'r gweithwyr yn ennill hyd at £850 yr wythnos. Ni achosodd cau'r ffatri ddiweithdra sylweddol yn Llanidloes, serch hynny, ond y canlyniad yw bod llawer o drigolion yn teithio ymhellach i'r gwaith. Fel y sylwodd clerig y dref,

“Mae'n golygu bod rhaid i bobl gymudo ymhellach ac ymhellach. Bydd rhai'n mynd cyn belled â lleoedd fel Llanllieni sy'n awr ac ugain munud o daith oddi yma. Nid oes llawer o ddiweithdra yn y dref, felly mae'n ymddangos bod pobl yn

dymuno gweithio mewn gwirionedd ac yn barod i deithio er mwyn dod o hyd i waith.”

Clerc Tref Llanidloes (cyfweliad)

6.19 Mae ffigurau cyfrifiad 2001 yn dangos bod eisoes patrwm arferol o gymudo o Lanidloes cyn i KTH gau, ond nad oedd hyn mor amlwg ag ydoedd mewn llawer o drefi bach eraill. Yn wir, ar yr adeg honno, roedd bron yr un nifer yn union o bobl wedi'u cyflogi gan weithleoedd y dref ag oedd o bobl mewn gwaith a oedd yn byw yn y dref (1260 o'u cymharu â 1272), ac roedd bron chwech o bob trigolyn mewn gwaith yn gyflogedig yn y dref. Ymhlith y 500 o drigolion neu fwy sy'n teithio tu allan i'r dref i weithio, mae'r gyfran uchaf yn cymudo i'r Drenewydd, a nodwyd bod ffatri Laura Ashley yn enwedig yn gyflogwr mawr (Ffigwr 6.2). Dim ond 4% sy'n teithio i'r gwaith yng nghefnwlad uniongyrchol y dref, gan gynnwys ffatri prosesu bwyd Hamer International yn Nolwen, sy'n cyflogi tua 100 o bobl.



Ffigwr 6.2: Y pellter a deithiwyd i'r gwaith gan drigolion Llanidloes sy'n gweithio, 2001

- 6.20 Adlewyrchir llif cymudwyr allan o Llanidloes gan lif y cymudwyr i mewn i'r dref, ac eithrio'r ffaith bod y pellterau a deithir yn fyrrach. Llenwir tua 59% o'r swyddi gan bobl sy'n byw yn y dref, ond mae 15% o weithlu'r dref yn teithio i mewn, a hynny hyd at 10 cilometr yn y gefnwlad. Mae 16% pellach yn cymudo rhwng 10 ac 20 cilometr oddi wrth aneddiadau gan gynnwys Y Drenewydd. Busnesau bach yw'r cyflogwyr yn Llanidloes gan mwyaf: mae gan 90% o'r unedau lleol a gofrestrwyd ar gyfer TAW yn Llanidloes a'i chefnwlad lai na phum gweithiwr cyflogedig a dim ond 3% sydd â mwy na deng gweithiwr cyflogedig. Serch hynny, mae nifer o unedau diwydiannol bach seiliedig ar grefftiau ar safleoedd sy'n cynnwys gweithdai'r orsaf ac Ystad Fusnes Parc Hafren sy'n cael ei datblygu ar yr ymyl. Mae'r cyflogwyr eraill yn cynnwys swyddfeydd Ymddiriedolaeth y Coetir a Chyngor Stiwardio'r Goedwig, gwestai a gwerthwyr, a gweithleoedd sector cyhoeddus gan gynnwys ysgolion cynradd ac uwchradd a'r ysbyty (sy'n cyflogi 70 o bobl).
- 6.21 Fel canolfan wasanaethau, mae Llanidloes yn cynnal ystod ehangach o gyfleusterau sector cyhoeddus nag y byddai ei maint a'i hagosrwydd at Y Drenewydd yn ei awgrymu ar yr olwg gyntaf, gan gynnwys ysbyty gymunedol (sydd hefyd yn gwasanaethu Caersws a Rhaeadr), ysgol gynradd (y mae ei dalgylch yn ymestyn hyd at 15 cilometr) ac ysgol uwchradd, llyfrgell, gorsaf heddlu, meddygfa, canolfan ddydd a chanolfan gymunedol. Mae gan y dref amrywiaeth o siopau lleol, gan gynnwys archfarchnad Somerfield, sy'n dibynnu i ryw raddau ar drigolion cymunedau gwledig cyfagos lle mae'r cyfleusterau'n gyfyngedig iawn yn siopa yno. Serch hynny, mae cystadleuaeth oherwydd yr amrywiaeth helaethach o gyfleusterau siopa sydd ar gael yn Y Drenewydd, Aberystwyth ac Amwythig.
- 6.22 O'r herwydd, mae canolfan fasnachol Llanidloes hefyd yn ddibynnol ar fasnach allanol, gan gynnwys twristiaid a datblygiad marchnadoedd dethol. Llanidloes oedd lleoliad siop gyntaf Laura Ashley ac mae'r siop yn dal i ddenu cwsmeriaid i'r dref. Mae'r gwerthwyr celfi Hafren Furnishers yn hysbysebu ar raddfa ranbarthol ac yn denu cwsmeriaid o bob cwr o ganolbarth Cymru. Ceir hefyd nifer o orielau crefftiau bach, siopau hen bethau a gwerthwyr arbenigol tebyg sy'n manteisio ar y diwydiant twristiaid. Mae datblygu gwahanol ganolfannau gweithgareddau dan do yn y gefnwlad hefyd wedi helpu datblygu marchnad ddethol sy'n dod â masnach i'r dref.
- 6.23 Mae isadeiledd gwasanaethau Llanidloes, fodd bynnag, yn fregus o hyd a chynhaliwyd nifer o ymgyrchoedd lleol yn ystod y blynyddoedd diwethaf i atal cyfleusterau penodol rhag cau. Yn ogystal â'r ymgyrch lwyddiannus yn wreiddiol a ohiriodd gau ffatri KTH am ddwy flynedd, mae gweithredwyr lleol wedi ymgyrchu'n llwyddiannus yn erbyn cynlluniau i gau'r ysbyty a siop Laura Ashley ac maent wrthi ar hyn o bryd yn ymgyrchu o blaid gofal ambiwlans 24-awr. Adlewyrchir y gallu hwn i weithredu'n lleol gan gryfder y gweithgarwch adfywio yn y dref sydd dan arweiniad y gymuned. Derbyniodd Llanidloes gymorth gan Fenter Trefi Marchnad Bwrdd Datblygu Cymru Wledig rhwng 1996 a 2000, ac ariennir cwmni adfywio lleol, LLANI, ar hyn o bryd gan Becyn Offer Awdurdod Datblygu Cymru. Derbyniwyd mwy na £300,000 gan y Gronfa Gymunedol ar gyfer prosiectau yn y dref er 1995, gan

gynnwys £107,628 ar gyfer Canolfan Adnoddau Llanidloes sy'n fan gwybodaeth ac yn gyfleuster ar gyfer amrywiaeth eang o weithgareddau cymunedol lleol, gan gynnwys undeb credyd a chynllun cludiant cymunedol. Mae gan nifer o'r mentrau orchwyl sy'n cynnwys yn benodol y gefnwlad wledig, er i unigolyn a oedd yn ymwneud â gweithgareddau adfywio sylwi ei bod yn anos ei chyrraedd a thanio dychymyg pobl y tu allan i'r dref.

- 6.24 Yn sgil cau ffatri KTH yn 2003, sefydlodd Cyngor Tref Llanidloes Dasglu Llanidloes, sy'n cynnwys cynrychiolwyr o amrywiaeth o sefydliadau lleol ac asiantaethau rhanbarthol a chenedlaethol gan gynnwys Awdurdod Datblygu Cymru. Arolygodd y Tasglu y gwaith o lunio Cynllun Adfywio sy'n amlinellu gweledigaeth ar gyfer y dref:

“Gweddnewid Llanidloes yn ganolbwynt gwledig ar gyfer busnesau a chyflogaeth arloesgar ac uchel eu gwerth yng nghalon Canolbarth Cymru, yn dref sydd wedi ei galluogi â'r band eang sy'n dathlu ac yn cynnal ei threftadaeth, cymuned lewyrchus sy'n annog pobl ifanc i aros ac yn denu pobl fusnes i fwynhau cymysgedd eithriadol o gyfleoedd economaidd ac ansawdd bywyd.”

(Cynllun Adfywio Llanidloes, 2003)

- 6.25 Mae'r Cynllun Adfywio'n cynnwys pum rhaglen weithredu: (1) Darparu Cyfleoedd Busnes Newydd; (2) Creu Economi Band-Eang; (3) Ehangu'r Arlwy Dwristaidd Leol; (4) Cefnogi Busnesau a Datblygu Sgiliau; a (5) Adfywio'r Gymuned. Cymeradwywyd y cynllun gan y Gweinidog dros Ddatblygu Economaidd a chaiff ei gefnogi gan Lywodraeth Cynulliad Cymru.
- 6.26 Ymhlith y prosiectau penodol yr ymgwymerwyd â nhw fel rhan o'r Cynllun Adfywio mae adeiladu ffordd fynediad newydd, wedi'i hariannu gan £2.4 miliwn o Lywodraeth Cynulliad Cymru, a fydd yn cysylltu â pharc busnes technoleg uchel newydd ar safle ffatri KTH, sy'n anelu at ddarparu unedau darbodus o ran ynni ar gyfer busnesau mewn amrywiaeth o sectorau gan gynnwys amaeth-fwyd a TGCh. Ymhlith camau eraill, mae hyrwyddo Llanidloes fel cyrchfan i dwristiaid, gyda chefnogaeth grant gwerth £125,000 gan Swyddfa Cyllid Ewropeaidd Cymru i LLANI Ltd., a throi'r gyfnewidfa ffôn ar frys er mwyn hwyluso cysylltiadau band-eang erbyn dechrau 2004.

Caldicot

- 6.27 Caldicot yw'r wythfed fwyaf o 'trefi bach' y Gymru wledig a nodir gan yr adroddiad hwn, ond datblygiad cymharol ddiweddar yw ei thrawsffurfiad o fod yn bentref i fod yn dref. Symbylwyd datblygiad yr aneddiad tua diwedd y bedwaredd ganrif ar bymtheg gan sefydlu gwaith gwifrau ym 1862 (a newidiwyd yn ddiweddarach yn ffatri dunplat) ac agor Iardiau Rheilffordd Cyffordd yr Hafren ym 1886, ond ar ôl yr Ail Ryfel Byd yn unig y gwelodd


Caldicot gyfnod o dwf cyflym fel anheddiad ar gyfer gwaith dur newydd ddeng cilometr i'r gorllewin i'r dref. Dyblodd poblogaeth Caldicot rhwng 1961 a 1971 a chynyddu eto 37% hyd 1981 (tabl 6.2). Er 1981, mae poblogaeth ardal cyngor y dref wedi lleihau ychydig, er bod pentref Portskewett - sydd wedi ymuno â'r dref i bob pwrpas ac sy'n cael ei chynnwys fel tref at ddibenion yr adroddiad hwn - wedi parhau i gynyddu mewn poblogaeth. Yn 2001, roedd gan ardal drefol ddwys Caldicot boblogaeth o 11,594, ac roedd 9,705 o'r rhain yn byw yng nghymuned Caldicot ei hun.

Blwyddyn	Poblogaeth	Newid dros ddegawd
1851	661	-
1901	1,196	-
1951	1,770	-
1961	3,351	+89.3%
1971	7,309	+118.1%
1981	10,044	+37.4%
1991	9,785	-2.6%
2001	9,705	-0.8%

Tabl 6.2: Poblogaeth cymuned Caldicot, 1851-2001


- 6.28 Mae'r cyswllt rhwng Caldicot a gwaith dur Llanwern wedi golygu bod Caldicot wedi bod yn dref y mae pobl wedi cymudo wrthi i'r gwaith mewn mannau eraill erioed, yn hytrach na thref sydd wedi denu gweithwyr o gymunedau cyfagos. Roedd hyn yn parhau i fod yn wir hyd yn oed ar ôl cau gwaith Llanwern yn 2001, gyda thrigolion bellach yn cymudo i amrywiaeth ehangach o gyrchfannau. Mae lleoliad y dref ar brif lein y rheilffordd o Gaerdydd i Fryste a'i hagosrwydd at y M4 a'r M48 yn ei gwneud yn gyrhaeddadwy ar gyfer cymudo i Gaerdydd, Casnewydd, Casgwent a Bryste ac ategwyd y tueddiad hwn gan wahaniaeth o ran prisiau tai. Nododd erthygl mewn papur newyddion ym mis Ionawr 2006, er enghraifft, fod prisiau tai cynyddol yng Nghas-gwent yn annog darpar brynwyr i brynu yn Caldicot a chymudo. Ar gyfartaledd, pris tai pâr a werthwyd yn Caldicot yn ystod chwarter olaf 2005 oedd £150,142 o gymharu â £165,361 yng Nghas-gwent.
- 6.29 Ar adeg cyfrifiad 2001, roedd llai na phedwar o bob deg o boblogaeth weithio Caldicot yn gweithio yn y dref a 3,300 o drigolion yn cymudo allan o'r dref i weithio. Teithiodd ychydig yn llai na degfed ran o'r trigolion a oedd yn gweithio rhwng 5km a 10km i'r gwaith, sef pellter sy'n cynnwys Cas-gwent a Magwyr; a theithiodd bron chwarter rhwng 10km a 20km, sef pellter sy'n cynnwys Casnewydd, Bryste ac, ar adeg y cyfrifiad, gwaith dur Llanwern (Ffigwr 6.3).
- 6.30 Dangosodd y cyfrifiad fod bron dwywaith cymaint o bobl wedi cymudo allan o Caldicot i weithio ag a oedd yn cymudo i mewn i'r dref. Byddai'r 3,700 o swyddi yn Caldicot yn ddigon i gyflogi bron tri chwarter o boblogaeth weithio'r dref, ond dim ond ychydig yn fwy na hanner y bobl sy'n gweithio yn Caldicot sy'n byw yn y dref. Mae pumed ran arall ohonynt yn cymudo i mewn o ryw 10 cilometr, gan gynnwys Cas-gwent a chymunedau Caerwent, Cogiet, Magwyr a Gwndy. Mae dros chwarter gweithlu'r dref yn teithio mwy na 10 cilometr i'r gwaith (Ffigwr 6.4). O'r herwydd, er bod mwyafrif y cymudwyr allan yn amlwg ym mhroffil

cyflogaeth Caldicot, efallai ei bod yn gywirach lleoli'r dref mewn maes cymudo amlgyfeiriad cymhleth sydd hefyd yn cynnwys Casnewydd, Cas-gwent a hyd yn oed Bryste na'i disgrifio'n unig fel tref breswyl.



Ffigwr 6.3: Pellter a deithir i'r gwaith yn ôl trigolion Caldicot sy'n gweithio, 2001.

6.31 Ymhlith cyflogwyr mawr Caldicot mae Mitel Networks Ltd, 58fed cwmni mwyaf Cymru sy'n cyflogi rhyw 600 o bobl; grwp St Regus Paper sy'n cyflogi 140 o staff ym Melin Bapur Sudbrook yn union y tu allan i'r dref; a Corus Distribution sy'n cyflogi 65 o staff ar ei safle ar Ystad Ddiwydiannol Pont yr Hafren. Mae'r tri chwmni'n masnachu mewn marchnadoedd cenedlaethol a rhyngwladol yn hytrach na rhai lleol ac mae eu presenoldeb yn Caldicot yn adlewyrchu mwy o fynediad i rwydweithiau cludiant ac argaeledd llafur â sgiliau na statws y dref. Gan symud yn ehangach, mae Ystad Ddiwydiannol fawr Pont Hafren yn cynnwys mwy nag ugain o unedau diwydiannol, dosbarthu a manwerthu, er nad yw'n cael ei defnyddio ar hyn o bryd yn llawn. Yn wir, er bod datblygiadau cymharol ddiweddar fel ffatri Mitel yn awgrymu potensial i Caldicot a'i lleoliad dymunol i ddenu buddsoddiad, cafwyd llawer o ddatblygiadau newydd mewn gwirionedd y tu allan i'r dref ar safleoedd sy'n nes at gyffyrdd y draffordd.



Ffigwr 6.4: Tarddiad y gweithwyr a gyflogir yn Caldicot yn ôl y pellteroedd a deithir i'r gwaith, 2001.

- 6.31 Nid oes gan Caldicot yr un rôl hanesyddol fel marchnad sy'n gwasanaethu ardal wledig â rhan fwyaf trefi bach eraill y Gymru wledig, ac mae amrywiaeth y gwasanaethau cyhoeddus a masnachol y mae'n ei chynnal yn fwy cyfyngedig na threfi eraill o faint cyfatebol. Mae gan y dref amrywiaeth o wasanaethau lefel ganolig gan gynnwys ysgol uwchradd, gorsaf heddlu, llyfrgell, canolfan waith a swyddfa leol Cyngor Sir Mynwy, ond gan fod cyfleusterau tebyg eraill yng Nghas-gwent a chyfleusterau lefel uwch yng Nghasnewydd, mae'r ardal ddaearyddol a wasanaethir gan y swyddogaethau hyn yn gyfyng. Mae'r ardal a wasanaethir gan orsaf heddlu Caldicot, er enghraifft, yn ymestyn llai na 10km y tu allan i'r dref fan bellaf, ond mae'n cynnwys cymunedau Rogiet, Magwyr, Gwndy, Llanfaches, Llanfair Discoed, Caerwent a Portskewett.
- 6.32 Mae cyrraedd manwerthu Caldicot yn fwy cyfyngedig hyd yn oed. Mae canol y dref yn cynnwys archfarchnad fach Somerfield a man i gerddwyr sy'n cynnwys siopau lefel isel. Nododd arolwg ym mis Rhagfyr 2005 fod canol y dref yn llawn nwyddau cyfleustra a siopau gwasanaeth, gyda dim ond 27% o'r siopau'n gwerthu nwyddau cymhariaeth - sef ychydig yn fwy na hanner cyfartaledd trefi'r DU (RPS Planning, 2005). Tuedd siopau Caldicot yw diwallu anghenion cyfleuster poblogaeth y dref ac nid ydynt yn denu cwsmeriaid o'r tu allan i'r dref. Fel y sylwodd dau o'r rhai a gyfwelwyd gennym:

“Nid oes llawer i ddenu pobl i Caldicot. Nid oes llawer o siopau ar y stryd fawr.”

“Peidiodd pobl â dod yma chwech neu saith mlynedd yn ôl. Does dim i’w denu yma, a dweud y gwir. Caiff yr arian ei wario mewn manau eraill bellach.”


- 6.33 Mae’r siopau sy’n parhau yn Caldicot yn wynebu cystadleuaeth gynyddol gan ddatblygiadau manwerthu y tu allan i’r dref yng Nghas-gwent a Chasnewydd a’r ganolfan siopa yn Cribbs Causeway yr ochr draw i Bont Hafren. Nodwyd bod agor siop Homepage yn ddiweddar mewn parc manwerthu yng Nghas-gwent, er enghraifft, yn fygythiad i siop DIY ac offer cartref Washbournes, sef un o’r ychydig gyflogwyr mawr yn Caldicot. Awgryma dadansoddiad gan RPS Planning (2005) fod tua 42% o wariant trigolion Caldicot ar nwyddau cyfleuster yn cael ei wario yn y dref, ond bod tua chwarter yn cael ei wario yng Nghas-gwent a Chasnewydd. Dim ond 9% o’r gwariant ar nwyddau cymhariaeth ansylweddol, fodd bynnag, sy’n digwydd yn Caldicot, ond mae 42% yn digwydd yng Nghasnewydd ac 20% yn Cribbs Causeway. Mae’r dadansoddiad hefyd yn dangos bod trigolion yn ardaloedd cefnwlod Portskewett a Magwyr a Gwndy yn llai tebygol o lawer o brynu nwyddau cyfleuster a chymhariaeth yn Caldicot ac yn fwy tebygol o wneud y naill a’r llall yng Nghasnewydd.
- 6.34 Nododd y bartneriaeth adfywio leol mai gwella isadeiledd manwerthu Caldicot yw’r maes i’w flaenoriaethu ar gyfer buddsoddiad yn y dref. Cynigiwyd cynlluniau ar gyfer datblygu archfarchnad newydd yn Rhodfa Woodstock gerllaw’r ardal i gerddwyr, a’r gobaith yw ei chwblhau erbyn mis Mawrth 2008. Awgrymodd astudiaeth ddichonoldeb ar gyfer y prosiect y gallai’r archfarchnad ddenu o blith poblogaeth dalgylch o 28,000, gan ddenu masnach oddi wrth Gas-gwent, Casnewydd a Chwibrân (RPS Planning, 2005). Y bwriad, fodd bynnag, yw i’r archfarchnad fach fod yn faner i siopau cadwyn cenedlaethol eraill a fydd yn cynorthwyo ailddatblygiad canol y dref. Mae’r grwp adfywio hefyd yn archwilio mentrau eraill ar gyfer denu masnach i’r dref, gan gynnwys cynllun Shopmobility a marchnad cynnyrch lleol.
- 6.35 Mae gweithgareddau’r Grwp Adfywio Severnside ynddynt eu hunain yn ddatblygiad arwyddocaol yn y dref, gan wrthwynebu’r argraff i Caldicot gael ei hesgusodi er mwyn buddsoddi’n strategol yng Nghas-gwent, Trefynwy a’r Fenni. Yn benodol, mae gorchwyl y grwp yn estyn y tu hwnt i’r dref at gymunedau cefnwlod gan gynnwys Portskewett a Chaerwent ac mae’n ceisio cynllunio ar gyfer ardal ‘Severnside’ fel uned integredig.

Llanelwy

- 6.36 Mae gan ddinas gadeiriol Llanelwy hanes hir o fod yn ganolfan eglwysig ar gyfer gogledd Cymru, ond cyfyngir ar ei rôl fel sector gwasanaethau lleol gan ei hagosrwydd at drefi arfordirol mwy, sef Rhyl a Phrestatyn a thref sirol Dinbych. Mae gan y dref amrywiaeth o wasanaethau cyhoeddus lefel ganolig gan gynnwys ysgol uwchradd, gorsaf heddlu, a dwy feddygfa, ond mwy cyfyng yw ei darpariaeth o wasanaethau masnachol a manwerthu. Nododd

arolwg gwasanaethau Arsyllfa Wledig Cymru yn 2004 fod tair siop fwyd, un ar ddeg o siopau heb fwyd a thair siop gyffredinol yn y dref, ond mae'n arwyddocaol iddo nodi hefyd nad oedd unrhyw brif swyddfa bost na banciau amser llawn yno - er bod dau fanc yn gweithredu yn rhan-amser a bod cymdeithas adeiladu amser llawn. Mae gan y cyfleusterau hyn swyddogaeth gyfleuster ar gyfer trigolion a gweithwyr yn y dref, ond diwellir y rhan fwyaf o anghenion prynu'r gymuned gan archfarchnad Sainsbury yn Rhuddlan ac archfarchnad Morrison yn Rhyl, yn ogystal â chyfleusterau canol tref yn Rhyl a Phrestatyn a chanolfan ranbarthol Caer, 45 cilometr i'r dwyrain ar hyd yr A55.

- 6.37 Gan fod Llanelwy'n cystadlu â chanolfannau mwy yn Rhyl, Prestatyn a Dinbych, mae hyd cefnwlad y dref yn dueddol o amrywio yn ôl y swyddogaeth dan sylw. Gall ei thynfa o ran manwerthu fod yn gyfyngedig iawn, ond mae ysgol uwchradd ddwyieithog y dref, Ysgol Glan Clwyd, yn ymrestru pobl o ddalgylch hyd at 30 cilometr (20 milltir). Mae modd i'r farchnad wartheg hefyd ddenu ffermwyr o bob cwr o Ddyffryn a Bryniau Clwyd ac mae ei phwysigrwydd wedi cynyddu yn sgil cae mart Rhyl. Fodd bynnag, nodwyd ym mis Medi 2006 y byddai ysbyty fach HM Stanley ar ymylon deheuol y dref, sydd wedi bod yn gartref i'r gwasanaethau offthalmoleg, a'r gwasanaeth strôc ac adfer yn ardal Ymddiriedolaeth GIG Clwyd a Sir Ddinbych, yn cau, ac y byddai'r gwasanaethau'n cael eu trosglwyddo i Ysbyty Glan Clwyd ym Modelwyddan.
- 6.38 Ni leolir y brif atynfa fanwerthu leol yn nhref Llanelwy ei hun, ond yn ei chefnwlad ym Mharc Llannerch, 3 cilometr (2 filltir) i'r de o'r dref. Disgrifiwyd Safle Ffatri Tweedmills gan un a holwyd yn "ail atyniad mwyaf Gogledd Cymru i dwristiaid", ond aeth yr un a gyfwelwyd yn ei flaen: "Nid yw pobl am fynd i'r dref. Mae'n gymaint o ymdrech, byddai angen llawer i wneud i chi ddewis aros yn Llanelwy". Ehangwyd y ganolfan siopa yn 2004, gan greu 50 o swyddi ychwanegol, ond gwrthwynebwyd yr ehangu gan lawer o fusnesau yn y dref a oedd yn teimlo y byddai'n denu masnach oddi wrth y dref. Dywedodd cadeirydd Cymdeithas Busnes Llanelwy, fodd bynnag, mai'r prif ffactorau sy'n cyfyngu ar gyfleoedd masnachol yn y dref yw lefel y drafnidiaeth a phrinder lleoedd parcio, gan ei gwneud yn haws i bobl o'r tu allan i'r dref deithio i Tweedmills neu ganolfannau gwerthu eraill y tu allan i'r dref.
- 6.39 Mae'n amlwg bod y dref yn byw dan gysgod ei chefnwlad o ran cyflogaeth hefyd. Mae cyfleoedd cyflogaeth yn y dref yn gymharol gyfyngedig ac yn dod i gyfanswm o 1660, sef ychydig yn fwy na phoblogaeth weithio'r dref. Mae tua chwarter y rhai sy'n gweithio yn y dref yn byw yn y dref hefyd. Mae'r grwp mwyaf o weithwyr cyflogedig, mwy na thraean, yn cymudo i mewn o bellter rhwng 5 a 10 cilometr, sef pellter sy'n cwmpasu Rhyl, Prestatyn, Abergele a Dinbych (Ffigwr 6.5).




Ffigwr 6.5: Tarddiad gweithwyr tref Llanelwy yn ôl y pellter a deithir i'r gwaith, 2001.

- 6.40 Cafwyd mwy o gyfleoedd cyflogaeth, fodd bynnag, yn y gefnwlad i'r gorllewin o'r dref ym Mharc Busnes Llanelwy ac oddi amgylch. Mae'r parc busnes 44 hecтар yn ddatblygiad diweddar gan Awdurdod Datblygu Cymru, wedi'i leoli rhwng yr A55 a'r B3581. Cyflogir tua 2,000 o bobl ar y parc busnes erbyn hyn, ac mae llawer o'r rhain mewn cwmnïau sy'n gysylltiedig â'r diwydiant technoleg gwydr. Mae prif gyflogwyr y parc busnes yn cynnwys pencadlys adrannol Heddlu Gogledd Cymru, prif swyddfa Freeway Healthcare a'r cwmni ceir o Siapan, TRB (tabl 6.3). Mae Thales Optics Ltd yn cyflogi 123 o staff ar safle gerllaw'r parc busnes ac mae gwaith cyfagos Pilkington Special Glass yn cyflogi 112 o bobl.
- 6.41 Parc Busnes Llanelwy hefyd yw safle newydd OpTic Technium, a weithredir gan Optopreneurs Ltd ac sy'n cyflogi 140 o weithwyr. O ganlyniad i ddyfarnu dau grant i gefnogi datblygiad y technium gan Gronfa Datblygu Rhanbarthol Ewrop dan Amcan 1, gwerth £8,376,382 gyda'i gilydd, Llanelwy sydd fwyaf ar ei hennill o ran arian Amcan 1 y pen o holl drefi bach Cymru.

Cwmni	Diwydiant/Swyddogaeth	Nifer y gweithwyr cyflogedig
Optopreneurs Ltd (OpTic technium)	Technoleg gwydr	140
Thales Optics Ltd	Technoleg gwydr	123
Pilkington Special Glass	Technoleg gwydr	112
TRB	Darnau ar gyfer ceir	105
Freeway Healthcare Ltd	Gofal iechyd (Prif swyddfa)	70
Leaver Optics	Technoleg gwydr	22
Optokem	Technoleg gwydr	20
Greenthumb Ltd	Prif swyddfa	12
XKS Ltd	TG	10
Awdurdod Datblygu Cymru	Gwasanaethau cleient	5
Phoenix Optical Glass	Technoleg gwydr	amherthnasol
First Consulting	Ymgynghoriaeth	amherthnasol
Zimed Ltd	Offer meddygol	amherthnasol
CCET Sir Ddinbych	Hyfforddi	amherthnasol
British Shielding Windows	Gwydr	amherthnasol
WS Atkins	Ymgynghoriaeth	amherthnasol
Cynllunio Gwefannau ac e-fasnach Gogledd Cymru	TG	amherthnasol

Tabl 6.3: Enghreifftiau o fusnesau a chyflogwyr ar Barc Busnes Llanelwy neu'n gyfagos iddo

- 6.42 Mae'n anodd cael ystadegau cywir am gyflogaeth a theithiau i'r gwaith ar gyfer Parc Busnes Llanelwy gan fod y safle'n croesi ffin ardaloedd cynnyrch y cyfrifiad a chan fod llawer o'r datblygu ar y parc busnes wedi digwydd ers cyfrifiad 2001. Awgryma ein harolwg o sampl o gyflogwyr fod bron yr holl gyflogwyr yn byw oddi mewn i 10 cilometr ond, yng nghyd-destun y rhanbarth, mae'r radiws hwn yn cwmpasu nifer o drefi. Roedd ffigurau cyfrifiad 2001 ar gyfer yr ardal gynnyrch, gan gynnwys ffatri Thales Optics a rhan o safle'r parc busnes, yn dangos bod tri chwarter y gweithwyr yn teithio llai na deng cilometr i'r gwaith.
- 6.43 Dangosir arwyddocâd cefnwlad Llanelwy fel ffynhonnell cyflogaeth gan ystadegau trigolion y dref sy'n teithio yn 2001. Dangosodd y rhain mai traean y trigolion a oedd yn gweithio yn y dref ei hun, ond bod chwarter yn gweithio o fewn 5 cilometr i'r dref - sef cyfran sy'n debygol erbyn hyn o fod yn uwch yn sgil ehangu'r parc busnes. Mae 28% ychwanegol yn teithio rhwng 5 a 10 cilometr i'r gwaith mewn lleoliadau sy'n cynnwys Rhyl, Prestatyn a Dinbych. Er ei bod yn gymharol hawdd cyrraedd canolfannau fel Caer ar hyd yr A55, dim ond 11% o drigolion Llanelwy a oedd yn teithio 30 cilometr neu fwy i'r gwaith (Ffigur 6.6).



Ffigwr 6.6: Y pellter a deithir i'r gwaith gan drigolion tref Llanelwy sy'n gweithio, 2001.

- 6.44 I raddau helaeth, serch hynny, mae Parc Busnes Llanelwy wedi'i ddatgysylltu o'r dref. Penderfynir ar ei leoliad a'i estyniad yn fwy gan ei hygyrchedd oherwydd yr A55 yn hytrach nag unrhyw mōdwedd benodol yn Llanelwy fel tref, ac ni fydd angen i lawer o'r rhai sy'n teithio i weithio yn y parc busnes fynd i'r dref byth. Gwnaeth un o'r rhai a holwyd y sylw canlynol,

“Mae tuedd o weld hollt fawr rhwng busnesau yn y dref a'r busnesau sy'n seiliedig yn y parc busnes. Nid yw'r rhai yn y parc busnes yn aml yn cael llawer o gysylltiad â'r dref. Nid ydynt yn pryderu am fuddiannau lleol. Maent yn gwibio i lawr yr A55, heb unrhyw ddiddordeb yn y gymdogaeth.”

- 6.45 Mae datgysylltiad y parc busnes a'r gymdogaeth yn fwy amlwg yn y cysylltiadau masnachol rhwng mentrau ar y parc. Daeth cyflenwadau y rhan fwyaf ac anghenion y rhai yn ein harolwg o rannau yn y DU y tu allan i'r ardal ac yn achos llawer, cyflenwyd hyd at draean eu gofynion o'r tu allan i'r DU. Yn yr un modd, nid oedd gan unrhyw un fwy na 15% o'u cwsmeriaid yn yr

ardal leol, ac roedd dau gwmni, Pilkington Special Glass a H. & D. Fitzgerald yn gwerthu'n bennaf y tu allan i'r DU.

- 6.46 Mae Llanelwy felly'n gweithredu yn ôl mathau o ddeinameg sy'n wahanol i drefi eraill yr astudiaethau achos, a hynny nid lleiaf am fod y dref yn eilaidd i'r gefnwlad o ran cyfleoedd cyflogaeth a manwerthu, ond bod safleoedd cyflogaeth a manwerthu yn y gefnwlad yn dibynnu yn eu tro nid ar yr ardal leol, ond ar ddalgylch daearyddol ehangach, a gynhelir yn aml mewn meysydd arbenigol penodol.


Llandeilo

- 6.47 Mae gan yr astudiaeth achos olaf, Llandeilo, hanes hir o fod yn farchnad a chanolfan weinyddol yn gwasanaethu ardal wledig dwyrain Sir Gaerfyrddin. Elwodd y dref o'i lleoliad ar lwybr y porthmyn i Lundain ac roedd wedi ennill ei phlwyf fel canolfan fancio sylweddol erbyn 1850. Roedd y ddwy farchnad yn y dref ynghanol y bedwaredd ganrif ar bymtheg yn gwasanaethu nid yn unig Llandeilo a'i chefnwlad wledig ond hefyd cymunedau diwydiannol Dyffryn Aman. Bu'r Neuadd Sirol, a adeiladwyd ym 1802, yn bencadlys i Heddlu Sir Gaerfyrddin, a'r dref yn ddiweddarach oedd canolfan weinyddol Cyngor Dosbarth Dinefwr rhwng 1974 a 1996.
- 6.48 Mae ardal adeiledig Llandeilo, ar lannau Afon Tywi, yn ymestyn y tu hwnt i ffiniau cymuned Llandeilo, gan gwmpasu Ffairfach i'r de o'r afon, sef lleoliad Ysgol Uwchradd Tregib, a Rhosmaen ar draws ffordd yr A40. O'r herwydd, er mai dim ond 1,731 oedd poblogaeth cymuned Llandeilo yn 2001, mae poblogaeth y dref yn ymestyn i 2,540 pan gaiff Ffairfach a Rhosmaen eu cynnwys. Cynyddodd y boblogaeth hon ar fwa cyflym - gan dyfu'n araf iawn o 1.7% yn ystod y 1980au a 7.1% rhwng 1991 a 2001.
- 6.49 Mae treftadaeth swyddogaeth hanesyddol Llandeilo fel marchnad a chanolfan weinyddol yn amlwg yn amrywiaeth y gwasanaethau a'r cyfleusterau yn y dref. Mae gan Ysgol Uwchradd Tregib broin i fil o fyfyrwyr sy'n dod o ddalgylch sy'n ymestyn dros 25 cilometr (15 milltir), ac mae gan yr ysgol gynradd 250 o ddisgyblion sy'n dod o ddalgylch yr un mor eang. Mae gan Goleg Sir Gâr gampws amaethyddol yng nghefnwlad y dref, ac ymhlith y gwasanaethau cyhoeddus eraill yn Llandeilo mae gorsaf heddlu a chanolfan waith. Ar gyfer gwasanaethau cyhoeddus lefel uchel, fodd bynnag, ac ar gyfer cyfleusterau hamdden, mae'n rhaid i drigolion Llandeilo deithio. Mae'r pwll nofio agosaf yn Rhydaman a'r ganolfan hamdden agosaf yng Nghaerfyrddin.
- 6.50 Cofnododd Arolwg Gwasanaethau Arsyllfa Wledig Cymru 2004 fod pedwar banc, tair cymdeithas adeiladu, tair siop gyffredinol, tair siop fwyd a mwy na deg o siopau nad oeddent yn gwerthu bwyd yn Llandeilo. Mae llawer o'r rhain yn fach ac yn nwylo perchnogion lleol a phrin yw'r siopau cadwyn yn y dref. Mae gan y dref ddwy archfarchnad fach, y Co-op ac un archfarchnad fach annibynnol, CK's, ac mae'r ddwy'n denu cwsmeriaid o ardaloedd gwledig gogledd-ddwyrain Sir Gaerfyrddin, ac mae o leiaf un o bob pum cwsmer yn teithio mwy na 10 cilometr. Yn gynyddol, fodd bynnag, ar gyfer nwyddau cyfleuster a chymhariaeth, mae trigolion Llandeilo a chymunedau cyfagos yn

teithio i siopa yng Nghaerfyrddin, Rhydaman, Llanelli, Abertawe a'r datblygiadau gwerthu y tu allan i'r dref yn Cross Hands, sy'n 12 cilometr o'r de-orllewin i'r dref.

- 6.51 Cyfyng hefyd yw'r cyfleoedd cyflogaeth yn Llandeilo ei hun. Cofnododd cyfrifiad 2001 fod 1164 o bobl yn gweithio yn Llandeilo, tua 100 yn fwy na phoblogaeth gweithwyr y dref, sy'n cynrychioli dim ond 23% o'r swyddi yn ardal teithio i'r gwaith Llandeilo. Y gwir amdani yw nad oes unrhyw ddiwydiant o bwys yn y dref ei hun, ac felly mae'r cyflogwyr mwyaf yn dueddol o fod yn y sectorau cyhoeddus, gwirfoddol, a'r sector lletygarwch a'r sector gwerthu. Yn eu plith mae'r ysgol uwchradd, sy'n cyflogi mwy na 100 o staff a'r ysgol gynradd sy'n cyflogi 30 o staff; swyddfa ranbarthol Cyngor Cefn Gwlad Cymru sy'n cyflogi 25 o staff, a swyddfa ranbarthol yr Ymddiriedolaeth Genedlaethol, sy'n cyflogi 14 o staff. Mae archfarchnad CK's yn cyflogi 80 o staff a'r Co-op yn cyflogi mwy na 30 o staff, ac mae nifer o westai a masnachwyr sy'n cyflogi mwy nag 20 o bobl. Mae llawer o'r swyddi yn y sector manwerthu a'r sector lletygarwch, fodd bynnag, yn isel eu cyflogau, yn rhan-amser a thros dro. Efallai ei bod yn bwysig nodi, er bod yr holl weithwyr ym musnesau masnachol yr arolwg yn byw o fewn 10 cilometr o Landeilo, mae tua un o bob pump hyd chwarter y staff yng ngweithleoedd cyhoeddus a gwirfoddol yn teithio mwy na 10 cilometr i'r gwaith yn ôl yr arolwg. Yn wir, er bod pwysau'r rhai sy'n cymudo i Landeilo yn gymharol fach, sef rhyw 715 o gymudwyr, mae dwy ran o bump o'r gweithlu yn teithio i'r dref o bellter rhwng pump ac ugain cilometr, sef pellter sy'n cynnwys cymunedau gwledig fel Talylychau, Llanegwad a Phumsaint, a chyn-gymunedau glofaol diwydiannol fel Rhydaman, Gorslas a Glanaman (Ffigur 6.7).
- 6.52 Mae'r nifer sy'n cymudo allan o Landeilo, fodd bynnag, hyd yn oed yn fwy cyfyngedig, a dim ond 500 o drigolion sy'n teithio allan o'r dref i'r gwaith. At ei gilydd, mae ychydig yn fwy na hanner y trigolion yn gweithio yn Llandeilo ei hun. Bu hufenfa Ffermwyr Llaeth Prydain yn Llangadog yn gyflogwr sylweddol yn y gefnwlad cyn iddi gau yn 2005 gyda cholled 200 o swyddi. Lleihawyd cyfleoedd cyflogaeth yn y gefnwlad hefyd gan gau gwaith concrit Hanson, a oedd hefyd yn Llangadog, dair blynedd yn gynharach yn 2002, a gall fod hyn wedi cyfrannu at y cynnydd yn y nifer sy'n hawlio Lwfans Ceisio Gwaith yn Llandeilo rhwng 2000 a 2003 sy'n groes i'r duedd gyffredinol. Mae'r cyflogwyr sy'n weddill yn y gefnwlad yn llai o lawer, gan gynnwys Dwr Bannau Brycheiniog yn Trap, sy'n cyflogi 20 o weithwyr, ac Ymddiriedolaeth Adfer Aberglasne, sy'n cyflogi 19. Mae'r cymudo pellter hir i Gaerfyrddin, Llanelli ac Abertawe yn fwy arwyddocaol. Fel y dengys ffigur 6.8, mae bron traean trigolion Llandeilo yn teithio rhwng pump a deg ar hugain o gilometrau i'w lle gwaith.
- 6.53 Mae economi Llandeilo, fodd bynnag, yn parhau i elwa ar dwristiaeth a marchnadoedd manwerthu dethol. Mae cyfansoddiad a lleoliad deniadol y dref, ynghyd â Pharc Dinefwr sydd ym meddiant yr Ymddiriedolaeth Genedlaethol ar gyrion y dref ac agosrwydd gerddi Aberglasne, yn denu twristiaid ac ymwelwyr diwrnod i Landeilo. Mae'r rhain yn helpu i gynnal gwestai, bwytai a siopau yn y dref, gan gynnwys amrywiaeth gynyddol o

siopau arbenigol sydd yn eu tro yn denu eu cwsmeriaid neilltuol eu hunain o'r rhanbarth ehangach. Mae rhestrau yell.com, er enghraifft, yn cynnwys tri gwerthwr hen bethau, dwy oriel gelf ac un siop grefftau yn Llandeilo, yn ogystal â Chanolfan Grefftau Trap yn y gefnwlad, a nifer o siopau bwyd arbenigol. Fel y dengys tabl 6.4, mae'r busnesau hyn yn ogystal â rhai eraill yn y dref, gan gynnwys gwestai a bwytai, yn denu cyfran sylweddol o'u cwsmeriaid o'r tu allan i'r ardal leol.




Ffigwr 6.7: Tarddiad gweithwyr a gyflogir yn Llandeilo yn ôl y pellter a deithir i'r gwaith, 2001.

Busnes	Cwsmeriaid		
	Lleol	Y DU Arall	Y Tu Allan i'r DU
Gwesty/bwyty	40%	55%	5%
Cigydd	60%	40%	
Hen bethau	20%	45%	35%
Hen bethau	50%	50%	
Crefftau	10%	80%	10%
Siop esgidiau	80%	20%	
Tafarn/bwyty	80%	20%	

Tabl 6.4: Amcangyfrif tarddiad cwsmeriaid ar gyfer busnesau dethol yn Llandeilo

6.54 Datblygir safle ‘dethol’ Llandeilo ymhellach gan fenter i wneud Llandeilo yn ‘dref bwyd araf’ gyntaf Cymru fel rhan o’r mudiad Cita Slow. Nod y fenter yw hyrwyddo enw da’r dref am fwyd o ffynonellau lleol, gan gysylltu bwytai â siopau bwydydd arbenigol, yn ogystal â’r farchnad ffermwyr. Mae’n werth nodi bod trefnydd y fenter yn credu bod y prosiect yn gatalydd ar gyfer adfywio’r dref yn ehangach, ac nid y sector bwyd yn unig.



Ffigwr 6.8: Pellter i’r gwaith a deithir gan weithwyr sy’n byw yn Llandeilo, 2001.

PENNOD 7: CASGLIADAU

- 7.1 Mae gan drefi bach a threfi marchnad le arbennig yn hierarchaeth ddaearyddol Cymru. Fel grwp, maent yn arddangos gwahanol nodweddion ac yn ymateb i wahanol fathau o ddeinameg, na naill ai ardaloedd trefol ac ymylol sy'n ymwasgu i gyrion naw sir graidd y Gymru wledig, neu'r ardaloedd gwledig gweddilliol. Eto i gyd, anghywir fyddai trin trefi bach a threfi marchnad fel un categori unffurf. Mae trefi'r Gymru wledig yn amrywio'n sylweddol nid yn unig o ran maint eu poblogaeth a'u sefyllfa ddaearyddol, ond hefyd o ran eu swyddogaeth gwasanaeth ac amrywiaeth y gwasanaethau a gynigir, cyfleoedd a phatrymau cyflogaeth, tueddiadau o ran poblogaeth a nodweddion a lefelau buddsoddiad. Mae'r amrywiaeth hon yn her o ran datblygu polisi ar gyfer trefi bach ac ni fydd eu hymgorffori yn y broses o gynllunio gofodol yn briodol, gan na fydd un strategaeth gyffredinol yn addas i bawb.
- 7.2 Er mwyn dechrau cael syniad o'r gwahaniaethau rhwng trefi bach a threfi marchnad unigol, cynigiwn chwe model delfrydol y byddwn yn eu disgrifio isod. Gan eu bod yn fodolau delfrydol, nid yw'n fwriad iddynt ddisgrifio nodweddion yr holl drefi bach penodol yng Nghymru yn gywir ac efallai na fydd modd didoli holl drefi bach Cymru yn ôl y patrwm hwn. Yn wir, mae'n bosibl y bydd rhai modelau yn arddangos nodweddion mwy nag un model. Fodd bynnag, mae'r modelau'n ein galluogi i dynnu sylw at brif nodweddion grwpiau o drefi bach a'u cysylltu â'r swyddogaethau sydd gan y trefi hyn yn eu hardaloedd ehangach (gweler hefyd Atodiad M).
- 7.3 **Canolfannau is-ranbarthol:** Mae gan ganolfannau is-ranbarthol swyddogaethau gwasanaeth lefel uwch i ardaloedd gwledig eithaf eang. Mae ganddynt wasanaethau cyhoeddus a chyfleusterau lefel gymharol uchel gydag adrannau damweiniau ac achosion brys, colegau addysg bellach a llysoedd sirol, ac mae ganddynt hefyd amrywiaeth gymharol eang o gyfleoedd manwerthu, gan gynnwys nwyddau cymhariaeth a changhennau o gadwyni cenedlaethol. Mae gan ganolfannau is-ranbarthol sylfaen gadarn o ran cyflogaeth, gyda mwy o lawer o swyddi na thrigolion sy'n gweithio a nifer gymharol uchel yn cymudo i'r dref i weithio. Y duedd yw iddynt fod wedi derbyn buddsoddiad sylweddol yn ddiweddar gan ffynonellau cyhoeddus a phreifat fel ei gilydd, a bod eu poblogaeth yn mynd o nerth i nerth. Nid oes ond pedair tref yn y Gymru wledig y gellir eu galw'n ganolfannau is-ranbarthol: Aberystwyth, Bangor, Caerfyrddin a Hwlfordd.
- 7.4 **Trefi Angor:** Mae trefi angor yn darparu swyddogaethau masnachol, cymdeithasol a gweinyddol i ardal wledig benodol. Nid oes ganddynt gyfleusterau na swyddogaethau i'r un graddau â'r canolfannau is-ranbarthol, a byddant fel rheol yn dibynnu ar ganolfannau is-ranbarthol am swyddogaethau lefel uchel, gan gynnwys ysbytai cymunedol, ysgolion uwchradd mawr, gorsafedd heddlu, llysoedd ynadon a gallant fod yn gartref i swyddfeydd llywodraeth leol. Mae gan drefi angor gnewyllyn manwerthu sydd wedi ennill ei blwyf, ond mae ganddynt lai o siopau mawr a llai o siopau cadwyn na chanolfannau is-ranbarthol. Gall trigolion deithio i ganolfannau is-ranbarthol ar gyfer siopa nwyddau cymhariaeth, ond mae'r dref yn gallu denu cwsmeriaid o'i chefnwlad ar gyfer siopa cyfleuster. Mae gan drefi angor sylfaen

gyflogaeth sylweddol o'i chymharu â'u poblogaeth, ac yn dueddol o fod yn brif ddarparwyr cyflogaeth ar gyfer eu hardal wledig a chael nifer uchel sy'n cymudo i'r gwaith. Mae'n bosibl y byddant wedi derbyn grantiau sylweddol gan Gronfa Datblygu Rhanbarthol Ewrop neu'r Gronfa Gymunedol, fel arfer er mwyn cefnogi prosiectau a sefydliadau sydd hefyd yn gwasanaethu'r ardal ehangach. Ymhlith yr enghreifftiau o drefi angor yn y Gymru wledig mae Llandrindod, Aberhonddu a Llangefni.

- 7.5 Trefi Ynys.** Ceir trefi ynys fel arfer yn gymharol agos at ganolfannau mwy ond maent yn annibynnol iawn ac nid ydynt wedi mynd yn ddibynnol ar drefi eraill ar gyfer cyflogaeth neu wasanaethau. Mae trefi ynys yn dueddol o feddu ar ddigon o gyfleoedd cyflogaeth i fodloni eu poblogaeth weithio ac mae cyfran uchel o drigolion y dref hefyd yn gweithio yn y dref, ond cymharol ychydig yw'r rhai sy'n cymudo i'r dref i weithio. Mae gan drefi ynys amrywiaeth weddol o wasanaethau cyhoeddus a masnachol, gan gynnwys, fel rheol, ysgolion uwchradd, gorsafoedd heddlu, llyfrgelloedd cyhoeddus ac archfarchnadoedd bach. Mae sylfaen fanwerthu'u canolfannau trefol yn dueddol o fod yn gyfyngedig, beth bynnag, gan fodloni anghenion cyfleuster rheolaidd trigolion y dref ond heb ddenu llawer o fasnach oddi wrth ardal ehangach. Mae cefnwlad effeithiol tref ynys felly yn gyfyngedig iawn ac mae trigolion aneddiadau cyfagos yn aml yn edrych heibio'r dref at ganolfannau eraill mwy ar gyfer cyflogaeth a gwasanaethau. Ymhlith yr enghreifftiau o drefi ynys yn y Gymru wledig ceir Llanidloes.
- 7.6 Trefi Toesen.** Nodwedd hanfodol tref doesen yw cryfder y gweithgarwch yn ei chefnwlad. Gall fod gan y dref ei hun sylfaen gyfyngedig o ran cyflogaeth a gwasanaethau, ond mae'r gefnwlad uniongyrchol yn cynnwys cyflogwyr sylweddol (naill ai un cyflogwr neu barc busnes sydd â chyflogwyr lluosog) a chanolfannau manwerthu. Gall y rhain fod yn ddiwydiannau sefydledig neu ddatblygiadau cymharol newydd. Gall trigolion i'r dref deithio allan i'r gefnwlad at ddibenion gwaith neu werthu, a gall cyfleusterau yn y gefnwlad wasanaethu nid yn unig y dref ond hefyd ardal ehangach. Ymhlith yr enghreifftiau o drefi toesen y Gymru wledig mae Llanelwy.
- 7.7 Trefi Lloeren.** Lleolir trefi lloeren yn aml yn agos at drefi sy'n fwy o lawer, ac maent i bob pwrpas yn ddibynnol ar ganolfan fwy ar gyfer cyflogaeth a gwasanaethau. Bydd nifer y swyddi yn y dref, fel rheol, yn is na maint y boblogaeth sy'n gweithio, cymharol ychydig o drigolion sy'n gyflogedig yn y dref ac mae cyfanswm sylweddol o gymudwyr yn llifo allan. Fel rheol bydd gwasanaethau yn y dref yn gyfyngedig ac yn rhai lefel isel yn achos trigolion sy'n teithio i drefi a chanolfannau eraill ar gyfer siopa a hamdden. Gall gweithgarwch cymunedol fod yn wan ac adlewyrchir hyn gan lefel isel y dyfarniadau gan y Gronfa Gymunedol. Ymhlith yr enghreifftiau o drefi lloeren yn y Gymru wledig mae Caldicot, Crughywel a Llanrwst.
- 7.8 Trefi Dethol.** Ymatebodd trefi dethol i ddirywiad eu swyddogaeth gwasanaeth draddodiadol trwy fanteisio ar atyniadau arbenigol neu farchnadoedd penodol. O'r herwydd mae modd yn aml iddynt gynnal lefel uwch na'r disgwyl o wasanaethau a chyflogaeth, gyda chymorth elwa ar fasnach ymwelwyr o'r tu

allan i'r ardal leol uniongyrchol. Ymhlith yr enghreifftiau o drefi dethol yn y Gymru wledig mae Llandeilo, Y Gelli a Llangollen.

- 7.9 Mae dadansoddiad yr adroddiad hwn yn awgrymu bod amrywiaeth eang o ffactorau ar waith sy'n llunio datblygiad pob math o dref fach, gan gynnwys nid yn unig maint y boblogaeth ac agosrwydd at ganolfannau mwy, ond hefyd hwyluster cyrraedd prif ffyrdd trafndiaeth, swyddogaeth hanesyddol, natur y sylfaen economaidd, cynllunio polisi a menter leol. Mae lle, fodd bynnag i ymchwil bellach adeiladu ar yr adroddiad hwn trwy archwilio'r union ddeinameg sydd dan sylw.
- 7.10 Mae'r blaenoriaethau a'r her sy'n wynebu trefi bach felly'n amrywio rhwng y mathau hyn. Mae angen cefnogaeth ar ganolfannau is-ranbarthol ar gyfer isadeiledd i gynnal a denu swyddogaethau cyhoeddus a masnachol lefel uchel, yn ogystal â buddsoddiad mewn cysylltau trafndiaeth i'r ardaloedd y maent yn eu gwasanaethu. Mae angen i drefi angor gynnal nawdd eu cefnwledydd yn erbyn cystadleuaeth oddi wrth ganolfannau mwy a gofyn felly am fuddsoddiad mewn isadeiledd manwerthu a chyflogaeth yn ogystal â chysylltau trafndiaeth i'r ardal oddi amgylch. Mae angen i drefi ynys gynnal y gwasanaethau a'r cyflogwyr sydd ganddynt a dylent geisio cryfhau'r cysylltiadau â chymunedau cyfagos. Mae angen i drefi toesen geisio denu gweithwyr ac ymwelwyr o safleoedd yn y gefnwlad i mewn i'r dref, yn ogystal â sicrhau bod cysylltiadau trafndiaeth digonol yn eu lle rhwng y dref a safleoedd allweddol yn y gefnwlad. Gall trefi lloeren roi blaenoriaeth i anghenion trigolion, neu geisio datblygiadau a allai gyrraedd marchnadoedd ehangach neu helpu datblygu marchnadoedd dethol arbenigol i ddenu twristiaid. Mae angen strategaethau ar drefi dethol i gynnal niferoedd yr ymwelwyr, elwa ar arbenigedd lleol a sicrhau bod busnesau a thrigolion lleol ar eu hennill.
- 7.11 Y ddolen gyswllt rhwng y gwahanol fathau o dref fach, fodd bynnag, yw eu 'ffurf drefol' arbennig - sef cronni swyddogaethau economaidd, preswyl, cymdeithasol a gweinyddol a defnydd tir mewn un lleoliad. Efallai fod llwyddiant datblygiadau allan o'r dref fel Parc Busnes Llanelwy neu Barc Gwerthu Cross Hands yn awgrymu yn y byd cyfoes nad oes rhaid i ganolfannau cyflogaeth a gwasanaethau mewn rhanbarthau gwledig fod yn gysylltiedig â ffurf drefol y dref fach, ond gallant lwyddo fel arall mewn safleoedd maes glas yn agos at y prif ffyrdd trafndiaeth. Daw'r duedd hon, fodd bynnag, â chwestiynau amgylcheddol sylweddol am effaith gwahanu cyflogaeth, cartref a hamdden ar yr angen am deithio mewn cerbyd. Mae ffurf hanesyddol y dref fach, trwy ei ffurf gywasgedig a swyddogaethau aml, yn cynnig y ffordd fwyaf cynaliadwy o ddarparu gwasanaethau allweddol a chyfleoedd cyflogaeth mewn rhanbarth gwledig, a gall hyn ddod yn fwyfwy deniadol yn yr unfed ganrif ar hugain.

CYFEIRIADAU

- Bibby, P. a Shepherd, J. (2004) *Developing A New Classification of Urban and Rural Areas for Policy Purposes – the Methodology*. Ar gael yn www.statistics.gov.uk/geography/nrudp.
- Brown, C., Farthing, S., Nadin, V. a Smith, I. (2003) *Trefi Bychain Deinamig: Nodi Ffactorau Critigol Llwyddiant*. Adroddiad i Lywodraeth Cynulliad Cymru. Bryste: Prifysgol Gorllewin Lloegr.
- Courtney, P. ac Errington, A. (1999) *The spatial pattern of rural Economic transactions: a comparison between market towns in 'remote' and 'accessible' rural areas*. Papur a gyflwynwyd i gynhadledd Sefydliad Daeryddol Brenhinol-Sefydliad Daeryddwyr Prydain, 1999.
- Courtney, P. ac Errington, A. (2000) The role of small towns in the local economy and some implications fieu development policy, *Local Economy*, 15(4), 280-301.
- DETR/MAFF (2000) *Our Countryside The Future: A fair deal for rural England*. Llundain: The Stationery Office.
- Edwards, B. (1998) Charting the discourse of community action: perspectives from practice in rural Wales. *Journal of Rural Studies*, 14(1), 63-78.
- Edwards, B., Goodwin, M., Pemberton, S. & Woods, M. (2000) *Partnership Working in Rural Regeneration*. Policy Press: Bryste.
- Edwards B., Goodwin, M., Pemberton, S. a Woods, M. (2001) 'Partnerships, power and scale in rural governance' *Environment and Planning C: Government and Policy*, 19, 289-310.
- Edwards, B., Goodwin, M., a Woods, M. (2003) Citizenship, community and participation in small towns: a case study of regeneration partnerships, yn R. Imrie a M. Raco (gol.) *Urban Renaissance: New Labour, Community and Urban Policy*. Bristol, Policy Press. Tt 181-204.
- Jones, J. (2002) The cultural symbolism of disordered and deviant behaviour: young people's experiences in a Welsh rural market town, *Journal of Rural Studies*, 18(2), 213-217.
- Leyshon, A., French, S. a Signeuetta, P. (2005) *The Changing Geography of British Bank and Building Society Branches, 1995-2003*. Adroddiad terfynol i'r Cyngor Ymchwil Economaidd a Chymdeithasol.
- LUC (2004) *The role of rural settlements as service centres* Adroddiad gan Ymgynghorwyr Defnydd Tir, SERRL ac Emma Dewlow ar gyfer yr Asiantaeth Cefn Gwlad
- Cynulliad Cenedlaethol Cymru (2000) *Mynegai Amddifadedd Lluosog Cymru*. Caerdydd: Swyddfa Ystadegau Wladol.
- Newidiem (2003) *Cymunedau â Chydbwysedd o ran Oedran yng Nghymru Wledig: Adroddiad i Lywodraeth Cynulliad Cymru*. Caerdydd: Newidiem.
- Powe, N. A. a Shaw, T. (2004) Exploring the current and future role of market towns in servicing their hinterland: a case study of Alnwick in the North East of England, *Journal of Rural Studies*, 20, 405-418.
- RPS Planning (2005) *Proposed Foodstore at Woodstock Way, Caldicot, Monmouthshire: Retail Assessment*. Adroddiad a baratowyd ar gyfer Cyngor Sir Fynwy. Caerdydd: RPS Planning.
- Thomas, C. J. a Bromley, R. D. (2002) The changing competitive relationship between small town centres and out-of-town retailing: town revival in South Wales, *Urban Studies*, 39(4), 791-817.

- Arsyllfa Wledig Cymru (2004) *Byw a Gweithio yng Nghymru Wledig*. Caerdydd ac Aberystwyth: Arsyllfa Wledig Cymru .
- Arsyllfa Wledig Cymru (2005) *Arolwg o Wasanaethau Gwledig yng Nghymru*. Caerdydd ac Aberystwyth: Arsyllfa Wledig Cymru .
- Walford, N. (2005) Connecting urban and rural populations: an initial attempt to identify migratory pathways. Papur a gyflwynwyd i gynhadledd y Gymdeithas Ddaearyddol Frenhino! Sefydliad Daearyddwyr Prydain, 2005.
- Llywodraeth Cynulliad Cymru (2002) *Cymru'n Ennill: Strategaeth Datblygu Economaidd Genedlaethol Llywodraeth Cynulliad Cymru*. Caerdydd: Llywodraeth Cynulliad Cymru.
- Llywodraeth Cynulliad Cymru (2004) *Pobl, Lleoedd, Dyfodol: Cynllun Gofodol Cymru*. Caerdydd: Llywodraeth Cynulliad Cymru.
- Swyddfa Gymreig (1995) *A Working Countryside for Wales*. Papur Gwyn Gwledig. Llundain: HMSO.
- Western Mail (2005) *Wales Top 300*. Ychwanegiad a gyhoeddwyd ym mis Rhagfyr 2005.

ATODIAD A: TREFI BACH Y GYMRU WLEDIG YN ÔL DATA LEFEL WARDIAU

* Trefi na chafodd eu cynnwys yn nadansoddiad yr adroddiad ar lefel wardiau.

Tref	Dosbarth ONS	Wardiau	Poblogaeth 2001
YNYS MÔN			
Amlwch	Trefol ac Ymylol	Porthladd Amlwch	1391
Biwmares	Trefol ac Ymylol	Biwmares	2040
Benllech	Trefol ac Ymylol	Llanbedrgoch	1586
Cemaes	Trefol ac Ymylol	Llanbadrig	1392
Caergybi	Trefol (Tenau)	Tref Caergybi, Kingsland, Heol Llundain, Maeshyfyd, Morawelon, Parc a'r Mynydd, Pontrhydfelin	11237
Llanfair PG	Trefol ac Ymylol	Briant, Gwyngyll	3040
Llangefni	Trefol ac Ymylol	Cefni, Cyngar, Tudur	4662
Porthaethwy	Trefol ac Ymylol	Cadnant, Tysilio	3146
Rhosneigr	Trefol ac Ymylol	Rhosneigr	994
Fali	Trefol ac Ymylol	Fali	2413
GWYNEDD			
Aberdaron	Trefol ac Ymylol	Aberdaron	1019
Abersoch	Trefol ac Ymylol	Abersoch	901
Y Bala	Trefol ac Ymylol	Y Bala	1980
Bangor	Trefol (Llai tenau)	Deiniol, Dewi, Garth, Glyder, Hendre, Hiracl, Marchog, Menai, Pentir	16130
Abermaw	Trefol ac Ymylol	Abermaw	2437
Bethesda	Trefol ac Ymylol	Gerlan, Ogwen	4515
Blaenau Ffestiniog	Trefol ac Ymylol	Bowydd a Rhiw, Diffwys a Maenofferen	2950
Caernarfon	Trefol ac Ymylol	Menai, Peblig, Cadnant, Seinot	9611
Cricieth	Trefol ac Ymylol	Cricieth	1826
Deiniolen	Trefol ac Ymylol	Deiniolen	1759
Dolgellau	Trefol ac Ymylol	Gogledd Dolgellau, De Dolgellau	2678
Llanberis	Trefol ac Ymylol	Llanberis	2018
Llanrug	Trefol ac Ymylol	Llanrug	1822
Nefyn	Trefol ac Ymylol	Nefyn	1359
Penrhyndeudraeth	Trefol ac Ymylol	Penrhyndeudraeth	2467
Penygroes	Trefol ac Ymylol	Penygroes	1770
Porthmadog	Trefol ac Ymylol (DP) Pentref (GP)	Dwyrain Porthmadog, Gogledd Porthmadog *	3523
Pwllheli	Trefol ac Ymylol (GP) Pentref (DP)	Gogledd Pwllheli, De Pwllheli*	3861
Tywyn	Trefol ac Ymylol	Tywyn	3227
CONWY			
Conwy	Trefol ac Ymylol (Llai tenau)	Conwy	4080
Llanfairfechan	Trefol ac Ymylol (Llai tenau)	Bryn, Pandy	3755
Llanrwst	Trefol ac Ymylol	Crwst, Gower	3037
Penmaenmawr	Trefol ac Ymylol (Llai tenau)	Capelulo, Pont-yr-afon	3587

SIR DDINBYCH			
Bodelwyddan	Trefol ac Ymylol (Llai tenau)	Bodelwyddan	2106
Corwen*	Pentref, Pentrefan ac Aneddiadau Ynysig (Tenau)	Corwen	2398
Dinbych	Trefol ac Ymylol (Llai tenau)	Canol Dinbych, Dinbych Isaf, Dinbych Uchaf/Henllan	9528
Llangollen	Trefol ac Ymylol (Llai tenau)	Llangollen	3884
Rhuddlan	Trefol ac Ymylol (Llai tenau)	Rhuddlan	4296
Rhuthun	Trefol ac Ymylol (Llai tenau)	Rhuthun	5218
Llanelwy	Trefol ac Ymylol (Llai tenau)	Dwyrain Llanelwy, Gorllewin Llanelwy	3491
POWYS			
Aberhonddu	Trefol ac Ymylol	Dewi Sant Mewnol, Sant Ioan, Sant Marc	7901
Llanfair ym Muallt	Trefol ac Ymylol	Llanfair	2352
Crughywel	Trefol ac Ymylol (Llai tenau)	Crughywel	2767
Y Gelli	Trefol ac Ymylol	Y Gelli	1469
Trefyclo	Trefol ac Ymylol	Trefyclo	3043
Llandrindod		Dwyrain/Gorllewin Llandrindod, Gogledd Llandrindod, De Llandrindod	5024
Llanfair Caereinion*	Pentref, Pentrefan ac Anheddau Ynysig	Llanfair Caereinion	1616
Llanfyllin*	Pentref, Pentrefan ac Anheddau Ynysig	Llanfyllin	1407
Llanidloes	Trefol ac Ymylol	Llanidloes	2807
Llanwrtyd *	Pentref, Pentrefan ac Anheddau Ynysig	Llanwrtyd	1727
Machynlleth	Trefol ac Ymylol	Machynlleth	2147
Trefaldwyn*	Pentref, Pentrefan ac Anheddau Ynysig	Trefaldwyn	1257
Y Drenewydd	Trefol (Tenau)	Canol Y Drenewydd, Dwyrain Y Drenewydd, De'r Drenewydd, Gogledd Llanllwchaearn, De Llanllwchaearn	10783
Llanandras	Trefol ac Ymylol	Llanandras	2463
Rhaeadr	Trefol ac Ymylol	Rhaeadr	2075
Talgarth	Trefol ac Ymylol	Talgarth	1645
Y Trallwng	Trefol ac Ymylol	Castell, Gungrog, Llanerchydol	6269
CEREDIGION			
Aberaeron	Trefol ac Ymylol	Aberaeron	1520
Aberystwyth	Trefol (Tenau)	Bronglais, Canol y Dref, Penparcau, Rheidol, Faenor, Llanbadarn Padarn, Llanbadarn Sulien	16928
Aberteifi	Trefol ac Ymylol	Mwldan, Rhyd-y-Fuwch, Teifi	4203
Llanbedr Pont Steffan	Trefol ac Ymylol	Llanbedr Pont Steffan	2894
Llandysul	Trefol ac Ymylol	Tref Llandysul	1521

Cei Newydd	Trefol ac Ymylol	Y Cei Newydd	1115
Tregaron*	Pentref, Pentrefan ac Anheddau Ynysig	Tregaron	1217
SIR BENFRO			
Abergwaun	Trefol ac Ymylol (Abergwaun); Pentref (Wdig)	Gogledd-ddwyrain Abergwaun, Gogledd-orllewin Abergwaun, Wdig	5045
Hwlfordd	Trefol (Llai tenau)	Castell, Garth, Portfield, Pendregast, Priory, Merlins Bridge,	12991
Aberdaugleddau	Trefol (Llai tenau)	Canol, Dwyrain, Harkin, Hubberston, Gogledd, Gorllewin	13086
Arberth	Trefol ac Ymylol	Arberth	1869
Trefdraeth	Trefol ac Ymylol	Trefdraeth	1122
Neyland	Trefol ac Ymylol (Llai tenau)	Dwyrain Neyland, Gorllewin Neyland	4180
Penfro	Trefol ac Ymylol (Llai tenau)	Cil-maen, Gogledd Santes Fair, De Santes Fair, San Mihangel	7214
Doc Penfro	Trefol ac Ymylol (Llai tenau)	Canol, Llanion, Marchnad, Pennar	8676
Tyddewi	Trefol ac Ymylol	Tyddewi	1797
Saundersfoot	Trefol ac Ymylol	Saundersfoot	2784
Dinbych-y-pysgod	Trefol ac Ymylol	Gogledd Dinbych-y-pysgod, De Dinbych-y-pysgod	4934
SIR GAERFYRDDIN			
Caerfyrddin	Trefol (Tenau)	Gogledd tref Caerfyrddin, De tref Caerfyrddin, Gorllewin tref Caerfyrddin, Llangynnwr	15412
Cydweli	Trefol ac Ymylol (Llai tenau)	Cydweli	3289
Llandeilo	Trefol ac Ymylol (Llai tenau)	Llandeilo	2937
Llanymddyfri	Trefol ac Ymylol	Llanymddyfri	2870
Castellnewydd Emlyn*	Pentref, Pentrefan ac Anheddau Ynysig	Cenarth (rhan) (Caerfyrddin) a Llandyfriog (rhan) (Ceredigion)	3816
Penbre a Phorth Tywyn	Trefol ac Ymylol (Llai tenau)	Porth Tywyn, Penbre	7957
Sanclêr*	Pentref, Pentrefan ac Aneddiadau Ynysig	Sanclêr	2820
Trimsaran	Trefol ac Ymylol (Llai tenau)	Trimsaran	2533
Hendy-gwyn ar Daf*	Pentref, Pentrefan ac Anheddau Ynysig	Hendy-gwyn ar Daf	2066
SIR FYNWY			
Y Fenni	Trefol (Llai tenau)	Cantref, Castell, Croesonen, Grofield, Lansdown, Llanfoist Fawr, Mardy, Priordy	15255
Caldicot	Trefol (Llai tenau)	Castell Caldicot, Dewstow, Green Lane, Portskewett, Hafren, Pen y Gorllewin	11796
Cas-gwent	Trefol (Llai tenau)	St Christopher, St Kingsmark, Santes Fair, Larkfield, Y Gaer	10821
Trefynwy	Trefol ac Ymylol (Llai tenau) / Pentref (DwO)	Dixton gydag Osbaston, Drybridge, Drosmonnow, Wyesham	8877
Rhaglan	Trefol ac Ymylol (Llai tenau)	Rhaglan	1706

Brynbuga	Trefol ac Ymylol (LIT)	Brynbuga	2318
----------	---------------------------	----------	------

ATODIAD B: IS-GYFRES O DREFI BACH I'W DADANSODDI YMHELLACH, YN ÔL WARDIAU AC ARDALOEDD CYNNYRCH Y CYFRIFIAD

Tref	Wardiau	Ardaloedd Canlyniadau Cyfrifiad	Poblogaeth 2001	
			Wardiau	ACC
YNYS MÔN				
Llangefni	Cefni, Cyngar, Tudur	00NAML0002 – 5 00NAMN0002 – 6 00NANQ0001 – 5	4662	4102
Caergybi	Tref Caergybi, Kingsland, Heol Llundain, Maeshyfyd, Morawelon, Parc a'r Mynydd, Pontyfelin	00NAMQ001 – 4 00NAMR001 – 5 00NAND001 – 5 00NANE001 – 8 00NANH001 – 5 00NANJ001 – 4 00NANL001 – 8 00NANP0004	11237	11604
GWYNEDD				
Y Bala		00NCQG0001 - 7	1980	1980
Bangor	Deiniol, Dewi, Garth, Glyder, Hendre, Hiracl, Marchog, Menai, Pentir	00NCQU0001 – 5 00NCQX0001 – 5 00NCRE0001 – 2 00NCRG0001 – 6 00NCRK0001 – 5 00NCRN0001 – 5 00NCSE0001 – 8 00NCSB0001 – 5 00NCSK0001, 2, 6, 7 00NCQF0002	16130	15573
Blaenau Ffestiniog	Bowydd a Rhiw, Diffwys a Maenofferen	00NCQL0002 6 00NCQY0001 – 4 00NCSW0002 - 4	2950	3391
Caernarfon	Menai, Peblig, Cadnant, Seinot	00NCSG0001 – 7 00NCSC0001 – 8 00NCQP0001 – 3 & 5-8 00NCST0001 - 12	9611	9201
Dolgellau	Gorllewin Dolgellau, De Dolgellau	00NCRA0002 – 5 00NCRB0001 – 5	2678	2407
Porthmadog	Dwyrain Porthmadog, Gorllewin Porthmadog	00NCSM0001 – 6 00NCSN0001, 3-5, & 7	3523	3008
Pwllheli	Gogledd Pwllheli, De Pwllheli	00NCSQ0001 – 7 00NCSR0001 - 7	3861	3861
CONWY				
Llanrwst	Crwst, Gower	00NEPD0001 – 7 00NEPL0001 – 4	3037	3037
SIR DDINBYCH				
Dinbych	Canol Dinbych, Dinbych Isaf, Dinbych Uchaf/Henllan	00NGNM0001 – 7 00NGNN0001 & 3-14 00NGNP0001-5 & 7-8	9528	8236
Llangollen	Llangollen	00NGNY0001-3, 5-7,	3884	2627

		9-10 & 12-13.		
Rhuthun	Rhuthun	00NGPM0001 - 19	5218	5218
Llanelwy	Dwyrain Llanelwy, Gorllewin Llanelwy	00NGPN0001 - 6 00NGPP0001 - 6	3491	3491
POWYS				
Aberhonddu	Dewi Sant Mewnol, Sant Ioan, Sant Marc	00NNSY0001 - 6 00NNSZ0001 - 11 00NNTA0001 - 10	7901	7901
Llanfair ym Muallt	Llafair	00NNQN0001 - 8 00NNRG0001 00NNRR0005	2352	2640
Crughywel	Crughywel	00NNQS0001-6	2767	1836
Y Gelli	Y Gelli	00NNRD0001 - 6	1469	1469
Trefyclo	Trefyclo	00NNRF0001-3, 5-7 & 11	3043	1828
